This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

NEW YORK PUBLIC LIBRARY
3 3433 04401 7576
-1164
s, Thomas Lloyd
ion awen y Cymmry; sef, Detholiad o

THE

BEAUTIES OF WELSH POETRY.

CEINION

Awen y Cymmry:

SEF

DETHOLIAD O WAITH Y BEIRDD GODIDOCAF,

Hen a diweddar;

GYDA

Chyfieithion o Ganiadau Seisonig,

AC HEFYD,

BRYDDESTAU CYSSEFIN,

GAN THOMAS LL. JONES.

Tair dyben Prydyddiaeth—cynnydd daioni, cynnydd deall, a chynnydd dyddanwch.
Barddas.

Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

CLWYD-WASG:

DINBYCH, ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

1831.

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
410236B
ASTOR, LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS
R 1947 L

W. OWEN PUGHE, Yswo

LL. D. F. A. S. &c.

EDFRYDYDD CLODWIW BORBUAWL DDOETHINEB

AC ENCILION ADDYSG YNYS PRYDAIN;

PRIF GOLOFN

Faith y Cymmry.

ACHLESWR HAEL LLENORIAETH A BARDDAS

GYMMREIG,

AC UN A GYSSEGRASAI EINIOES LAFURUS, A DONIAU UCHELRYW, AT YR ADCHWILIADAU HYN,

Y cyflwynir

Y TLYSION BARDDONAWL HYN,

YN ARWYDD SYML O BARCH

TUAGATO,

GAN EI WAS UFUDD A RHWYMEDIG,

T. LLOYD JONES.

Fletcher-Welsh 1947

RHAGFYNEGIAD.

HEB ddybeu heiaethach na threuliaw ambell awr hamddenawl er addysg a dyddanwch, ymdueddwn i gynnull rhai odd y blodau prydferth a harddant rhesydd barddonawl fy ngwlad; effelly cynnyddai y Cangliad o dro i dro, nêu o ddamwain y dangosais i gyfaill tra hyddysg mewn barddoniaeth, ac efe, yngbyd ag ereill a garant ddyddanwch a lles eu cydwladwyr, a'm cymhellai i gyhoeddi y Ceinion. Pan yr ymroddais i gyfiawni yr annogiad, gwyddwn fod nifer o lyfrau prydyddawl eisioes yn argraffedig; ond wrth ystyriaw fod y cywreiniaf o honynt mor ddrudfawr, ac ereill nad oedd modd braidd eu meddu am un gwerth, gan eu prinder, yn ganlynawl, fod blaenffrwythau Awen y Cymmry megys yn wharddedig i amryw ag a feddant archwaeth digonawl i fawrau eu gwerth, tybiwn na byddai detholiad o honynt, ar gynllun newydd a rhad, yn gwbl anfuddiawl. Pan amlygais fy mwriad, bu rhai boneddigion mor addwyn a charedig a'm anrhegu ag amryfal Bryddestau, cystal a rhoddi cynnorthwyon ereill imi yn bared ac ewyllysgar:* a chyfeiid yn nosparth olaf y llyfr gyfansoddiadau ereill na chawsynt eu cyhoeddi o'r blaen. Detholais befyd Gyfieithion o waith y Prydyddion Seisonig, a wnelid gan feirdd a llenorion Cymmru, gan hyderu y cymmeradwyir hwynt, o leiaf, gan y rawl a hoffant ddarllen barddoniaeth Gymmreig a Saesonig, ac felly yn hysbys o haeddiannau priodawl y ddwy genedl.

Er ymddiogelu rhag ennyn tramgwydd na therfysg yn mynwesau neb, priodawl yw amlygu na pherthynai a chyuilun y Ceinion i ddodi yr holl Gywyddau yn gyfiawn, am na chaniatâai maintioli y llyfr; ond gosodid nodau i arwyddaw y manau a esgeuluaid, oddieithr pan nad ystyrid hyny o bwys arbenig.

Gan dybiaw nad hollol ddiles i ragfaenu gwaith amryfal fai hwn a fyddai Crynöad o synladau ar Farddoneg, cesglid y rhai canlynawl, ac erfyniwyf faddeuant y dysgedig am eu dodi yma er ychydig gyfarwyddiad i ereill.

Priodolir dechreuad Barddoniaeth i oesau boreuaf y byd, a chan mai bugeiliaw ydoedd un o gynorchwytion dyneiryw, bernir fod y Canladau cyntaf ar ddull Bugeilgerddi. Tra yr oedd y ceifyddydau yn anhysbys a chuddiedig, tebygawl yr ymofynai ein hynafiaid yn fore am ryw ddyddanwch er esmwythâu eu llafur, a difyr dreuliaw eu segurbryd, tra y cadwynt eu moesau yn lan a diwgr; yn y fath fachedd dawel nid oedd dim yn fwy priodawl iddynt na chanu, ac yn ganlynawl hwy a feithrinasant y ddawn aydd yn awr dan ystyriaeth. Yr oedd eu moesau mor dyner, mal y cyssegrynt eu myfyrdodau at degwch

---

* Cyfeiriaf yma gyda diolchgarwch at y dysgedig Athraw Pughe, Ancurin Owen, Yew. ac y Parch. J. Blackwell; ac ni anghofiaf gymmwynas ac hynawsedd George Phillips, Yew.

y grëadigaeth ogoneddus, y llenwid eu serchiadau â diolchgarwch tuagat y Creawdydd Hollalluawg, ac ennynid eu mynwesau tanbaid i eilliaw Caniadau o foliant i'w Naf a'u Perydd. Tebygawl hefyd y gwnäynt Gerddi yn mawrâu eu dedwyddwch eu hunain, ac o gyfeillgarwch y naill at y llall,—y cariadau mewn serch diniwed at y rhianedd hoff, er cwblau defodau cymdeithas a dybenion eu creadigaeth.

Y Gan gyntaf ar len hanesiaeth sydd weithred arbenicaf o fawl ac addoliant i Dduw Israel pan y datgenir fod "Ei ddeheulaw yn ardderchawg o nerth; a'th ddeheulaw Arglwydd a ddrylliodd y gelyn: Efe a dafiodd gerbydau Pharao a'i fyddin i'r Mor Coch; ti a'i chwythaist a'th wynt; y mor a'u todd hwynt, soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion." Exod. xv. Cedwid y dduwioldawn hon yn lan a chyssegredig drwy oesoedd canlynawl yr eglwys, ac arferid hi gan freuinoedd a phroffwydi,—gan Dafydd, Selyf, ac Esay,—i ddarluniaw gogoniant a phriodoliaethau Duw, ac yn gyfrwng o ras neu farn i eneidiau dynion. Trwy y dull hwn o ysgrifenu amlygid gymaint o agwedd ogoneddus y nef i drigolion y ddaiar ag y caniatâai aneglurdeb yr heu oruchwyliaeth. Anadlid peroriaeth angylion mor beraidd yn nghlywedigaeth meibion Addaf, nes y derchafid eu meddyliau bron hyd y nef gan felusgerddi o fawl ac addoliad i Dduw santaidd a thragywyddawl. Rhyfedd lawn fod dynion, y sawl ag y mae y Bibl yn eu dwylaw, yn barnu mor haerllug ac isel am Farddoniaeth, gan dybiaw ei bod ynnglyn ag anfoesoldeb; neu, o leiaf, nad oes ynddi nemawr addasrwydd i ymdriu a phynciau moesawl a chrefyddawl. Goddefer imi annog y cyfryw i edrych iddeu Bibl, a choffâu y dull a ysgrifenai yr hen broffwydi duwiol ynddo; ac hefyd, fod amryw ranau o yr Hen Destament mewn mydryddiaeth yn yr laith gysefin. Pan yr adrodda Eliphaz ei deimladau arawydus o santeiddrwydd Duw, efe a ddywed,—Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn o flaen fy wyneb; ac a wnaeth i flew fy nghnawd sefyll: Efe a safodd, ac nid adwaenwn ei agwedd ef; drychiolaeth oedd o flaen fy llygaid, a bu dystawrwydd; a mi a glywais lef yn dywedyd,—A fydd dyn marwol yn gyfiawnach na Duw? &c. Job iv. A phan y mae Job yn darluniaw y Bedd, mor brudd a galarus yw y fantell sydd drostaw. Pan ddel ychydig flynyddoedd cyn myned o honof lle ni ddychwelwyf: Tir tywyllwch fel y fagddu, a chysgod angau, a heb drefn, lle y mae y goleuni fel y tywyllwch. Y Bedd sydd dŷ i mi: mewn tywyllwch y cyweiriais fy ngwely: gelwais ar y pwll, Tydi yw fy Nhad: ar y pryf, Fy mam a'm chwaer wyt: a pha le yn awr y mae fy ngobaith? Diagynant i farau y pwll, pan fyddo ein cydorphwysfa yn y llwch. Job x. 21. xvii. 13. Drwg genyf na chaniatâa fy nherfynau i mi ddangos mawredd a chywreindeb ehediadau barddonawl yr awduron crybwylledig: ac nid yw ieithwedd brydyddawl y Proffwydi ereill, yn neilltuol mewn rhai mânau, yn llai godidog a nerthawl.

Gellir sylwi ychydig weithlan ar y cynneddfau neu ddylanwadau angenreidiol er cyfausoddi yn gelfyddwiw ac ardderchawg. Dylai y Bardd ymofalu gymaint wrth flurfiaw ei grebwyll *(imagination)* ag y gwna yr Athronydd wrth goleddu ei ddeall. Rhaid iddo archwaethu gweithredion anian, ac ymgynneſinaw a gwrthddrychau buchedd wladawl. Gwedi iddo gaffael digon o ddelweddau *(images)* gwladawl, os myn efe ddringaw yn uwch na

Barddoniaeth Deuluaidd dylai feddu gwybodaeth am rwysg a mawredd, bonedd a breinioldeb. Efe a ddylai fod yn dra hysbys a phobpeth ag sydd fawreddus a gorwych odidog ynnglŷn a'r celfyddydau presennol, cystal ag adfeilion y sawl ag oeddynt glodfawr yn yr oesoedd gynt. Y mae y cymhwysderau hyn yn goleuaw meddwl y dyn, yn eangu ei ddychymmyg, a dilys yr ymddangosant yn gelfyddgar trwy ei waith, os gŵyr yr awdur y dull addasaf i'w cymhwyso. Ac os dethola efe yn fanylgraff eiriau ardderchawg a chywrain, ac leithwedd ramantawl, mae ganddynt y fath allu, fal y rhodda dylaliad awenyddawl ini feddyldrych fwy bywiog, nog y gwnai hyd y nod y gwrthddrych ei hunan. A cheiff y darllenydd y dŷch yn addurnedig a lliwiau tecach a thebycach i anian yn ei ddychymmyg trwy rym ymadroddion dewisawl ac leithwedd eglurlan a biodeuawg na phe gwelai hyd y nod y golygiad a lunweddir gyda ei lygaid ei hun: y mae y Bardd yn hyn maipai efe yn rhagori ar anian. Dilys ei fod yn dwyn yr arlun oddiwrth anian, ond y mae yn dodi arno wisg gywreiniach, yn gloewi ei harddwch, ac yn bywiogi y gwrthddrych yn y fath fodd, nes yw y delweddau a ddeillir oddiwrtho yn ymddangos yn aneglur, gogyfer â'r rhai a darddant oddiwrth ymadroddion harddwych a dyfalgar. Ond rheidiol yw iddo gael y gynneddf yn ei enedigaeth cyn y gallo gyrhaedd y fath berffeithrwydd; dylai gael athrylith a chrebwyll i lawn ddyfalu anian, ac oddiwrthi i lunweddu meddyldrychau goruchel, yr hyn yw prif ansawdd barddoniaeth; ac yn ngeirian y Trioedd anhebgor i Fardd yw "llygad yn gweled anian, calon yn teimlaw anian, a glewder a faidd gydfyned ag anian."

Gyda golwg ar y mydrau hyny, a elwir yn dra phriodawl 'Y Mesurau *Caethion*,' methwyf ddirnad paham (oddieithr o arferiad yn unig) y rhoddant hwy, yn hytrach na mesurau ereill, yr enwad o Fardd ar yr hwn a fo hyddysg ynddynt: cadarnàa haneisiaeth ini mai mewn cyfnod tywyll eu breinniwyd gyntaf; pan oedd barddoneg, fal pob addysg arall, dan iau halarnaidd pabyddion a mynachod, y rhai a wahareddynt ddoethineb a gwelläad gwybodaeth. Felly nis gwn pa fodd y mae awen athrylithgar yn gysaylltiedig yn unig wrth y mesurau Caethion; tybiwyf i'w gellir cyfanoddi gwaith ac iddo fod yn berffaith gywir o barth y rheolau hyn, ac etto heb gynnwys llinell o awen ddiledryw na gwreichionen o enaid can. A chof yw genyf weled un Awdl yn y *gyedwar mesur ar ugain* ar yr enwau ysgrythyrol, ac nid oedd cymaint ag un synwyreb ynddi, o un math, heb son am feddyldrych; a dir nad oes neb a haerai fod barddoniaeth yn gynnwysedig mewn *rhestr o enwau*. Tueddir fi i wneyd y sylwadau hyn obiegyd y deallaf yr ystyria lliaws o ddarllenwyr Cymmreig bob *rimyn* yn brydyddiaeth, a phob rhimynwr yn fardd, os bydd ei waith yn gynghaneddol; ac nad oes farddoniaeth mewn gwaith yn y byd (er ardderchoced y byddo o barth iaith a meddwl) os na bydd wedi ei ysgrifenu yn y *mesurau caethion*. Cyfanaoddai y cynfeirdd uchelfri heb fawr neu ddim cynghanedd; ac addefir fod llyfrau mawr, godidogrwydd awenawl, ynnghyd a synwyr eglurbwyll yn eu canïadau hwy.

Sylwodd un o Feirdd mwyaf medrus ac enwog ei oes,* 'mai rhwyddaf a lleiaf o lyffetheiriau cynghanedd yn y mesur, goreu

* Y Parch. Goronwy Owain.

ybuki yw bod y gerdd:' drachefn y mae efe yn cwyno mai '*hualau cynghanedd* oydd yn mron *llethu* ein hiaith ni!' Ac un o Barchedigion y Deaudir* yr hwn sydd llefyd yn noddwr dysgedig a llafurus, ac achleswr bael ein Llenoriaeth, Barddoneg yn neilltuol, a grybwylla mai y mynachod pabaidd yn yr oesoedd tywyll, a rwymasant ein hawen wiwglod yn y cadwynau gorthrwm a sicrhodd Daf. ab Edmwnt wedi hyny; a bod gan holl genedlaethau Ewrop eu cynghanedd yn eu tro, ond eu bod wedi ymgywilyddio rhagddynt bellach, ac wedi eu hymwrthod oll ond y Cymmry, y rhai yn gauedig yn eu mynyddau bröawl a lynant wrthynt o hyd, a hwythhwy ydynt olaf i'w bwrw ymaith.'§ Gallaf grybwyll hefyd reithfarn Eisteddfod Caerfyrddin a gynnaliid yn 1819, pan y bernid yn unfryd unllais 'bod y pedwar mesur ar ugain yn cyfyngu Awen y Beirdd o fewn llyfetheiriau rhy gaethion; a bod, o yr achaws, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allawr gwagorchest egwanbwyll a diansawdd; ac o herwydd hyny, bod o hyny allan Ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi Canladau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas iddeu testynau.' Wrth derfynu y difynebion hyn, dodaf eiriau un o brif enwogion eiu gwlad, pan yr adrodda efe am fydryddiaeth Coll Gwynfa, dywed, 'ei fod heb odli na chynghanedd yaddo, dau o anhebgorion Awenyddion Cymmru, ysywaeth, yn ol ymoyniad cyffredin yn y diweddar oesoedd.' A phe yr unid ddoniau holl Feirdd a medrusrwydd holl ddysgedigion ein gwlad ynughyd, nis gallesid fyth gyfleithu *Paradise Lost* yr anfarwawl *Milton* ar fydryddiaeth y Caethfesurau.

Ymddengys mai llai y bu ymdrech ein Beirdd diweddar i wellàu y meddwl, trwy foddlaw y dychymmyg, nog eu hawydd i ddilyru y glust a seiniau serchus y cynghaneddion; a dyna yr achaws a bair i lawer o Bryddestau fod yn fwy priodawl i glust nac i feddwl. Llafuriant am gydsain llythyrenau, yn hytrach na synwyr, dilìynder, a deiweddau awenddrud; ac feily attalir yr ehediadau uchelgain hyny a sicrhant fri anfarwawl i orchestion yr Awen. Y mae yn debygawl pe na chaethiwasid Beirdd Cymmru erioed yn y mesurau hyn, y gallasem heddyw ymffrostiaw o Brydyddiaeth llawer ardderchocach nag a feddom idd ei arddeiwi yn bresennol. Gallasem, efallai, gystadlu gwaith ein awenawl (ond anffodus) *Oronoco o Fon* gyda barddoniaeth *Byron* uchelfri; neu farddoni *Dafydd Ionawr* gyda eiddo *Montgomery* fawryddig. Nid ewyllysiwn, ar un cyfrif, lwyr ddifodi y mydrau hyn, gan fod nifer o honynt mor unawl ag ansawdd ein hiaith; ond ni chwennychwn i feirdd gael eu caethiwo atynt hwy yn unig pan y gellir cael mydrau ereill mwy rhydd a phriodawl i ysgrifenu ynddynt.

O ddiffyg lle gorfyddid adael allan rai Pryddestau Cyssefin; ond yr ydys ar gyhoeddi rhan olaf y gwaith yn wahanol, ac eu hychwanegu ato.

Yn ddiolchgar y cydnabyddwyf fy rhwymedigaeth i gynnorthwywyr lliosawg y Ceinion; ac y bydd o les a dyddanweh i fy nghydwladwyr yw gwir ddymuniad eu gwasanaethwr,

GWENFFRWD.

TREFFYNON, *Awst* 1, 1831.

---

* Y Parch. Archdiacon Beynon. § Llythyr Cyf. at yr Awdur.

CEINION

AWEN Y CYMMRY.

MISOEDD MAWRTH A MEHEFIN.

Mis Mawrth—mawr ryfyg adar,
Chwerw oerwynt ar dalar;
Hwy fydd hinon na heiniar,
Hwy peru llid na galar:
Pob rhyw arynaig a ysgar;
Pob edn a edwyn ei gymhar:
Pob peth a ddaw trwy'r ddaiar
Ond y marw,—mawr ei garchar!

Mis Mehefin—hardd tiredd,
Llyfn mor, llawen maranedd;
Hirgain ddydd, heini gwragedd;
Hilawn praidd, hyffordd mignedd;
Duw a gar bob tangnefedd,
Diawl a bar bob cynddrygedd:
Pawb a chwennych anrhydedd,
Pob cadarn gwan ei ddiwedd.

DYHUDDIANT ELFFIN.

Elffin deg, sych dy ddeurudd!
Ni weryd fod yn rhybrudd:
Cyd tybiaist na chefaist fudd;
Ni wna les gormod cystudd.
Nag ammheu wyrthiau Dofydd:
Cyd bwyf bychan, wyf gelfydd.
O foroedd ac o fynydd,
Ac o eigiawn afonydd,
Y daw Duw â da i ddedwydd.

AGWEDD RHYFELWYR.

Gwelais wyr gorffawr,
A ddygyrchynt awr;
Gwelais waed ar lawr
Rhag rhuthr cleddyfawr,
Glesynt esgyll gwawr;
Esgorynt yn waewwawr.*

* The last two lines of this picturesque passage, convey a fine and uncommon image, not more remarkable for its boldness than its accuracy, and may be placed in competition with some of the happiest thoughts of the most renowned poets.

They tinged with blue the wings of the morning,
When they flung forth their gleaming lances.

Llywarch Hen employs the same beautiful image, when he says, "Like wings of the dawn was the gleaming of the lance of Dunwg."

"Esgyll gwawr oedd waewwawr Dunwg."

TRIBANAU.

Y DDEILEN a drefyd gwynt,
Gwae hi o'i thynged!
Hen hi,—eleni y ganed.

Calangauaf cain gyfrin,
Cyfred awel a drychin:
Gwaith celwydd yw celu rhin.

MARWNAD CYNDDYLAN.

GAN fy nghalon i mor dru,
Cysylltu ystyllod du,
Gwyn-gnawd Cynddylan cynran canllu!

Ystafell Cynddylan ys tywyll heno,
Heb dan, heb wely;
Wylaf dro, tawaf wedy.

Ystafell Cynddylan, ys tywyll heno,
Heb dan, heb gerddau,
Dygystudd deurudd dagrau.

Ystafell Cynddylan a'm gwân ei gweled
Heb döed, heb dan,
Marw fy nglyw!—byw my hunan.

Ystafell Cynddylan ys araf heno,
Gwedy colli ei hynaf:—
Y mawr drugarawg Dduw, pa wnaf!

Y GOG YN ABER-CUAWG.

Cog lafar a gân gan ddydd,
Cyfreu eichiawg, yn nolydd Cuawg,—
Gwell corawg na chybydd.

Yn y fan odduwch llon dar,
Ydd endewais i lais adar;
Cog fan cof gan bawb a gar.

ENGLYNION YR EIRY MYNYDD.

Eiry Mynydd, brith bryniau,
Elynt hyddod i gymau:
Ni chwsg dedwydd hun forau.

Eiry Mynydd, rhewid rhos;
Gwynfyd herwr yw hirnos;
Gnawd pob dedwydd yn niddos.

Eiry Mynydd, gwlyb glàn naint,
Anhunog pawb yn henaint;
Ni bydd cyttun hun â haint.

Eiry Mynydd, gwyn ei gan,
Nid gnawd bran fynych ganu;
Ni cheir da o bir-gysgu.

Eiry Mynydd, llawn aber,
Hawdd eiriol lle y carer;
Tra fych byw na fydd ofer.

ENGLYNION Y CLYWED.

A GLYWAISTI a gant y fronfraith
Pan dramwyioh dros ddiffaith;
Na fid elyn dy gydymaith.

A glywaisti a gant Cynfarch,
Bid dy ysgwyd ar dy farch;
Ar na'th parcho na pharch.

A glywaisti a gant Dewi,
Gwr llwyd, llydan ei deithi;
Goreu defawd, daioni.

A glywaisti a gant Eilerw;
Marchawg serchawg syberw;
Hir y cnöir tamaid chwerw.

A glywaisti a gant Esperir,
(Yn ymddiddan â Meni hir)
Car cywir, yn ing ei gwelir.

A glywaisti a gant y pysg,
Wrth ymdrafull yn mhlith y gwrysg;
Trech anian nag addysg.

A glywaisti a gant Afäon
Fab Taliesin, gerdd gyfion;
Ni chel grudd gystudd calon.

A glywaisti a gant Gwïawn,
(Dremynwr golwg uniawn)
Duw cadarn a farn pob iawn.

GORHOFFEDD GWALCHMAI.

Mochddwyreawg huan haf dyffestin
Maws llafar adar, mygr hear hin.
Mi ydwyf eurddeddf diofn yn nhrin;
Mi ydwyf llew rhag llu lluch fy ngordin!
Gorwyliais nos yn achadw ffin.
Gorloes rydau dwfr, dygen Freiddin,
Gorlas gwellt didryf dwfr neud iesin,
Gorddyar eaws awdl gynnefin.

Carafi eos Fai, forehun ludd,
A golygon hwyr hirwyn ei grudd;
Caraf eilon mygr maith arnadudd.
Carafi yr ednan, a'i llarian lais,
Cathl foddawg coed. * * * *

ARWYRAIN OWAIN GWYNEDD.*

ARDDWYREAF hael o hil Rodri,
Ardwyad gorwlad gwerlin teithi,
Teithiawg Prydain,
Twyth afyrdwyth Owain,
Teyrnain ni grain,
Ni grawn rei.

* The most remarkable characteristics of this Ode, are the rapid succession of circumstances which it details,—the impetuous fire, infused by the poet into his verse,—and, above all, that condensed and nervous expression peculiar to our ancient poetry, of which no English translation can furnish any adequate notion.

Bishop Percy, in a Letter to the Rev. Evan Evans, speaks in the following high and merited terms of praise of this production:—

"It contains a large portion of the sublime.—The images are very bold and animated, and poured forth with such rapidity, as argues an uncommon warmth of imagination in the bard, whose mind seems to have been so filled with his subject, and the several scenes of the war appear to have so crowded in upon him, that he has not leisure to mark the transitions with that cool accuracy, which a feebler genius would have been careful to have done. It is one continued fiery torrent of poetic flame, which, like the eruptions of Ætna, bears down all opposition."

It was on an imperfect English version of this sublime Ode, Gray founded his "Triumphs of Owen."

Gwalchmai, the poet, lived in the twelfth century.—

Tair lleng y daethant, liant lestri,
Tair praff prif llynges, wy bres bron;
Un o Iwerddon,
Arall arfogion
O'r llychlynigion,
Llwrw hirion lli.

A'r drydedd dros for o Norddmandi,
A'r drafferth anferth anfad iddi.
A draig Mon, mòr drud ei eissiludd yn aer,
Y bu terfysg taer i haer holi,
A ragddaw rhewys dwys dyfysgi,
A rhewin, a thrin, a thranc cymri;
Ar gad gad greudde,
Ar gryd gryd graendde,
Ac am dal Moelfre
Mil fanieri!

Ar ladd ladd llachar, ar bar beri,
Ar ffwyr ffwyr ffyrsgawd, ar fawd foddi
A Menai heb drai o drallanw gwaedryar,
A lliw gwyar gwyr yn heli;
A llurygawr glas a gloes trychni;
A thrychion yn dudd rhag rheiddrudd ri.
O ddygyfor Lloegr, a dygyfrang á hi;
Ac eu dygyfwrw yn astrusi,
Y dygyfod clod cleddyf difri;
Yn saith ugain iaith wy faith foli!

AWDL HOFFDER HYWEL.

Carafi gaer falchwaith o'r Gyfylchi,
Yn y bylchau balchlun, fy hun ynddi;
Enwawg drafferthawg a draidd iddi;
Anwar dòn lafar lefawr wrthi.
Dewisle lywy loew gyd-deithi,
Glaer gloew y dwyre o du gweilgi
A'r wraig a lewych ar eleni,
Flwyddyn yn ynial Arfon yn Eryri:
Ni ddirper pebyll ni ffyll bali
Neb a rwy garwy yn fwy noddi;
Pei chwarei y bydd y barddoni,
Nebawd noswaith y byddwn nesaf iddi.

Y DEWIS.

Carafi amser llaf, amsathyr gorwydd
Gorawenus glyw rag glew arglwydd;
Gorewynawg tòn, tynhegyl ebrwydd;
Gorwisgwys afall arall arwydd;
Gorwen fy ysgwyd ar fy ysgwydd, i drais.
Cerais ni gefais, gyfai-awydd!
Ceridwen, hirwen, hwyrwan ogwydd,
Cyfeilw gwen wawr yn awr echwydd,
Claer wàn-lun, wèn-leddf, wynlliw gwydd;
Wrth gàmu brwynen, braidd na ddygwydd;
Bechanigen wèn, wàn ei gogwydd.

Bychan y mae hyn no dyn deg-mlwydd;
Mabinaidd, luniaidd, lawn gweddeiddrwydd:
Mab-ddysg oedd iddi roddi yn rhwydd,
Madwraig mwy yd ffaig ffynedigrwydd àr wen
Na pharabl o'i phen anghymenrwydd.
Pedestrig iolydd a'm bydd i eilwydd!
Pa hyd yth iolaf?—saf rhag dy swydd:—
Adwyfi yn anfedredd o ynfydrwydd caru?
Nym cerydd Iesu, y cyfarwydd!

DEWISFERCH HYWEL.

Fy newisi riain firain faindeg,
Hirwen yn ei llen, lliw ehöeg;
A'm dewis synwyr syniaw arwreigedd,
Ban dywed o fraidd weddaidd wofeg;
A'm dewis gydran gyhydreg â bun,
A bod yn gyfrin am rin, am reg.
Dewis yw genyfi hardd-liw gwaneg,
Y doeth i'th gyfoeth, dy goeth Gymräeg.
Dewis genyfi di:
Beth yw genyti fi?
Pa beth, a dewi di?
Deg ei gosteg?
Dewiseisi fun, fal nad atreg genyf:
Iawn yw dewisaw—dewis, dyn deg.

GWLADGARWCH HYWEL.

Caraf ei morfa, a'i mynyddedd,
A'i caer ger ei choed, a'i chain diredd;
A'i dolydd, a'i dwfr, a'i dyffrynedd,
A'i gwylain gwynion, a'i gwymp wragedd;
Caraf ei milwyr, a'i meirch hywedd,
A'i choed, a'i chedyrn, a'i chyfanedd:
* * * * * * *
Caraf ei maesydd, a'i man feillion arnaw:
* * * * * * *
Caraf yr eaws ar wyryaws wydd.
* * * * * * *
Caraf drachas Lloegyr!

CYFARCH GWELL DAFYDD.

Hanbych well Dafydd, handid o ddefawd,
Gogyfarch tëyrn, gogwyr tëyrnfardd:
Gogyfwrdd torment, gogyfiaw torfoedd;
Gogawn tëyrnfeirdd, gogawn tëyrnfro;
Termud torment terwyn dëyrn!
Eryres ormes eryron dyrfa,
Eryr tëyrnon yr un dëyrgain:
Eryr draig ormant, ardduniant prif-feirdd!
Eurddwrn prydyddion, arwynawl prydfar,
Ar wyneb Prydain!—

Hud wyt i'th edryd, hud wyt i'th edfryd,
Hydyrfeirdd o'th edrych, hud ynt yth adrawdd.
Erioed dy anghar aerawd dydd angeu,
Eurawg dy angad, eirydd i'm angen.
Tëyrnllu, tëyrnedd, tëyrnllaw, tëyrnllin,
Tëyrnllyw teyrnas, terfyng torment;
Terfyn tir gadw terwyn.
Tëyrn ar gedyrn, eurgedawl—Ddafydd
O ddefawd angerddawl;
Rwym cynygyn, cynogyn ddidawl,
Rwyf Prydain, prydydd a'th fawl!

ENGLYNION I OWAIN AB MADAWG.

Owain aer dilain a dylif—yn ngawr
A llafnawr lladd heb rif;
Ac o du gwaedlafn gwaedlif,
Ac ar dir cynygyn cynnif.

Cynnyddws aerflaidd aerflawdd—teyrnedd
Teyrnas gyfadrawdd,
Ni bu trwy hunaw tra hawdd
Ni bu trwy gysgu gasgawdd.

Gosgorddfawr, cedfawr, cadw ammod—wrthyf
I wrthyd nam gwrthod;
O'm bodd ni byddwn hebod,
Nid ef oedd fy modd fy mod.

Gan fod yn unfraint, yn unfryd—am llyw
Llawfrydedd ni'm engyd;
Dragonawl wrhawl wrhyd,
Draig wynfa, dragon wynfyd!

Arglwyddi gynhwrf gynorawr—yn nhorf
Yn nherfysg byddinawr;
Marchawg balch bwlch ei aesawr,
Meirch anfonawg, mynawg, mawr;

* * * * * * *

Mawr ged anghaled yn nghalan Ionawr

* * * * * * *

A'm penaeth ydd ym a'm penaf—terwyn
Tyrant feirdd am alaf;
Teyrnaidd hael teyrnaf,
Teyrnedd orsedd orsaf.

* * * * * * *

Eurgolofn arwr yn arwain—eurgrwydr,
Yn eurgrair gywyrain;
Yn aergre mawr yn aergrain,
Ergryd byd—bid rag Owain!

I LYWELYN AB IORWERTH.

Gwr a wnaeth llewych o'r gorllewin,
Haul a lloer addoer, addef iesin,
A'm gwnel radd uchel rwyf cyfychwin
Cyflawn awen awydd Fyrddin,

I ganu moliant mal Aneurin gynt,
Dydd y cant Ododin.*
I foli Gwyndawd Gwyndyd werin,
Gwynedd bendefig, ffynedig ffin;
Gwanas deyrnas deg cywrenhin,
Gwraidd teyrnaidd, taer yn mrwydrin
Gwrawl ei fflamdo, am fro Freiddin.
Er pan oreu Duw dyn gysefin,
Ni wnaeth ei gystal, traws arial trin,
Gorug Llywelyn, orllin teyrnedd,
Ar y breninedd braw a gorddin.
Pan fu'n ymbrofi a brenin Lloegr,
Yn llygru swydd Erbin,
Oedd breisg freisg ei fyddin,
Oedd brwysg rwysg rhag y godorin,
Oedd balch gwalch golchiad ei lain,
Oedd gweilch beilch weled ei werin,
Oedd clywed cleddyfau finfin;
Oedd clybod clwyf yn mhob elin;
Oedd briw rhiw yn nhrabludd odrin:
Oedd braw saw Saeson Clawdd y Cnwcin;
Oedd bwlch llafn yn llaw gynnefin,
Oedd gwaedlyd penau gwedy gwaedlin;
Rhyw—yn rhedeg am ddeulin
Llywelyn ein llyw cyffredin;
Llywiawdr berth hyd Borth Ysgewin;

* An heroic Poem of the 6th Century.

Ni ryfu gystal Gwstenyn ag ef
I gyfair pob gorllin:
Mi i'm byw be byddwn dewin,
Yn marddair mawr-ddawn gysefin,
Adrawdd ei ddäed, aerdrin, ni allwn,
Ni allai Daliesin.
Cyn adaw y byd, gyd gyfrin,
Gan hoedl hir ar dir daierin;
Cyn dyfnwedd ysgyrnwedd ysgrin,
Yn naiar dyfnlas, ar lesin:
Gwr a wnaeth o'r dwfr y gwin,
Gan fodd Duw, a diwedd gwirin,
Nog a wnaethpwyd trais anwyd trin,
Yn mhresent yn mhrysur orllin,
Ni warthäer hael am werthefin nos,
A nawdd saint boed cyfrin.

DYDDBRAWD.

Pan wnel Duw ddangaws ei faran,
Dyddwyre dy daerad arnan;
Dychryn twryf torfoedd yn eban,
Dygyrch hynt; dychre gwynt gwaeddfan;
Dychymmriw tòn amliw amlàn
Dychymmer ufeliar bar bàn,
Dychrŷs gwrŷs gwres tandde allan.

ENGLYNION MOESAWL.

Llyngfawr daiarawr derfyn—a garaf,
A gerais si chaalyn;
Neud eddwyf yn oer dyddyn,
Nid oes dim einioes i ddyn.

Pob dyn oer dyddyn neud eiddaw—angeu,
Anghyfeillwr iddaw,
I feddu daiar arnaw,
I fedd o'r diwedd y daw.

MARWNAD GWENHWYFAR

Haul Wynedd neud bedd nid byw—unbenes,
Heb ynnill ei chyfryw;
Henw gorhoffder a ddery w,
Hoen lloer hun oer heno yw!

Dygn ymyraedd gwaedd bu gwael—ymylchlawr
Tros mwyalchliw ddwyael;
Dyn aur a fu'n dwyn urael,
Deune heelwedd heilfedd hael;

* * * * * * * * *

Gwar ddeurudd hoen gwawr ddwyre.

——————— Och Wenhwyfar—deg
Dygn ynof dy alar;
Glwysaf corff dan bridd glasar,
Gloes fawr llawr llan dwf gwan gwar.
* * * * * * * *
Ni roed ynmryd bryd bronllech,
Oerllawr dygn, eurlloer degach;
Ar ail cwyn ar ol can—och
Erddrym deigr, ar ddrem degach.

Lle bu ra a gwyrdd, lle bu rudd—a glas,
Neud gloes angau gystudd;
Lle bu aur am ei deurudd,—
Lle bu borffor,—cor a'i cudd!

Gwae fi, lwysgrair Mair mawr! i'm cyffry—deigr
Am eurdegwch Cymru!
Myned mewn argel wely,—
Meinwr dwf, is mynor dy.
* * * * * * * *
Lle bu ffiwch degwch, deigr a wylir,
A phorphor a rhudd, neud grudd grodir.

I DDUW.

Un Arglwydd cyfrwydd cyfreithgar,—wledig
A wledych heb afar;

Un Mab Mair, meidrawl diarchar,
Un Dofydd tragywydd trugar,
Un Rien rwyf nef a daiar:
* Cyn bwyf gwan esgus gwyn esgar
Bwyf gwas Duw, gwesti dialar;
Cyn bwyf angenawg angenwar,
Hoedl hoedran hoen eban abar,
Cyn angen angeu athrugar,
Arglywed gloes glaswedd glar,
Cyn dirfawr gyfwawr gyfysgar,
Cyn no'm dwyn i'm diwedd garchar,
Cyn oergawdd angladd anghlaear,
Yn ngwasg yn ngwisg derw a gwyar:
* Iawn o'm dawn, doeth arlafar,
Iawl heb dawl, heb doli arwar,
Iolydd wyf o nwyf yn afar;
Iolafi Dduw y difwyn ei far:
* Llawenydd llu nef llawena fy mryd,
Yth wynfyd, yth wynfa.

I FERCH.

Gwelais ar forwyn fwyn fawryddig,
Golwg diserchawg syberw ceinmyg
Lliw golau tonau, taenferw gwenig
Llanw ebyr lle ni fawrdrig:

Mynych ymanfon dygn gofion dig—yrof
Arian ganwyll ryfig,
Mal ydwyf yn celu calon ysig;
Ni fadgyrchawdd Gwen gwely eiddig.

I HYWEL AB OWAIN.

* Gnawd gan draws lyw maws luman—archauad
Yn aergad ei argan;
Gnawd roddawg rhag marchawg midlan;
Gnawd cynteirf cyntwrf yn arnan,
Gnawd yn ei gyman gymyredd am heirdd
A glwys-feirdd uch glaspan
Gnawd addaw iddaw a ruddeir o'i law
A ruddfeirch ei danan;
Gnawd i'm ri ruddfeirdd o faran
A rhoddi rhuddwisg am danan;
Gnawd y gwna rudd-lanw amgylch Rhuddlan—
A rhuddliw ardylan; [gaer
Gnawd gosgo gosgordd yn ddiflan,
Fal ymosgryn mawr gawr Gamlan.
* Am byrth Caer Fyrddin
Porthes gwyr gwaedlin,
A gwawr trin bu trechaf:
* Brwysg rhwysg rhwyf trydar,
Bwrw lwrw lid anwar
Bwyd adar o'i adaf.

* O golofn y **Prydain y prydaf—yn gelfyd**
O'r defnydd y dyfnaf
O bryddest, o ddyllest, a ddulliaf,
O ddawn Duw can doddyw ataf.

O'r mor pwy gilydd py gelaf—fy ngair
Y gadair a gadwaf;
O gadwent o gadwyd eithaf,
Athwyd fyth, a'th enw yn fwyaf.

A'th dir a'th degwch,
A'th elyf a'th elwch,
A'th wolwch a'th alaf;
A'th frondor a'th fro gadarnaf,
A'th folchlafn a'th falch ymorsaf,
A'th folir a'th welir a'th welaf—yn fynud
A'th olud ymdanaf,
A'th folant feirdd byd a'th folaf,
A'th fo hael hil Rhun a wnaf,
A'th orchymmynaf gan y mawr drugar,
Plaid a gar plant Addaf.

Llyma Englyn a gant Cynddelw gwedi anfon Mynach o Fynelch Ystrad Marchell i'w wrthod, ac i ddywedyd nas cleddynt yn eu Monachlog.

Cen ni bai anmod dyfod—i'm herbyn
A Duw gwyn yn gwybod;
Oedd iawnach i fynach fod
I'm gwrthfyn nag i'm gwrthod.

I FEFANWY FECHAN O GASTELL DINAS BRAN.

Neud wyf ddihunwyf hoen creirwy—hoewdeg
A'm hudodd fal garwy,
O fan o'r byd rhwymgwyd rhwy
O fynor gaer Fefanwy.

Trymaf yw cariad tramwy—hoen eurnef
Hwn arnaf dy facwy:
Dy far feinwar Fyfanwy,
Ar a'th gar ni bu far fwy.

Gofyn ni allaf namyn gofwy—cur
Dug mewn cariad fwy-fwy
Fynawg eirian Fefanwy
Fuchedd ael fun hael fyw'n hwy.

Eurais wawd ddidlawd ddadl rhwy—eglurllwybr
I glaerllun Myfanwy,
Euraf i haul amaerwy
Er ei mwyn o eiriau mwy.

Nid hawdd ardeml cawdd ardwy—adneuboen
Adnabod Myfanwy,
Hoen a'th gar afar ofwy,
Hoed brwyn i'r ddwyn yr ai'r ddwy.

Gorwydd cyrch ebrwydd ceirch ebran—addas
Dwg dristwas dig drystan;
Llwrw buost farch llary buan
Lle arlloes fre eurllys Fran.

* Gyrais a llidiais farch bron-llydan—hoew,
Er hoen blodau sirian,
Gyrawdd ofal i'r Alban,
Garhir braisg ucheldir Bran.

Lluniais wawd ddefawd ddifan—traul ofer
Nid trwy lafur bychan,
Lliw eiry, cymmar pen Aran
Lloer bryd lwys-fryd o lys Fran.

MISOEDD TACHWEDD A RHAGFYR.

Mis Tachwedd,—tuchan merydd,
Bras llydnod, llednoeth coedydd,
Awr addaw trwy lawenydd,
Awr drist, drosti a dderfydd:
Y da, nid eiddo 'r cybydd,
Yr hael a'i rho pieufydd;
Dyn a da 'r byd a dderfydd;
Da nefawl, tragwyddawl fydd.

Mis Rhagfyr,—byrddydd, hirnos,
Brain yn egin, brwyn ar ros;

Tawel gwenyn ac eos;
Trin ynghyfedd diweddnos;
Adail dedwydd yn ddiddos;
Adwyth diriaid heb achos;
Yr hoedl, er hyd ei haros,
A dderfydd yn nydd a nos.

PRYDFERTHWCH DEILDY Y BARDD.

Neuadd hardd newydd yr haf,
A'i ais yw goglais gwiwglaf.
Mae adar gwlad baradwys
A'u ton glaer, ar y twyn glwys:
Mil o gerddorion melys
Yn swnio 'n llawn sy 'n y llys;
Cywyddau, gweau gwiail,
Cywion priodolion dail;
A'u cydgainc yn gwau coedgerdd,
Hyd y coed yn hudo cerdd:
Mae cog annifiog ei nad,
Wr siriol, yma'n siarad;
Ceiliog mwyalch â balchiaith,
A min yn son iesin iaith;
A gwawd llinosod mewn gwig,
A bronfraith ffraeth ar brenfrig.

YR EAWS.

Yr Eos ar ir wiail,
Rhion prydyddion y dail.

YR HAF.

Yr Haf hynaws rhwyf hinon,
O'm serch am danad mae 'm son;
Dychwel yn ol i'r dolydd,
Yn drum draw er gwisgaw gwydd;
Rho ddail a gwiail ar goed,
A'th degwch i berth dewgoed;
A doldir yn llawn deildai,
A thrydar man adar Mai;
A'th glod achlan a ganaf,—
Can hawddfyd hyfryd i'r Haf.

Y GAUAF.

Gauaf sy 'n lladd y gwiail,
A dug o goedydd y dail;
A'i chwithig wynt yn chwythu
A'i ruad arth a'i rew du.

Eira gwyn yn oeri gwedd,
A'r lluwch yn cuddio 'r llechwedd;

Pob lle 'n oer, pob llwyn yn wyn,
A diffrwd fydd y dyffryn;
Clo ar ddwfr (nid claear ddydd)
A durew hyd daearydd.*

Y DARAN.

Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst Taran tros y tiroedd;
A ffrydiaw croewwlaw creulawn,
A phoeri mellt yn ffrom iawn.

Duryn fflam y Daran ffiwch,
Dug warwyfa 'n digrifwch:
Trwst enbyd, tristyd i'r trwyn,
Trwst mawr yn tristâu morwyn.
Twrf a glyw pob tyrfa glau,
Tarw cryg yn tori creigiau.
Taran a ddug trinoedd yn,
Trwst arfau wybr tros derfyn;
Tan aml a dwr tew 'n ymladd,
Tan o lid,—dwr tew 'n ei ladd!
Clywais fry, ciliais o fraw,
Cawrlais utgorn y curwlaw:
Mil fawr yn ymleferydd
O gadwynau sugnau sydd.

* Lewis Morris yw awdur y chwe llinell olaf.

Braw a ddiogynodd i'm bron;
Bwrw deri o'r wybr dirion!
Gwyllt yr awn a'm gwallt ar wyr,
Gan ruad gwn yr awyr:
Gwiddon goch yn gweiddi 'n gau,
Gwrach hagr, dan guro ei chawgiau:
Rhegain garm rhyw gwn gormes;
Rhuglgroen, yn rhoi gwlaw a gwres;
Tori cerwyni crinion
A barai gri o'r wybr gron:
Canu trwmp o'r wybr gwmpas,
Curo gwlaw ar bob craig las:
Croglef yn drylliaw creiglawr,
Crechwen o'r ffurfafen fawr;
Trwy ei hun y t'rawai hwrdd,
Tebyg i gann tabwrdd.

GWALLT MORFUDD.

Llin merch, oreuferch rasawl,
Llwyn aur, mal llinynau 'r mawl,
Dros ei deurudd i'w cuddiaw,
Lloweth yn ddwybleth a ddaw.
Yn gwnfallt, fanwallt, fynwaur,
Yn gangog frig eurog aur.
Aur melyn am ewyn mor,
Tresi man tros ei mynwor:

Bargod haul goruwch brig ton;
Lluryg euraid, lliw 'r goron:
Blodeuog oedd, blaid ag aur,
Brau gwyreiddwallt brig ruddaur.
Canaid ei grudd dan ruddaur,
Cofl aur wen, cyfliw a'r aur;
Eirian rodd arwain ruddaur,
Ar ei phen o raffau aur.

YR HEDYDD.

Dysgawdr mawl rhwng gwawl a gwyll,
Disgyn nawdd Duw ar d'esgyll.
Cathl lan a diddan yw 'r dau
Gethlydd awenydd winau.

MAWL I FAI.

Hawddammor glwysgor glasgoed,
Fis Mai o'i leision dai doed!
Cadarn farchog, serchog sal,
Cadwynog feistr coed anial;
Cyfaill cariad ac adar,
Cog a serchogion a'i car:
A daw ar ucha' blaen dar,
Caniadau cywion adar;

A chog ar làn pob rhandir,
A chethlydd a haf-ddydd hir!
Ac wybren hoew ar brydnawn,
A fydd glwyswydd, a glaswawn;
Ag adar aml ar goedydd,
Ac irddail ar wiail wydd;
A chof am Forfudd, f' eurferch,
A chyffro saith nawtro serch.

Y MIS DU.

ANNHEBIG yw'r Mis dig du,
A gerydd i bawb garu:
A bair brithwlaw, a byrddydd,
A gwynt yn ysbeiliaw gwŷdd;
A niwl gwyn yn ael y gwynt:
Yn diffriw ganol dyffrynt;
Ac wybren dremled ledoer,
A'i lluch yn gorchuddiaw'r lloer;
Ac annog llanw, ac anwyd,
Ac mewn naint llifeiriant llwyd;
A llawn son mewn afonydd
Yn ysu dwr nos a dydd;
Ag oerfel, rhyfel, a rhew,
A llaesglog a chenllysglew:—
Del iddaw (rhyw addaw rhwydd)
Deuddrwg am ei wladeiddrwydd!

Y LLWYNOG.

* * * * * * *

Gwelwn, pan edrychwn draw,
Llun gwrab, lle nis carwn,
Llwynog coch, ni char llun cwn,
Yn eiste' fal dinas-twrch,
Ger ei ffau ar gwr ei ffwrch.
Gwr yw ef a garai iar,
A choeg edn a chig adar;
Gwr i'w ddilyd gyrn ddolef,
Garw ei lais a'i garol ef.
Gwridog yw ym mlaen grodir;
Gwedd ab yn mhlith y gwydd ir:
Lluman brain gerllaw min bryn,
Llamwr erw, lliw marworyn:
Cenau ar fryn cnöwr iar fras,
Cna' diarab, cnawd eirias.
Nid hawdd i mi ddilyd hwn
I'w dy-annedd hyd annwn:
Deugwae 'r talwrn lle dygwydd,
Delw ci yn adolwg gŵydd;
Rhodiwr coch, rhydir ei caid,
Rhedai 'mlaen rhawd ymlyniaid;
Llym ei ruthr, llamwr eithin,
Llewpart a *dart* yn ei din!

Y FWYALCHEN.

Y Fwyalchen awenawl,
Ymlyni gerdd yn mlaen gwawl,
Ceiliog wyd yn y celydd,
Yn ngoror dol yn ngwawr dydd;
Toniadur pen twyn ydwyd,
Tan y gaer wen tongar wyd.

O FARWNAD GRUFFUDD GRYG.

Ni chair son gair o gariad,
Na chan, gan ochain a nad;
Er pan aeth, alaeth olud,
Dan ei fedd i dewi 'n fud!
Ni chwardd udfardd o adfyd,
Ni bu ddigrifwch o'r byd!
Nid byw edn glan a ganai,
Nid balch ceiliog mwyalch Mai;
Ni chynnyd mewn serch annog,
Ni chan na hedydd na chog,
Na llinos yn agos i ni,
Nag irddail yn y gerddi;
Na bronfraith ddwbliaith ddyblyg,
Ni bydd wedi Gruffudd Gryg!
Na choedydd, dolydd, na dail,
Na cherddi,—yn iach irddail!

I ANFON YR HAF I ANNERCH MORGANWG.

* * * * * * *

Clyw fi, Haf! o chaf i'm chwant,
Yn genad ti 'n d' ogoniant,
Hed drosof o dir Esyllt,
O berfedd gwlad Wynedd wyllt—
Gyr onis bo'ch i'm goror,
Anwyla màn yn ael mor.

F' annerchion yn dirion dwg
Ugainwaith i Forganwg;
Fy mendith a llith y lles
Dau-gan-waith, i'r wlad gynhes!
Dymgais a'm gwlad o'i hamgylch,
Damred a cherdded ei chylch;
Gwlad dan gaead yn gywair,
Lle nod gwych, llawn yd a gwair;
Llynoedd pysg, gwinllanoedd pêr,
A maendai, lle mae mwynder;
Arglwyddi yn rhòi gwleddoedd,
Haelioni cun heilwin cordd.
Ei gwelir fyth, deg lawr fau
Yn llwynaidd gan berllanau;
Llawn adar a gar y gwydd,
A dail a blodau dolydd;
Coed oslog, caeau dysglaer,
Wyth ryw yd, a thri ò wair;

Perlawr purlas, mewn glás glog,
Yn llanaidd a meillionog!

Yno mae gwychion fonedd
A dal im' aur mal a medd;
Ac aml gor y cerddorion,
A ganant a thant a thon:
Ymborth amred i'r gwledydd
A dardd o honi bob dydd;
A'i blith a'i gwenith ar g'oedd,
Yn doraeth i'r pell diroedd:—
Morganwg ym mrig ynys
A byrth bob man, llan a llys!

O'th gaf yr Haf i'th awr hardd,
A'th geindwf a'th egindardd;
Dy hinon yn dirion dwg,
Aur-genad, i Forganwg;
Tesog fore, gwna 'r lle 'n llon,
Ac annerch y tai gwynion:
Rho dwf, rho gynnhwf gwanwyn,
A chynnull dy wull i dwyn;
Tywyna'n falch àr galch gaer,
Yn luglawn, yn oleuglaer;
Dod yno 'n dy fro dy frisg,
Yn wyrain bawr, yn irwisg;
Ysgwyd lwyth o ber ffrwythydd,
Yn rad gwrs ar hyd ei gwydd;

Rho 'th gnwd, fal ffrwd ar bob ffrith,
A'r gweunydd, a'r tir gwenith;
Gwisg berllan, gwinllan a gardd,
A'th lawnder, a'th ffrwythlondardd;
Gwasgar hyd ei daiar deg,
Gu nodau dy gain adeg!

* Ac yn nghyfnod dy flodau,
A'r miwail frig tewddail tau,
Casglaf y rhos o'r closydd,
Gwull dolau a gemau gwydd;
Hoew feillion dillynion llawr,
A glwysbert fflur y glasbawr,
I'w rhoi 'n gof, aurenwog ior,
Ufudd wyf, ar fedd Ifor!

* While the Poet invokes the Summer to visit Glamorgan with her fairest smiles, he suddenly remembers that Ivor Hael lies buried there; and, abruptly abandoning his original theme, makes an affecting transition to the grave of his patron. The following translation of the last eight lines will convey some idea of the pathos of the original.

From dewy lawns I'll pluck the rose,
With every fragrant flower that blows;
The earliest primrose of the spring
To Ivor's honour'd grave I'll bring—
This humble rite shall oft be paid,
To deck the spot where he is laid,
To show how much for him I mourn,
How much I weep o'er Ivor's urn.

See the Life of Dawydd ab Gwilym, prefixed to his works by the ingenious Dr. Owen Pughe, from whence this translation is borrowed.

CYFARCHIAD IDD Y GOG.

Dydd da fo i'r Gog serchoglef,
Aderyn wyd o dir nef;
Yn dwyn newyddion yn deg,
A nodau haf iawn adeg;
A haf yn hudaw hoewfun
I goed, a bardd gyda bun:
A llenwi dail i'm llannerch,
A thwg ar ias amlwg serch.
Hoff genyf dy gan landeg
Yn gan i ferch fal gwin seg:
A thraserch i'th iaith rwysog,
Yn minio gwawd, fy mwyn Gog!
Dywed i'th gan heb dewi,
A mwyn wyd, p'le mae 'mun i?

Y DDYLLUAN.

Druan i'r Dylluan deg,
Radd ddistadl, na rydd osdeg!
Ni ad im ganu 'mhader,
Ni thau tra fo sugnau 'r ser;
Ni chaf, och! o'r gwarafun,
Gysgu, na heddychu hun!
* Pan gauwyf, poen ogyfarch,
Fy llygaid, penaethiaid parch,

Hyn a'm deffry, ni hunais
Gan y Ddylluan a'i llais,
A'i chrochwaedd aml ei chrechwen,
A'i ffals gwyddoliaeth o'i phen;
A hyny modd i'r henwyf,
Hyd wawr ddydd annedwydd wyf!
Canu bydd annedwydd nad,
"Hw! ddy hw!" hoew ddyhead;
* Uchel ei chrech mewn teccoed;
Och o'r can uwch aerwy coed!
* Pob edn o'r byd alltudryw
A'i baedd,—ond rhyfedd ei byw!

Ffraethach yw hon mewn bronallt,
Y nos, na'r eos o'r allt;
Ni thyn y dydd, crefydd craff,
Ei phen o geubren gobraff:
* Wyll ffiadr a gan i'r lladron,
Anffawd i'w thafawd, a'i thon!
Rhof tra fwy yn aros rhew,
Oddaith yn mhob twyn eiddew.

Y FEDWEN.

Mae Bedwen yn niben allt
Friglaswyrdd, fawr ei glwyswallt;
* Mae yno, ym Mai enwog,
Allorau gwyrdd a lle'r gog;

* Lle rhoed, llawer a'i hoedai
Friallu teg, afrllad Haf;
Meillion teg, mae llonaid twyr
Man serliw, mynwes irlwyn.
Y Fedwen ydyw f' adail
Wybren deg o bren a dail;
Teml yr Haf, ty aml y rhiw.
Ty o goedwig, teg ydyw.

NIS GALL NEB OCHEL ANGAU.

Y GWYCHAF, doethaf a fendithir,
Yn nyddiau angau ni ddiengir;
Hwn a fedd fawredd a fwrir—heb ddim
A heb ddim, diddim y diweddir.

Alecsander Mawr, uwch cawr ceurydd,
Ynnillai y byd, a llu bedydd;
A marw a wnaeth, medd mirain ieithydd,
Arch neu 'styllen fu ei obenydd:
Aristotlus, fedrus fu
Ar ddysg oll, urddas gallu;
Tydain ail Tad Awen oedd,
Taliesin teulu oesoedd.
Pob un aeth, mae pawb yn wan,
Ar ei ddiwedd i'r ddaiar:

A fu, a ddarfu, a fydd—yn ddiau,
Angau ag arfau ing a'u gorfydd;
Minnau nid oes ym annedd
Ond byd, ond fy hyd o'r bedd.

GWYBOD.

Nid hael, hael ar fedr cael ced,
Nid call, call wedi colled;
Nid dim, dim diddim od aeth,
Nid byd, byd heb wybodaeth.

Y MARCH.

* Trem hydd, am gywydd a gais,
Trwynbant, yn troi 'n ei unbais;
Ffroen arth, a chyffro 'n ei en,
Ffrwyn a ddeil ei ffriw 'n ddelen;
Ffriw yn dal, ffrwyn o daliwn,
Ffroen sy gau, fal ffwrnais gwn;
A'i arial a ddyfalwn
Fal elain coch o flaen cwn;
Ail y carw olwg gorwyllt,
A'i draed yn gwau drwy dan gwyllt.
Brithyll ar bedair wyth-hoel,
Gwreichionen ar ben pob hoel;

Gwreichion a gaed o honyn',
Gwnïwyd wyth bwyth ymhob un.
Dyru 'n fry dirwyn y fron,
Deil haul ar dalau hoelion.
Ser neu fellt o'r sarn a fydd
Ar godiad yr egwydydd;
Neidiwr tros afon ydoedd,
Naid yr iwrch rhag y neidr oedd;
Nid rhaid er peru neidio
Roi dur fyth wrth ei dòr fo:
Dan farchog bywiog di-bŵl,
Ef a wyddiad ei feddwl:
Bwrw naid i'r wybr a wnai,
Ar hyder yr ehedai;
Yn ei fryd nofio 'r ydoedd,
Nwyfol iawn anifail oedd:
Trwsio, fal goleuo glain,
Y bu Wydrwr ei bedrain.
Ei flew o sidan newydd,
A'i rawn o liw gwawn y gwydd.
Llygaid, fal dwy eurllugen
Llymion byw 'n llamu 'n ei ben;
Sidan y'mhais ehedydd
* Ystyrio cwrs y daran
A thuthio pan fyno 'n fan.
Dylifo heb ddwylo 'dd oedd,
Neu wau sidan nes ydoedd.
Llamwr draw lle mwya'r drain,
Llawn ergyd yn Llan-Eurgain:

Cnyw praff yn cnoi prif-ffordd,
Cloch y ffair, cilwch o'i ffordd:
O gyrir draw i'r gweirwellt,
Ni thyr â'i garn wyth o'r gwellt:
Draw os gyrir dros gaered
Gorwydd, yr Arglwydd a red;
Mae'n f'aros yma 'n forwyn
Ferch deg, o bai Farch i'w dwyn.

DYN.

1.

Rhyfedd diwedd blodeuyn,
A rhyfedd yw diwedd dyn:
Dyn bob gronyn a grina,
Fal y dyn blodeuyn da.

2.

Darfu megis ar derfyn
Y dydd,—felly derfydd dyn:
Mabolaeth mab a welir
I barhau, fal borau hir;
Diau i'r mab, wedi 'r maeth
Yn greulawn ddwyn gwrolaeth;
Wedi hyny daw henaint,
Ac yn hen gorwedd gan haint;
Yna nosa, dan Iesu,
Einioes y dyn, yn nos du.

3.

Breuola, braw i'w elyn,
Dim ar y ddaiar yw dyn.

HÈNAINT.

1.

Cwyno 'r ydwyf rhag henaint,
Cwyn hir gan ddryghin a haint;
Cwyno anwyd, cyn enid
Colles oll y gwres a'r gwrid;
Gwden anwydog ydwyf,
Gwedi nerth, gwywa dyn wyf.
Tra fum i mewn tyrfau mawr,
Was ynfyd ifanc sonfawr;
Ebrwydd ehydrwydd hoewdrum,
A chryf iawn yn chware fum.

2.

Di-eiddil a da oeddwn,
A chryf, a gorwyllt a chrwn;
A hefyd esgud ysgawn,
I ben 'r allt buan 'r awn;
Trin y bêl a phob helynt
A rhedeg fal gwaneg gwynt.
Heddyw os i'r rhiw yr af,
O arfeddyd, hwyr fyddaf.

3.

Ni chredir, nychu 'r ydwyf,
Y rhodia i mwy, rhy drwm wyf.
Un llun yw hun a henaint,
Yn ful gan ofal a haint;
Ysgwyddau annosgedig,
A chorff, heb na llaw na chig.

4.

A'r breichiau fal ffystiau ffyn
A gwaew sy yn mhob gewyn :
Anaf llesg yn goresgyn,
A'r blew a'r gwallt yn blu gwyn ;
A'r dannedd, o salwedd son,
Afluniaidd, yn felynion;
A 'ngolwg, ddiwg ddeall,
Truan o ddyn yn troi 'n ddall.

5.

Crynedig i'm croen ydwyf,
Cryniad deilen aethnen wyf;
Gwr oerach nag Eryri
A Berwyn, wyf i'm barn i;
Ni thyn na chlydwr na than
Na dillad, f' anwyd allan:
Troi a sefyll tra safwyf
Tan grafangau 'r angau 'r wyf;
Rhoed Duw 'm bwyll! rhaid im' bellach
Ryngu bodd yr angau bach.

CLEDDYF GAIR DUW.

Gloewddwys bryd, gledd ysbrydawl,
Gair Duw yw'r arf a darf diawl.

CYNGHOR I GYFOETHOG.

Agor dy drysor dod ran—trwy gallwedd
Tra gellych i'r truan;
Gwell ryw awr golli 'r arian
Na chau 'r god a nychu 'r gwan.

I ADFEILION MAESALEG,

Hen Lys Ifor Hael.

Llys Ifor Hael gwael yw'r gwedd—yn garnau
Mewn gwerni mae'n gorwedd,
Drain ac ysgall mall a'i medd
Mieri lle bu mawredd.

Yno nid oes awenydd,—na beirddion
Na byrddau llawenydd,
Nag aur yn ei magwyrydd
Na mael, na gwr hael a'i rhydd.

I Ddafydd* gelfydd ei gan,—oer ofid
Roi Ifor mewn graian!
Y llwybrau gynt lle bu 'r gân
Yw lleoedd y ddalluan.

Er bri arglwyddi, bur glod,—eu mawredd
A'u muriau sy'n darfod,
Lle rhyfedd i falchedd fod
Yw teiau ar y tywod.

CENADON CARIAD.

Dwr Clwyd, diarswyd, diweirserch—dy dòn
Da adwaenost bob llanerch;
Drwy arwydd, drwy sadrwydd serch,
Dwg i Ann wèn deugain annerch.

Y llwynog dau eiriog diriaid,—dos ymaith,
Di siomi fytheiaid;
Dwg arwydd iawn-rhwydd, mae'n rhaid,
I'm gwawr Ann a'm gwir enaid.

Y wenol wybrol obry,—hed unwaith,
Di adwaenost holl Gymru;
Hed at Ann, rhaid it' hyny,
Mae nyth it' yn mhen ei thy.

* ab Gwilym.

Y gwynt, traws helynt tros heolydd—bron
A bryniau a gelltydd;
Annerch Ann, wen seren sydd
Gain ei phryd gan ei phrydydd.

CEILIOG BRONFRAITH.

Bronfraith ber araith, bererin—deilgoed,
A duwiawl gerdd diflin,
Oer foreugwaith ar frigyn,
Cywirddoeth fydd cerdd o'th fin.

CROESAW Y GOG.

Croesaw 'r Gog odidog, ac adail—coed,
Croesaw ceidwad glas-ddail;
Croesaw pencerdd bron werddail,
Croesaw Duw cares y dail.

ADFEILION CASTELL DINAS BRAN.

Castell nid gwell nog allan—yw ei byrth,
Ei borthor yw cigfran;
Nid ai ddim, mewn dydd ymwan,
I'w dy fry onid ai fran.

CYMRU A'I HAWEN.

Ni cheisiaf——————
Glod o elldydd gwlad alltud;
Ofer y daith, afraid oedd,
Mwyneiddiach yw 'n mynyddoedd;
Lle mae Awen ddiweniaith,
Gelfydd, yn mhob mynydd maith,
Na wna 'n eglur, neu 'n wiwglod,
Ond *da*, a ryglydda glod.

DYMUNIAD I FON.

A ysgrifenid tra yn Lloegr.

Poed yt' hedd pan orweddwyf
Ym mron llawr estron, lle 'r wyf;
Gwae fi! na chawn enwi nod,
Ardd wen, i orwedd ynod;
Pan ganer trwmp Ion gwiwnef,
Pan gasgler holl nifer nef;
Pan fo Mon a'i thirionwch
O wres fflam yn eirias fflwch,
A'i thòrog wythi arian
A'i phlwm a'i dur yn fflam dan;
Pa les cael lloches o'r llaid?
Duw rano dy i'r enaid.

Gwiw gánaid, dy gogoniant,
Yn-nghaer y ser yn-nghor sant;
Ac yno 'n llafar ganu
Eirian eu cerdd i'r Ion cu!
Poed gwyr Mon a Goronwy
Heb allael ymadael mwy.

Y LILI.

——————— pob blodeuyn
A yspys ddengys i ddyn
Ddirfawr ddyfnderoedd arfaeth
Dïegwan Ior, Duw a'u gwnaeth—
Blodau 'n aur-deganau gant,
Rhai gwynion mawr ogoniant;
Hardded wyt ti 'r Lili lan!
Lliw 'r eira, uwch llaw'r arian;
Cofier it' guro cyfoeth
Selyf, y sidanbryf doeth.

BREUDER EINIOES

Yn debyg i Flodau.

Diffrwyth fan flodau 'r dyffryn
A dawl wag orfoledd dyn;

Hafal blodeuyn hefyd
I'n hoen fer yn hyn o fyd;
Hyddestl blodeuyn heddyw,
Y foru oll yn farw wyw;
Diwedd sydd i flodeuyn,
Ac unwedd fydd diwedd dyn;
Gnawd i ardd, ped fai 'r harddaf,
Edwi 'n ol dihoeni haf.

BONEDD A CHYNNEDDFAU YR AWEN.

Bu gan Homer gerddber gynt
Awenyddau,—naw oeddynt;
A gwiw res o dduwiesau,
Tebyg i'w tad, iawn had Iau;
Eu hachau, o ganau gynt,
Breuddwydion y beirdd ydynt!

Un Awen a adwen i,
Da oedd, a phorth Duw iddi,
Nis deiryd, baunes dirion,
Naw merch cler Homer i hon.

Mae'n amgenach ei hachau,
Hŷn ac uwch oedd nac ach Iau:
Nefol gler a'i harferynt,
Yn nei y cai gartref gynt:

* Dod Ion im' ran o honi,
Canaf ei chlod hoewglod hi.
* Dywaid pa le caid Awen
Cyn gosod rhod daiar hen,
A chael o'r mor ei ddorau
A thyle dwr o'th law dau,
A bod sail i'th adeilad,
Ein Creawdr Ymerawdr mad!

I'r Nef ar air Naf yr oedd,
(Credaf pand cywir ydoedd?)
Ser bore a ddwyrëynt
Yn llu i gyd-ganu gynt;
Canu 'n llon hoewlon eu hawd.
Gawr floeddio gorfoleddawdl!
Ac ar ben gorphen y gwaith,
Yn wiwlan canu eilwaith;
Caid miloedd o nerthoedd nef
Acw 'n eilio can wiwlef;
Meibion nef yn cydlefain
A'u gilydd mewn cywydd cain,—
" Perffaith yw dy waith Duw Ion!
" Dethol dy ffyrdd a doethion;
" A mad ac anchwiliadwy,
" Dduw mawr! ac ni fu ddim mwy!'
* Gwanai eu gwiwdeg hoenwawr
Ewybr eu llef, wybr a llawr;
Fe 'u clywai 'r ser disperod,
Llemain a wnai rhai 'n i'w rhod;

Ffurfafen draphen a dro'i
Ucheldrem nef á chwildro'i;
Daeth llef eu can o nefoedd
Ar hyd y crai fyd, cryf oedd;
Adda Dad, yn mharadwys,
Clywodd eu gawr leisfawr lwys;
Hoffai lef eu cerdd nefawl,
Ac adlais mwynlais eu mawl;
Cynhygiai eu can hoewgerdd,
Rho'i ymgais ar gais o'r gerdd:
Difyr i'w goflaid Efa,
Glywed ei gan ddiddan dda:
Canai Efa, decaf dyn,
Canai Adda, cain wiwddyn;
Canant i'w Ner, o ber berth,
O'r untu, hyd awr anterth.
* Ni chydfydd Awenydd war
A dynion dybryd anwar:
Ion ni rydd hyn o roddiad
Wiwles, ond i fynwes fad.
Cynar o beth yw canu,
Awen i Foesen a fu;
Awen odiaeth iawn ydoedd,
Wrth adaw 'r Aifft angraifft oedd;
Cant, cant, a ffyniant i'w ffydd,
Cyn dyfod canu Dafydd:
Pyncio wnai fe fal Pencerdd
Nefol, a rhagorol gerdd:

Prydodd dalm o ber Salmau,
Fwyned im' ynt f'enaid mau!
Canu Dwsmel a thelyn,
Yn hardd a wnai 'r gwiwfardd gwyn;
Gyd a'i law ydd ai 'r Awen,
Wi, wi, i'r llaw wisgi wen!
Ewybr oedd y boreddydd,
Ei lais ym min dichlais dydd,—
"Deffro fy nabl (parabl per!)
"I ganu emyn Gwiwner;
"I'm Ion y rhof ogoniant
"A chlod, â thafod, â thant!"
Am ganu ni fu ni fydd,
Hoëw ei fawl, ei hefelydd.

Awen ber wiwber ei waith,
Oedd i Selyf, ddisalw eilwaith;
Fe gant Gan (gwiwlan y gwan,
Can odiaeth) y Caniadau;
Pwy na char ei Ros Saron,
Lili, a draenllwyni llon?
Y mae 'n ail y mwyn eiliad,
I Gywydd Dafydd ei dad:
Dygymydd Duw ag emyn,
O Awen dda, a wna ddyn;
Prawf yw hon o haelioni
Duw nef, a da yw i ni.
Lleisia gan yn llys gwiwnef,
Mawr gerth yw ei nerth yn nef;

Pan fo 'r Cor yn clodfori,
Cydlef llu nef oll a ni;
Ag ateb can yn gyttun,
Daiar a Nef a dry 'n un!
Dyledswydd a swydd hoew sant
Yw gwiw gan a gogoniant;
Dysgwn y fad gariad gu,
Ar fyr awn i'w harferu;
Cawn Awenlles can unllef,
Engyl a ni yn-ngolau nef,
Lle na thaw ein per Awen,
Sant, Sant, Sant! Moliant. Amen.

DYFODIAD DISYFYD Y FARN.

Mal cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal lladron dison y daw.

Gogoneddus ddyfodiad Crist.

Yno 'r Glyw, Ner y gloewnef,
A ferchyg yn eurfyg nef!
Dyrcha'n uchel ei helynt,
A gwân adenydd y gwynt!
A'i angylion gwynion, gant,
Miloedd yn eilio moliant.

Ei harwyddion.

Y wenlloer yn oer ei nych,
Hardd leuad ni rydd lewych;
Syrth nifer y ser (arw son!)
Drwy 'r wagwybr draw i'r eigion.

ADGYFODIAD Y MEIRW.

CYFYD fal yd o fol âr,
Gnwd tew, eginhad daiar,
A'r mor a ŷr o'r meirwon
Fil myrdd uwch dyfnffyrdd y don.

BENYW.

(Cyfieithiad o ail Awdl Anacreon.)

NATUR a wnaeth, iawn ytyw,
Ei rhan ar bob anian byw;
I'r cadfarch dihafarchwych
Carnau a roes,—cyrn i'r ych;
Mythder i'r ceinych mwythdew;
Daint hirion llymion i'r llew;
Rhoes i bysg nawf ym mysg myr:
I ddrywod dreiddio 'r awyr;
I'r Gwyr rhoes bwyll rhagorol;
Ond plaid Benywiaid bu 'n ol:—

Pa radau gant? pryd a gwedd,
Digon i *Fenyw* degwedd!
Rhag cledd llachar, a tharian,
Dor yw na thŷr dur na than:
Nid yw tan, a'i wyllt waneg,
Fwy na dim wrth *Fenyw* deg!

YR UDGORN DIWEDDAF.

Udgorn nef yn dolefain,
Y ser a glywant ei sain;
Traidd ei nerth trwodd i nèn,
Traidd eirias trwy ddaiarea;
A marwor trwy'r gloewfor glas,
Mor a than ynmherthynas!
Traidd afrifed blanedau,
Traidd uffern a'r gethern gau:
Haul a hyllt, garw-wyllt ei gur,
Yn friwsion o'i fro asur!
A'i anoleu wàn eulyn,—
Y lloer anwadal ei llun:
Cwymp y ser ar ddisperod,
O wawl a nerth i wael nod,
Rhed filfil rhawd ufelfellt
Rhua trwy 'r main rheieidr mellt!

GOGONEDDUS DDYFODIAD CRIST.

Wele nef, dan ddolefain,
Yn ymagor, goror gain!
A rhwng deulu cu, liw càn,
Niferoedd y nef eirian:
Gyr Messias urddasawl
Ei gerbyd i gyd o'r gwawl;
Iesu Iôr, o wedd seirian
Rhwng colofnau tyrau tân;
Dysgleiriach, hoewach na haul,
Brwd eirian ei bryd araul;
A'i belydr, fel terydr tân,
Yn trywanu trwy anian!

ADGYFODIAD Y CYFIAWN.

Eu cyrff yn ysbryd y cant,
Hynodawl y newidiant!
Yr hedyn ar ei adeg
A dyf yn hyfrydol deg;
Yr eginyn ar gynnyrch
I'r ffurf iawn a gawn ar gyrch;
A hed 'r hyd nen ysplenydd,
A'i daith goruwch wybren dydd;
Mal cerub yn mol corwynt,
Ar olwynion gweigion gwynt.

BARN DOST YR ANNUWIOL.

YNA'r Ion gan ddigllonedd,
Ynad gwych, yn newid gwedd;
A'i anadl diadlam dwfn
Yn megino mwg annwfn!
A'i bryd a'i gorff yn borffor,
A rydd farn gadarn o'i gor:—
"Ewch i'r ing, chwi rai angall,
"Anffyddlon feibion y Fall!
"I'r dial dir, arw, dal dwys,
"Yn Uffern erwyn affwys!"
Yna traflynca annwfn
Y dorf i'r agendor dwfn:
Ond tost eu cyflwr hwynthwy,—
O fynediad ofnadwy!

DEDWYDD-RAN Y CYFIAWN.

YNA'r Ior, yn war eirian,
A dysgleirwych lewyrch lan,
A dry at ei weision draw,
Addas anwyliaid iddaw:
"Dowch," medd ef "i gartrefu
"Mewn Gwynfyd, oleubryd lu!"
Ar air degle arwyrain,
A Naf a gyrch i nef gain!

A'i luoedd i oleuwych
Lawenydd tragywydd, gwych,
Ba ryw eirias yn berwi,
O ras Naf, eres i ni!
Pa gariad o'i rad a rydd
Olwynion o lawenydd!
Llifeiriant gogoniant gwych,
Addas glaer, yn ddysglaerwych;
Oes un a all ei syniaw
Ond y prid enaid a'i praw!

Y DILUW.

Y Byw-Ner, uwch pob anian,
O'i orsedd oleuwedd Ian,
Draethodd Farn gadarn deg iawn;—
Chwi ddyfroedd moroedd mawriawn,
Duw Awdwr sydd yn d'wedyd,
Dylifwch, boddwch y Byd.

Dyfnfawr ydoedd dystawrwydd
Llu y Nef oll yn ei wydd;
Crynodd rhag ei air croewnerth
Y Nef fawr geinwawr yn gerth.

Afrywiogwyllt for eigion
A rwydd wrandawodd yr Ion:

Lluoedd myr y gorllewin
Glywsant, grochfloeddiant yn flin,
Gan ddeffro 'r dehéufor hyll
O'i dawel annedd dywyll.
Mewn cyffro hwy 'n swnio sydd,
A galwant ar eu gilydd:
I fynu hwy anfonant
Ddyfroedd o'u hamgylchoedd, gànt
O lyfnion heirdd golofnau
Yn ewybr i'r gylchwybr gau:
Rhyfedd! o'r Dyfnder hefyd
Colofnau 'n amlhau o hyd;
Yn chwyrn gedyrn ymgodant,
Aml restr i'r cymmylau 'r ant:
O'r agwrdd ddyfnfawr eigiawn,
Mae 'r awyr yn llwyr yn llawn.
Hedodd ymgasglodd pob gwynt,
Dywibiodd i'r deheubwynt,
I gydweithredu 'n llu llon
A'r gygus ferwawg eigion.
* Hyll dduodd yr holl ddaear;
Chwerw iawn nos! daeth dychryn ar
Ddewrion a beilchion y byd;
Trwyddynt, trostynt daeth tristyd.
* Rhedant, ac udant ar goedd,
Yn nawswyllt i'w dinasoedd.
* Caerawg ddinasoedd cywraint,
Nerthawl, anfeidrawl o faint,

Llawnion o drigolion gau,
Taenodd trostynt y tònau;
Cestyll a chaerau costfawr
A wnai'r llif yn un a'r llawr.
* Daear hen drwy wahanu,
Yn dadmer i'r Dyfnder du!
Hi, wrth esgor ar foroedd
Lliosog iawn, yn llesg oedd,
* O ddu ddyfngroth y Ddaear
Y rhuthrant, berwant mewn bar,
Gan for gwyllt gwyn-ferwawg oedd
Yn tori rhwng y tiroedd,
Ynysoedd, ymranasant,
Trymion i'r Eigion yr ant:
F' a'r tònau 'n fynyddau 'n awr,
Dorfoedd mewn ymchwydd dirfawr,
* O grochgri'r hagr Gawri gau!
Tramawr ddinystr myrddiynau!
Y Diluw chwyrn a'n daliodd
Ar hynt, amdanynt ymdôdd.
* Du y wybren a dybryd,
Tywyll ac erchyll i gyd!
Golau ronyn nis gwelant
Ond cochion fellt gwylltion gant
Taranau trwy y wiwnef
Cefnlli o ffenestri Nef!
Rheieidr fyrddiwn yn rhuaw
Yn ffrydiawg o lidiawg wlaw!

* A'r awyr yn adruaw,
A mawr drwst yn y Mor draw:
* Rhai ynfydion gwylltion gau
Am nawdd ffo'nt i'r mynyddau;
Rhedai'r Mor mawr rhuadwy
Ar fyrder i'w huchder hwy.
P'le 'r ant, p'le safant? p'le sydd
Rhag y gwaeau tragywydd?
* Oh annedwydd eneidiau!
Rhy hwyr oedd edifarhau.
* Soddawdd y dinasyddion
Dan gryfder dyfnder y dòn.
* Dinystr bloeddfawr ymdaenodd,
A'r crwnfyd ynfyd amdêdd.
Mawr ddinystr ammur ddyniawn
Am gabledd a llygredd llawn!
Cyflog pechod, sicrnod saeth,
Mawr alar! yw marwolaeth:
Masweddwyr ynddo ymsoddant,
Tragywydd gerydd a gant.

Y DARAN.

Y Daran o'i du orawr
Mal berwawg derfysgawg for.
Rhyfedd! mwy y rhuthr hefyd
Na thrystau cerbydau 'r byd.

Terwyn follt pob taran fawr
Enyna drwy 'r ddu nennawr;
Llidiog yw'r awyr llydan
O niwl du 'n olau o dan.
Ni cherddir y doldir dwys,
Nag ael uchelfryn gwiwlwys,
Gan genllysg, derfysg dirfawr,
Gan wlaw a mellt, gan lif mawr;
Gan ofn dwr gan nef yn dan,
Nid ellir myned allan!
* Nadau dwr a than ydynt,
Rhyfel mawr drwy'r orawr ynt.
Eirias o dan a'i wres dig
Fal ffwrn o ufel ffyrnig.

YR HAUL.

Yr Haul o'i belydr y rhydd
Loewder i bob rhyw wledydd;
Dysgleirdeb ei wyneb ef
A lawena 'r oleunef;
Ei des wna 'n gariadusol
Bob bryn, bob dyffryn a dol;
Gwen natur a gawn eto
Yn ol i'n hyfrydol fro;
A mwynaidd lais emynu
Wna 'r adar yn gerddgar gu,

RHAIADR.

Uchelgadr Raiadr dwr ewyn,—hydrwyllt
Edrych arno 'n disgyn;
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
Synu pensyfrdanu dyn.

O FOLAWD YNYS PRYDAIN.

Bro hardd aroglber yw hi,—bro llawnion
Berllenydd a gerddi;
Dyffrynau, bryniau llawn bri,
Arddunawl y wedd arni.

Ar y dyffrynoedd hyfryd ffriw enwawg,
Glaswyrdd orchudd gwiw lysiau ardderchawg;
Pob ffrwythau melysion, aeron eurawg,
Cain yw cynnyrch y llenyrch meillionawg,
A'u dewis goed blodeuawg,—per rawn cair,
Oreuwawr ddysglaer ar irwydd osglawg.

Uwch y gwaelodion, iach a goludawg,
Wele'r bryniau a'r creigiau cerygawg,
Eehrys ac uthrol ochrau ysgythrawg,
A manau crebach uwch meini cribiawg,
Gar parthoedd ardaloedd deiliawg,—cymoedd,
Mawrion fynyddoedd, a galltoedd gwelltawg.

Gwelir oddiar freich-hir fryn
Dewffrwyth amryliw 'r dyffryn.
Glaswellt, ardderchawg lysiau
Gloewon, perarogl ein pau;
Ar fronydd y coedydd cain
Dilledir a dail llydain;
Gwiw ednaint ar wydd gwydnion,
A'u ffraeth brydyddiaeth ber don,
Canmawl yn hyfrydawl frau,
Eurog engyl ar gangau,
Difyru a'u llefau llon
Wybren nefawl, bro neifion.

Gerddi lle sang ar gangau—eirin per,
Aeron, pob afalau,
Dan gnwd o heirdd dewion gnau
Ymyrant wrth y muriau.

ELUSEN.

Gwel dylodion, a gwael adeiladau;
Gwragedd, plant, a thrichant o wrthddrychau;
Ymddifaid, gweddwon, wareiddion ruddiau;
Un a dyn bychan yn dwyn ei beichiau;
Dyn feichiog, lwydion fochau,—mewn augen
Gwelid *Elusen*,—dan gelyd loesau.

Luoedd ar luoedd ar welysu,
Rhwng cilddaint ochryshaint a chroesau;
Holl awch dannedd y lluchedenau;
Chwerw ffrewyll, fflengyll a phla angau;
Gan anghenion, cwynion yn cynau;
Elusen deimla 'u heisiau,—ai chynes,
Garuaidd fynwes, eu griddfanau.

* Yn rhodd anfonodd nef wen,
O law Iesu Elusen.
Disgynodd duwies gwiwnef,
I'n daear ni, do o'r nef:
Llysoedd breninoedd heini
Islaw ei holl sulw hi:
Chwyddai serch y duduwies hon
At aelwydydd tylodion;
Agor o'i thrysor wrth raid,
A'i ranu i drueiniaid
* Edwyn eisiau dyn isel;
Yn hen a gwan, hon a'u gwel.
* Gwel'd brawd ar ddelw 'Ngreuawdwr,
A delw Duw ar dylawd wr;
A chofio 'nhlawd Iachawdwr
Fu un dydd yn gofyn dwr,
A enyna yn uniawn
Fy nhymher dyner a'm dawn.
* Mewn ystyr brodyr o un bru ydym,
Ar y cyntaf yn Addaf un oeddym;

Ni, i gyd oll, un gwaed ym,—yn ddiddadl,
Un cnawd ac anadl, ac un Duw genym.

* Er bod dyngarwch, trwy 'r byd, dan goron
Porthaf bobl o bob parthau,—a byddaf
Yn porthi nesaf perthynasau;
Rhoi i'r rhai bach, ar air byr,
Cu frodyr, eu cyfreidiau.

Ystyriaf, teimlaf at ham—hen wraig glaf,
Hen wr cloff ysgwyddgam;
Helynt gwrach legach, lawgam,
Mal ethryb modryb a mam.

Fy nwr hallt yn ddafnau rhed,
Uthr weled f'ewythr William;
Mamau, hen neiniau anwyl,
I'r drysau, mewn eisiau 'n wyl;
O! 'r hen wr, mor druan yw!
Fy hen-daid fy nhad ydyw;
Troednoeth a phennoeth, a'i ffon,
A'i gydau dan fargodion.
Gwgan oedd, nid gwag o nerth,
Ac arno wir ddelw *Gwrnerth;*
O gynneddfau gweinyddfawr,
Cyrus, Ahasferus fawr.
Be 'n eistedd yn Senedd Sior,
Ef i'w chanol f'ai 'i *Chynor:*

Ac i'w Deyrnben, cadarnbwynt
Y lluniai hi 'n well no hwynt.

Nid oes yn nau Dy y Senedd—ei well,
Ow! Oh! mae'n beth rhyfedd,
Na wnaed hwn yn Ynad-hedd,
Neu Frenin o fawr rinwedd.

Ond yn lle hyn, adyn noeth,
Dan benllwydni, byw'n llednoeth;
Syndawd, rhyw *Alexander*
Mawr fel hyn, Ow! mor aflêr!!

Ac o cherir Iesu Grist fel Cristion,
Amlyga dy gariad i'r tlawd gwirion:
Edrych am anwyl gadw ei orch'mynion;
O gwnei ryw giniaw, gwna i rai gweinion;
Ac nid rhai goludog, cyfoethogion:
Nid cyfarch a gwneyd cofion,—ond gweithred
Rhoi tirion nodded i'r truain weddwon.

Ys Crist, yn drist, dan boen drom,
Fu o'i rad ras farw drosom;
Gwael na ro'em, o galon rydd,
Ein golud dros ein gilydd.

GOBRWY YR ELUSENGAR.

Tlodion ynt deulu da Naf,
Llios o'i frodyr lleiaf;
A weinyddo un nodded
I'r rhai 'n, a ga' orhoen ged:
Cant ogoniant digynen,
Teyrnas, gwych balas, uwch ben;
Yn ngwawl anfeidrawl nef wen,—coronau,
Gemau a thlysau, o waith Elusen.

Y rhai yn awr a heuaint—eu maesydd,
Dim eisiau ni welant;
Os i'r bedd, ar ddiwedd ant,
I fedi adgyfodant:
Myned i Fyd y Mwyniant,
Yn mŷd y Nef wedi wnant.

Y LLAFURWR TLAWD.

Mae y gwr yn ymguraw,
A'i dylwyth yn wyth neu naw;
Dan oer hin yn dwyn y rhaw,—mewn trymwaith
Bu ganwaith heb giniaw.

Aml y mae yn teimlo min
Yr awel ar ei ewin;

A llwm yw ei gotwm, gwel,
Durfing i'w waed yw oerfel:
Noswylio yn iselaidd,
A'i fynwes yn bres oer, braidd.
Ba helynt cael ei blant cu,
Oll agos a llewygu?
Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
Rhoi angen un rhwng y naw!
Edrych yn y drych hwn dro,
Gyr galon graig i wylo;
Pob cell a llogell egyr,
A chloiau dorau a dyr.

Y BARDD I'W ANWYL FRAWD CLAF.

Oh! Mrawd bach, mawr yw dy boen,
O'th gyrhaedd ydd aeth gorhoen;
Dygn yw dy boen dogn di-baid,
Cerydd Duw 'n cyrhaedd d'enaid.
Gwybydd dan law dedwydd Dad,
Nad yw cerydd ond cariad;
Yna o'i law anwyl Ion,
Wedi cerydd daw coron.
Boddlon iawn bydd i law Ner,
Boddlondeb ddaw i lawnder;

Boddlondeb a ddeil wendid,
Boddlondeb all ateb llid.
Am hyn byth, O! 'm Howen bach,
Boddlona bydd lawenach.
Dy fraint Duw wyr faint fydd,
Ail einioes o lawenydd;
Gwlad o gariad a gorhoen,
Heb ynod bechod na 'i boen;
Cei 'n ddi-boen Can newydd byth,
Diolwch i'r Oen dilyth.

Ymson hiraethawl un o ddilynwyr Madawg, am ei Wlad.

GWELAF wr, gwael yw ei fyd,
Gan alar gwen anwylyd!
Yn gwiliaw 'n min y geulan,
Disglaer fyd hyfryd y tan,
Sydd fal cawr dirfawr y dydd,
Yn dyfod o ddawn Dofydd:
Clywaf ei lais,—claf ei floedd,
Heb oedi, Haul y bydoedd.—
" Dywed, O di dad y dydd,
" Gwyliawdyr uwch y gwledydd:
" Dywed im', da yw dy wedd,
" Dy genad deg o Wynedd.
" Pwy'n ei iechyd? pwy'n ochain,
" I fynu drwy Gymru gain?

" Ai llwyddiant,—diwall addysg
" A sain mawl y sy'n eu mysg?
" Neu ofid, llid a llediaith,
" Fal gynt, a rhyfelawg waith?
" Ar dy gerbyd tanllyd di,
" Pe gallwn, O heb golli!
" Ffylliwn, iach meiddiwn uwch mor
" I gyrhaedd y deg Oror;
' Lle'r ai di, i roi lliw'r dydd,
" Aur melyn, ar ei moelydd!"

DULL MON AR FORE HAF.

HAUL euraidd, awel araf,
Llwyni heirdd o feillion Haf;
Ag adar yn y goedwig,
Eilient eu cerdd trwy'r werdd wig;
Llun gerddi'n llenau gwyrddwawr,
Orchuddiai y Fenai fawr;
Gorheulog awyr wiwlon
A welid hyd waelod hon.

Ei gwedd wrth oleuni y Lloer; a rhian yn chwarau telyn.

EDRYCHAI, gwelai liw gwan
Gwiw loer o'i gwely arian,

Yn ei gylch yn gwyn-galchu,
Hynaws gorff, yr Ynys gu.
Ni cheid na helwriaeth chwyrn
Yn ei choed, gan ei chedyrn;
Na chywrain blant yn chwarae
Acw, o'r coed ar gŵr y cae;
Na menyw lan ddymunol,
Dal, wridog, ar ddeiliog ddol,
Ymdeithiwr, na charwr chwaith,
O'i dynion ni cheid unwaith;
Holl anian oedd yn llonydd
Ac anwyl, yn dysgwyl dydd;
A chwsg ddaliai bob merch wen,
Yn y [illegible]aeth ond Elen;
Torai hon (wedi hwyrau)
Lais tyner melus tannau;
Yn ęu mysg gwnai gymysgu
Eosawg gan a'i llais cu;
Ambell sill o bennill bach,
Bur roddai, yn bereiddiach
Na'r dwylaw ar y delyn,
Er synu, a denu dyn.

Yr anwyl feinir uniawn,
Ddiaflwydd, oedd ddedwydd iawn,
Ar ei chadair, ferch wiwdeg,
Dda ei dawn, y meddai deg,

Ir wylder, glan siriol deb,
Hyfrydwch a harddwch:—Heb
Feddwl fawr, yn awr fod nos
Y mawr rwygiad * mor agos!

HIRAETH CYMMRO AM EI WLAD.

Mal gwylan, wawr hoewlan am for heli,—
Gwylydd, a'i lawenydd am oleuni,
Nen fal y gwenyn am fel i'w gweini,
Neu glaf fyg einioes o'i glwyf a'i gyni,
Neu faban am ei *fami*,—mae 'nghalon,
Am y wlad dirion, yn ymyl tori.

Mal llwdn a'i fref am ei gynnefin,
Neu flaidd am hafaidd des Mehefin,
Neu hydd am afonydd i'w fin,—ochaf,
A mawr ysaf, am Gymmru iesin.

Wyt lanerch ddystaw, lonydd,—ddiochain,
Heddychol dy fröydd:

* A gwelir ei thrigolion,
Yn finteioedd, lluoedd llon;

* Hon oedd y noson cyn y frwydr echrydawn, yn mha un y goresgynwyd Mon gan Suetonius Paulinus; ac ysbiwr o'r fyddin Rufeinig a ddarlunir mal yn rhodiaw yr hwyr i olygu agwedd y wlad.

Ant yn gyson, moddion mad,
Yn ddilesg i'r addoliad;
Yn eu plith y ceir y plant,
Am wir addysg ymroddant;
Hwy gerddant i dy'r Gwir-Dduw
Eu goreu dasg yw Gair Duw;
Hyf ddilesg grefyddolion,
Mawr eu llwydd yw'r Cymmry llon:—
A mynych y bum innau
Yn mysg y minteioedd mau,
Yn difyr fyn'd a dyfod,
Heb un baich, heb wae yn bod:
Ond yn awr rhyw adyn wyf,
Truan od, estron ydwyf,
* Chwiliaf, holaf am helynt
Manau rodiwn gerddwn gynt;
Mae'r rhosydd a'r gweunydd gwar,
A droediwn yn ddidrydar?
Mae'r dolydd, a'r meusydd maith,
Yn geinwych lle bum ganwaith?
Mae minion yr afonydd,
Lawr dol, lle bum lawer dydd?—
Y bryniau hyber union,
Mynyddoedd a'r lleoedd llon?

Ow! un olwg arnynt ni welaf—mwy,
Er maint a edrychaf:
Yn ddilys pan feddyliaf,
Dan wylo eu cofio caf!

DETHOLION O AWDL AROBRYN AR WLEDD BELSASSAR.

Agwedd Babilon cyn ei Chwymp.

HANBYCH, dref hoenwych, ar finion—ffrydiau
Euphrades bereiddlon;
Ei mur a'i dorau mawrion,
Ei thyroedd a'i llysoedd llon.

Neud yw, o Seithdlws daear,—y flaenaf,
O luniant digymhar;
A hardd y sai'r dduwies war,
Orsynawl, yn mro Sinar.

Hyd yr heolydd daw yr awelon
Ag iraidd arogl o'i gerddi aeron;
Ei brig-gauedig gedrwydd-gysgodion
A oera ias wyniawl twymwres hinon;
A'i hydrwyadl Bedryon,—O mor wych!
Ei llwyni llonwych, a'i llynau llawnion.

Hen ac ieuanc, mewn gorfywiog awydd,
Ar hyd ei helaeth, hyfryd heolydd,
Draw eu gwelir, yn gwau drwy eu gilydd,
Yn annybenawl fyrddiynau, beunydd;
Trwyddi brwd sibrwd y sydd,—fal mor-ferw,
A'i uchel lanw yn golchi 'i lenydd.

Ei chàn dor, hwyr a borau,—drwy rygnawg
Rugl eu henwawg bybyr golynau,
Uwch eu twrf na rhoch tyrfau—yn dyar,
Neu ruad anwar mor a'i dònau.

Ar ael y fron araul, fry,
Saif yr hoenlon syw freinlys;
Wyneb haul, a'i wymp belydr,
A'i serena'n gàn mal gwydr.
Aur telaid llawer talaeth
A bro, i'w euro a aeth.
Wrth ystlys y llys mae'r llon,
Grogedig erddi gwyrddion.
A'u haeron draw ar irwydd
Sy'n chwarae; a'u blodau blydd
Ym min nos y mynwesant
Wlych y nen, a'i lochi wnant:
A phan y daw'r gu-wawr gain
I agor dor y dwyrain,
Agcrant eu brig araul,
A'u mynwes, i wres yr haul.

Euphrades sydd yn ffrydio—drwy ganol
Y dref wirodiaethol, drwy farw-deithio,
Fel un fai'n dymuno—rhoi adlewych
I bob rhyw wrthrych iawnwych yno.
Draw, ar bob llaw, mae lliaws
O blanhigion, irion naws;

A thàl heirdd fythol-wyrddion
Dew gelli, a llwyni llon:
Godrëon ei minion myg
A hulir a mer helyg;
Eu blagur a oblygynt
Uwch y don, O wyched ynt!
* Gan wyraw dan yr awel
Eu brigau irfoddau fel
Rhyw ddirif hardd wyryfon,
Euraid wallt, yn crymu'r don.

Y TELYNAU AR HELYG YR AFON.

Acw hongiant, ar helyg gangau,—o'i mewn,
Eu mwynion delynau;
Ton y gwynt arnynt yn gwau,—lleinw finion
Euphrades union a phrid seiniau.

TORIAD Y WAWR.

Y WAWR weddus, a'i bysedd rhuddain,
Sydd draw yn agor dor y dwyrain;
Drwy y coed mae'r adar cain,—a'u didlawd,
Dyner arawd yn ei harwyrain.

UCHER.

Yn awr mae lleni hwyrol—yn estyn
Eu hedyn achludol
Dros y ddinas urddasol,
A bryn a dyffryn a dol.

Y BARDD TEULU YN Y WLEDD.

Yn eu mysg y clywir mawl
Alawau'r Bardd teuluawl;
* A'i lais yn dilyn ei law,
Mewn wyl yn tra mwyn eiliaw.

Y BYSEDD AR Y PARED.

Ar y wàl draw, e welir
Ger gwen y canwyllbren hir,
Ryw ddigorff ddelw annelwig,
Deneu, gul, heb gnawd neu gig.
O mor drwm, ar y mur draw,
A llesgaidd y mae'n llusgaw;
Ac à bys, fel fflamawg bìn,
Llysg eiriau, a llws gerwin.
O! a'r newid wnai'r neuadd,
Sigla, dygryna pob gradd.

Traidd trwy eigion y fron frau
Waedd ddwys yr arglwyddesau
Dacw gerf-lun Bel uchelwawr
O'i le yn cwympo i lawr.
Llewyga gwawl y llugyrn,
Deryw eu chwai belydr chwyrn
Oll, ond rhyw wyrdd-der tery!l;-
Llewyrn yw'n lleueru 'n hyll,
I ddangos gweddau ingawl
Ac erchyll, rhwng gwyll a gwawl
Aeth fferdod drwy 'u haelodau,
Fel caethion mewn cyffion cau.

CYFLAFAN MORFA RHUDDLAN.

Cilia 'r haul draw dros ael bryniau hael Arfon;
Lleni nos sy 'n myn'd dros ddol a rhos weithion;
Pob rhyw chwa ymaith à gilia o'r llwyni;
Ar fy nghlust draw mae ust y dòn yn dystewi;
Dan fy mron clywa 'm llon galon yn curo,
Gan fawr rym digter llym, wrth im' fyfyrio
Ar y pryd pa fu drud waedlyd Gyflafan,
Pan wnaed brad Cymmru fad ar Forfa Rhuddlan.

Trwy y gwyll gwelaf ddull teryll y darian;
Clywaf si eirf, heb ri, arni yn tincian.

O'r bŵau gwyllt mae'n gwau saethau gan aio;
A thrwst mawr, nes mae'r llawr rhuddwawr yn aiglo;
Ond uwch sain twrf y rhai'n, ac ochain y clwyfawg,
Fry hyd Nef clywir cref ddolef Caradawg,—
"Rhag gwneyd brad ein hen wlad, trown eu cad
weithian,
"Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan!"

Wela fron pob rhyw lon Frython yn chwyddo;
Wela'u gwedd, fal eu cledd fflamwedd, yn gwrido;
Wela'r fraich rymus fry 'n dyblu 'r ergydion;
Yn eu nwy' torant trwy lydain adwyon;
Yr un pryd Cymmru i gyd cyfyd ei gweddi,—
"Dod yn awr nerth i lawr yn ein mawr gyni;
"Boed i ti, O! ein Rhi, noddi ein trigfan;
"Llwydda'n awr ein llu mawr ar Forfa Rhuddlan!"

Troswyf daeth, fal rhyw saeth, alaeth a dychryn,
Och! rhag bost bloeddiau tost ymffrost y gelyn;
Ond O! na lawenâa, fal a wnai orchest;
Nid dy rym ond dy Ri ddug iti goncwest.
Ow! rhag braw'r dorf sy draw'n wylaw o'r drysau,
Am lwydd cad Cymmru fad,—rhad ar ei harfau!
Mewn gwyllt fraw, i'r geillt fry, rhedy pob oedran,
Wrth wel'd brad gwyr eu gwlad ar Forfa Rhuddlan.

Bryn a phant, cwm a nant, llanwant a'u hoergri;
Traidd y floedd draw i g'oedd Cymoedd Eryri:
Yr awr hon y mae llon galon hen Gymmru,
Am fawr freg ei meib teg, gwiwdeg, yn gwaedu:

Braw a brys sydd drwy lys parchus Caradog;
Gwaeddi mawr fyn'd i lawr Flaenawr galluog:
Geilw ei Fardd am ei fwyn delyn i gwynfan,
Ac ar hon tery don hen "Forfa Rhuddlan."

Af yn awr dros y llawr gwyrddwawr i chwilio
Am y fan mae eu rhan farwol yn hunо;
Ond y mawr *Forfa* maith yw eu llaith feddrod;
A'i wyrdd frwyn, a'r hesg lwyn, yw eu mwyn gofnod!
Ond caf draw, gerllaw'r Llan, drigfan uchelfaith
Iöan lan, hoffwr can, dyddan gydymaith;
Ac yn nhy'r *Ficar* fry, gan ei gu rïan,
Llety caf;—yno 'r af o Forfa Rhuddlan.

BUGAIL CWMDYLI YN CWYNFAN YMADAWIAD EI RIAN.

(Efelychiad o Kelvin Grove.)

E DDIFLANODD clog y gwlaw,
Fy anwylyd wiw,
Oedd yn toi Eryri draw,
Fy anwylyd wiw,
Mae yr haul ar hyn o dro,
Yn goreuro bryniau'n bro,
I'r hafotty rhoddwn dro,
Fy anwylyd wiw.

Ni gawn wrando'r creigiau crog,
Fy anwylyd wiw,
Yn cyd-ateb gyda'r gog,
Fy anwylyd wiw;
A diniwed fref yr wyn,
A'r eidionau ar bob twyn,
A'r ehediaid llon o'r llwyn,
Fy anwylyd wiw.

Ond ar fyrder pa i mi,
Fy anwylyd wiw,
Fydd Cwmdyli hebot ti,
Fy anwylyd wiw;
Yn iach wrando 'th adsain dlos,
Wrth dy wylio dros y rhos,
I odro fore a nos,
Fy anwylyd wiw.

Ac yn nghanol dwndwr tre',
Fy anwylyd wiw,
A dyddanion llon y lle
Fy anwylyd wiw,
Nac anghofia un a fydd
Ar dy ol, yn wylo'n brudd,
Yn Ngwmdyli nos a dydd,
Fy anwylyd wiw.

ENGLYNION AROBRYN.

YR HAUL.

Gloew was siriol, glyw seirian,—gwiw nawsaidd
Gynheswr holl anian,
Yw yr *Haul* araul, eirian;
Bywyd y dydd, byd o dan.

YR ENFYS.

Enfys, yn ddilys, a ddyd—iawn arwydd
Fanerawg i'r hollfyd,
Na yr Ion, unrhyw enyd,
Ddw'r barn i orchuddio'r byd.

YR AWYREN.

Awyren, belen, glud bali,—drwy chwa,
Derch hynt hyd wybreni;
Nwyf wib long, ban nawf, heb li,
A llaw dyn yn llyw dani.

Translation.

That air-filled body, the *Balloon*, a silken vehicle; by a blast
View soaring on its course through ethereal regions;
As a ship of lively range, aloft it swims, without a flood,
Having for a guide the hand of man beneath.

Y DELYN.

Plethiadau tannau tynion—y *Delyn*
I'r dilesg feddylion,
Odlau Saint yw adlais hon,
Llais neu fawl llys nefolion.

Y NOS.

Nos dywell yn dystewi,—caddug
Yn cuddio'r Eryri;
Yr haul yn ngwely 'r heli,
A'r lloer yn arianu'r lli.

CAN I GARIAD.

(Cyfieithiad o Anacreon.)

Cariad unwaith aeth i chwareu
Ar ei daith i blith rhosynau;
Ac yno'r oedd heb wybod iddo
Wenynen fach yn diwyd sugno.

Wrth arogli o hono'n hoew,
Yr rhosyn hwn a'r rhosyn acw,
Y Wenynen fach a bigodd
Ben ei fys, ac ymaith heddodd.

A gwaeddodd yntau rhag ei cholyn,
A chan y boen ag oedd yn dilyn;
At ei Fam y gwnai brysuro,
A'r dagrau dros ei ruddiau 'n llifo.

Gwaeddai,—Mam! yr wyf yn marw;
Brathwyd fi yn arw arw,
Gan ryw sarff hedegog, felen,
Ac ei henw yw Gwenynen.

Ebai Gwener, os Gwenynen,
A'th bigodd di, mor drwm, fy machgen,
Pa faint mwy y saethau llymion
A blenaist ti yn llawer calon.

GALARGERDD.

Pendefig urddedig i'w ddydd,
Gwr hynod sy'n llethrod y llawr,
A saeth yn mhob calon y sydd,
O ddyfod, oer anffod! yr awr;
Ochneidiais pan glywais ei gloch,
Y clwyf oedd fal ergyd y cledd,
A chryf yw'm galarlef a chroch,
Oer dynged o'i fyned i'w fedd!

YMDDIDDANION FY MAM.

Hwn! fy Mam, pa edn yw?
O! *Hedydd* yw,
Fy Mab, Eheda fry, i'r entrych draw,
Pob bore gyda'r wawr, gan foli Duw
Yn felus iawn; ac yn ei ol ni ddaw
I'r ddaiar mwy, hyd nes gorpheno ei gan;
Gan ddysgu dyn mai ei ddyledswydd yw
Pob bore, ar ol ymolchi yn lan,
Gwir wneuthur coffa am ddaioni Duw.
O, fy Mab! tebyga di yr Hedydd ar ei daith,
Yn wresawg bydd mewn gweddi cyn dechreu dim o'th waith.

Hwn! fy Mam, pa edn yw?
Colomen fach,
Fy Mab, yn trydar wrth ei hun,
Un fodd a'th nain, neu ti pryd nad wyt iach:
Colomen hoff! mor hardd ei liw a'i llun!
Mor ffyddlawn iddei chymhar hefyd yw!
Fy Mab, na thafla gareg at ei phen;
Mae mor ddiniwed; O gad iddi fyw!
Na chlwyfa hi:—goddefa hyn o sen:
O, fy Mab! tebyga di y war Golomen hon,
O hyd mewn diniweidrwydd, a thawel fydd dy fron.

Hwn! fy Mam, pa edn yw?
O! *Alarch* gwyn,
Fy Mab, o dòn i dòn yn nofiaw'n hardd,
Nes cyrhaedd tawel ddwr o tan y bryn,
Lle can ei farwhad uwch no'r mwynaf Fardd,
A llais melysach noc eriocd o'r blaen;
Ac yna gorwedd ar ei wely llaith
I farw, ac ei esgyll gwyn ar daen;
Mal hyn yr Alarch a derfyna ei daith.
O, fy Mab! tebyga di yr Alarch. Yr un wedd
Mwy nefawl boed dy diriau wrth nesu at y bedd!

TRANSLATION.

Mother, what bird is this?
A lark, my son,
That heavenwards, in the dawn, begins her strain,
Nor, till her morning orisons be done,
Doth she revisit this sad earth again.
And thus she teaches man, that ne'er should he
Rise to his daily task of toil and care,
Till with uplifted hands and bended knee,
He pours to God the reverential prayer,
Then imitate the Lark, my son, through all thy future days,
In lifting to thy God, each morn, the voice of prayer and praise.

Mother, what bird is this?
A Dove, my son,
That, like thyself, when sickness dims thy blue
Eye, murmurs forth a low and plaintive tone.
Beautiful Dove! how fair in form and hue!
And oh! her mate she loves how faithfully!
Let not a stone by thee, my son, be sent
Against her gentle head, nor ever try
To harm a thing so soft, so innocent.
But, like the Dove's, let all thy life be pure as it is now,
And peace shall dwell within thy soul, and beam upon thy brow.

Mother, what bird is this?
A snow-white Swan,
That sails in beauty o'er the heaving surge,
To that blest waveless haven winds ne'er fan,
Where she may chant her last and sweetest dirge,
Oh sweeter far than highest Minstrel's tongue!
Thus she, reclining on her liquid bed,
Pours out her soul in music and in song;
Her gleaming wings in ecstacy outspread.
Oh! like the Swan's, my gentle boy, such be thy couch of death,
May heavenly song be borne upon thy last-expiring breath.

CWYN AR OL CYFAILL
PAN HIRAROSAI YN R—D—N.

Trwy ba bleserau byd
Yr wyt yn crwydro cyd?
Mae pleser fel y lli
A'r moethau goreu i mi
Yn wermod hebot ti,—Sior anwylaf.

Trwm wibio llygad llaith
Am danad yw fy ngwaith;
A rhodio godre 'r bryn,
A gwyrddion lanau'r llyn,
Lle rhodit ti cyn hyn,—Sior anwylaf.

Y mae peraidd flodau d' ardd
Yn gwywo fel dy fardd:
A'th ddefaid hyd y ddol,
A'u gwirion wyn o'u hol
Yn gofyn ddoi di'n ol,—Sior anwylaf.

Mae yn Nghymmru laeth a mel,
Mae yn Nghymmru fron ddi-gel,
Mae yn Nghymmru un yn brudd
O'th eisiau, nos a dydd,—
A'i gair wrth farw fydd,—Sior anwylaf.

Y MOR COCH.

Chwythwch yr udgyrn ar gopa Baalsephon,
Gorchfygodd Iehofah! daeth rhyddid i'r caethion.
Cenwch:—ucheldrem y gelyn a dorwyd;
Carlamau'r gwyr meirch yn y tywod arafwyd,
Mor wag oedd eu bost! ni wnaeth Duw ond llefain,
Dyna fyrdd yn y dòn yn gwingo ac yn trengu!
Cenwch yr udgyrn ar glogwyn Baalsephon,
Marchogodd Iehofah ar wàr ei elynion,
Mawl, mawl i'r Gorchfygydd! Hosanna i'r Ior!
Yr ormes a gladdwyd yn meddrod y mor;
Ei air oedd y saeth a ennillodd yr orchest,
Anadl ei ffroenau oedd cleddyf y goncwest.
Pwy ddychwel a'r newydd i'r Aipht am y nifer,
A yrodd i allan yn niwrnod ei balchder?
Edrychodd yr Arglwydd o le ei ogoniant,
A'i miloedd yn nhrochion y llif a suddasant:
Chwythwch yr udgyrn ar aelgerth Baalsephon
Mae Israel yn rhydd! a Pharao yn yr eigion!

Y MESSIA.

Dechreuwch gan wyryfon Sion werdd;
I bynciau'r Nef y perthyn gwychaf gerdd.
Y ffrwd yn trydar—gwig yn gwatwar gwynt,
Breuddwydion Pindus a'i Awenau gynt,
Ni foddant mwy. Dwyfola di fy nghan
A gwrddaist santaidd fant Esaia a thau.

Rhyfedda teithydd yn yr anial cras,
Y tardda lili trwy y cwrlid glas;
Synlama, ynghanol diffaeth sych pan glyw
Y llethri'n tyrddu gan rieidr byw.
Yn holltau craig, lle ffurfiodd draig ei ffau,
Cryn llafrwyn ir, a gwelir hesg yn gwau;
Lle nidrodd drain ar lychlyd ochrau glyn,
A chwardd dan urdd o geinhardd dderi ac yn.
Tyf palmwydd gwyrdd yn mangre crinllyd berth,
A myrtwydd prid lle cysgodd cegid certh.
Y Blaidd a'r Oen cyd borant cylch y gail,
Tywysa y plentyn Lew wrth dennyn dail;
Yr Arth gyd ieua â'r Yeh mewn dinych daug,
A llyfant seirff di-lid y troed a'u sang:
Y baban nwyfus rhed oddiwrth y fron,
I chware a gwiber hyd y barth yn llon,
A rhifa frychau 'r cèn symudliw, hardd,
Try'r colyn fforchog cylch ei fys,—a chwardd.

Cwyd! cwyd! yr haul yw'th goron, Salem wen!
Dy olwg dercha! dwyre'th gaerawg ben!
Gwel hil dirif i'th eang lys yn urdd,
Gwel byd esgora iti feibion fyrdd,
O'th deutu tyrant, llu ar lu, un lef
Erfyniant fywyd; brysiant am y nef.
Gwel wylltion Lwythau'n toi dy byrth â mawl,
Dy Dduw addolant, rhodiant yn dy wawl.
Gwel wrth dy allor plygant Lywion byd,
Gan dyru arnynt gnwd Sabæa 'i gyd!

I ti anadla llwyni Edom glaer,
I ti esgora bryniau Ophir aur.
Gwel, Nef ei gemawg byrth yn agor sydd,
Ac arnat yn ymdori dylif dydd.
Mwy ni oreura dwyrain haul y wawr,
Ni lanwa lloer ei harian gorn yn awr,
Ar goll yn dy belydr, gwelwant hwy;
Un llif o rad, un fflam ddigwmwl mwy
Orlanwa'th lys. Tywyna'r Gwawl ei hun
Yn llachar; tyr dydd bythol Duw ar ddyn!
Try Nen yn fwg, hysbydda cefnfor trwch,
Ymdoddant foelydd, syrth clogwyni'n llwch;
Ond dir ei air, yr un ei allu fydd;
Dy sedd ni syfl, yn deyrn Messia sydd.

TRANC Y CRISTION.

Gan yr Esgob Heber.

(Cyfieithiad.)

Diangaist i'r bedd—ni alarwn am danad,
Er mai trigfa galar a niwl ydyw'r bedd;
Agorwyd ei ddorau o'r blaen gan dy Geidwad,
A'i gariad gwna'r ddunos yn ddiwrnod o hedd.

Diangaist i'r bedd—ac ni welwn di mwyach
Yn dringo rhiw bywyd trwy ludded a phoen;
Ond breichiau rhad ras a'th gofleidiant di bellach,
Daeth gobaith i'r euog pan drengodd yr Oen!

Diangaist i'r bedd—ac wrth adael marwoldeb
  Rhwng hyder ac ofn, os unwaith petrusaist,
Dy lygaid agorwyd yn nydd tragwyddoldeb,
  Ac angel a ganodd yr Anthem a glywaist.

Diangaist i'r bedd—byddai'n bechod galaru,
  At Dduw y diangaist—y Duw a dy roes:
Efe a'th gymerodd; Efe wna'th adfera
  Digolyn yw angau trwy angau y groes!

GALARNAD AROBRYN.

MARWOLAETH YR ESGOB HEBER.

Lle treigla *Caveri*[a] yn donau tryloewon
  Rhwng glenydd lle chwardd y pomgranad a'r pîn,
Lle tyfa perlysiau yn llwyni teleidion,
  Lle distyll eu cangau y neithdar a'r gwin;
Eisteddai *Hindoo* ar lawr i alaru,
Ei ddagrau yn llif dros ei ruddiau melynddu,
A'i fron braidd rhy lawn i'w dafod lefaru,
  Ymdòrai ei alaeth fel hyn dros ei fin.

[a] *Caveri*—afon yn Ngorllewin Hindostan, a lifa heibio Trichinopoly, eiaddfa yr Esgob Heber, ac a ymarllwysa i fôr Coromandel wrth Tranquebar.

" Fy ngwlad! O fy ngwlad, lle gorwedd fy nhadau,
A'i mangre y nos fyddi byth fel yn awr?
Y Seren a dybiais oedd Seren y borau,
Ar nawn ei disgleirdeb a syrthiodd i lawr;
Y dwyrain a wenai, y tymmor tywynodd,
A godre y cwmwl caddugiyd goreuredd;
Disgwyliais am haul—ond y Seren fachludodd
Cyn i mi weled ond cysgod y wawr.

" Fy ngwlad! O fy ngwlad; yn ofer yr hidlwyd
I'th fynwes fendithion rhagorach nag un,
Yn ofer ag urdd bryd a phryd y'th anrhegwyd,
Cywreindeb i fab a phrydferthwch i fun;
Yn ofer tywyni mewn gwedd ddigyfartal,
A blodau amryliw yn hulio dy anial,
A nentydd yn siarad ar wely o risial,
A phob peth yn ddwyfol—ond ysbryd y dyn.

" Yn ofer y tardd drwy dy dir heb eu gofyn
Ddillynion per anian yn fil ac yn fyrdd;
Yn ofer y gwisgwyd pob dol a phob dyffryn
A dillad Paradwys yn wyn ac yn wyrdd;
Yn ofer rhoi awen o Nef i dy adar,
A gwythi o berl i fritho dy ddaiar;
Yn ofer pob dawn tra mae bonllef a thrydar
Yr anghred a'i anrhaith yn llenwi dy ffyrdd.

" Dy goelgrefydd greulon wna d'ardd yn anialdir,
Ei sylfan yw gwaed, a gorthrymder a cham:

Pa oergri fwrlymawl o'r *Ganges*[b] a glywir?
Maban a foddwyd gan grefydd y fam:
Ond gwaddod y gwae iddi hithau ddaw heibio;
O! dacw'r nen gan y goelcerth yn rhuddo,
Ac uchel glogwyni y *Malwah*[c]'n adseinio
Gan ddolef y weddw o ganol y fflam.

"Gobeithiais cyn hyn buasai enw Duw Israel,
A'r aberth anfeidrol ar ael Calfari,
Yn destun pob cerddi o draeth Coromandel,
A chonglau *Bengal* hyd i eithaf *Tickree*;[d]
Ac onid oedd *Bramah*[e] yn crynu ar ei cherbyd,
Er y pryd y bu Swartz yn cyhoeddi bod bywyd
Yn angau y groes i Baganiaid dwyreinfyd?—
Pan gredodd fy nhad yr hyn ddysgodd i mi.[f]

"A'th ddonian yn uwch, ac yn uwch dy sefyllfa,
A'th enaid yn dan o ennyniad y Nef,

[b] *Ganges*——prif afon India—gwrthddrych addoliad y Braminiaid. Cyffredin ydyw i wragedd dafu eu mabanod i'w thonau er mwyn boddio y duw Himaloya, a elwir yn Dad y Ganges.

[c] Y *Malwah*—rhes o fynyddoedd uchel yn agbanol Hindostan. Nid yw cynghor na cherydd Prydeinaidd yn gallu rhwystro yr arfer greulon gynnwyaol o losgi gweddwon byw gyd â'u gwyr meirw.

[d] Nid anghyffelyb Hindostan i driongiyn: Coromandel, Tickree, a Bengal, ydynt y congiau.

[e] *Bramah*—prif ddawiea y Braminiaid.

[f] Tybir bod tua 40,000 o Gristionogion, ond bod mwy na'u hanner yn Babyddion, yn y Carnatic. Nid yw prin gwerth crybwyll mai un o hil disgyblion Swartz, Cenadwr enwog tua chan mlynedd yn ol, ydyw yr Hindoo a ddychymygo yr Alsmad.

Cyhoeddaist ti, HEBER, yr un rhyw ddiangfa,
Gyda'r un serch ac addfwynder ag ef;
Dyferai fel gwlith ar y rhos dy hyawdledd,
Ennillai'r di-gred at y groes a'r gwirionedd,
Llonyddai'r gydwybod mewn nefol dangnefedd;—
Mor chwith na chaf mwyach byth glywed dy lef!

" Doe i felynion a gwynion yn dryfrith,
Cyfrenit elfenau danteithion y nen;
Y plant a feithrinit nesâent am dy fendith,
A gwenent wrth deimlo dy law ar eu pen;
Doe y dadgenit fod Nef i'r trallodus—
Heddyw ffraethineb sy fud ar dy wefus—
Ehedaist o'r ddaiar heb wasgfa ofidus,
I weled dy Brynwr heb gwmwl na llen.[g]

" Fy ngwlad! O fy ngwlad! hu ddrwg i ti'r diwrnod
Yr aeth HEBER o rwymau marwoldeb yn rhydd;
Y grechwen sy'n codi o demlau'r eulunod,
Ac uffern yn ateb y grechwen y sydd;
Juggernaut[h] erch parottoa'i olwynion—
Olwynion a liwir gan gochwaed dy feibion—
Duodd y nos—ac i deulu Duw Sion
Diflanodd pob gobaith am weled y dydd."

g Angau disyfyd a gymerai HEBER ymaith tra y mwynâi drochfa dwymn. Y dydd o'r blaen—y Sabboth—cyflawnai ddyledswyddau ei daith Esgobawl.

h *Juggernaut*—un o eulunod penaf Hindostan. Ar ei gylchwyl llusgir ef ar fen anferth i ymweled â'i hafodty. Ymdafla miloedd o'i addolwyr dan ei olwynion trymion, ac yno y llethir hwynt.

Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio,
  Gwnai gam ag addewid gyfoethog yn lion:
A ddiffydd yr haul am i seren fachludo?
  Os pallodd yr aber, a sychodd y mor?
Na, na, fe ddaw bore bydd un Haleluia,
Yn ennyn o'r *Gauts* hyd gopäau *Himalaya*,[1]
Bydd baniar yr Oen ar bob clogwyn yn India,
  O aelgerth *Cashgur* hyd i *Gerth Travancore*.

A hwyrach mai d'wyrion a gaugiant y delwau,
  A fwrir i'r wadd ar bob twmpath a bryn,
Ar feddrod ein Hanner i'w rhoi yn lle blodau,—
  Ei gyfran o ysbail ddymunodd cyn hyn:—
Heber!—ei enw ddeffrodd alarnadau,—
Gydymaith mewn galar, dod fenthyg dy dannau,
Cymysgwn ein cerddi, cymysgwn ein dagrau,
  Os dinôdd y gerdd bydd y llygad yn llyn.

Yn anterth dy lwydd, Heber, syrthiaist i'r beddrod,
  Cyn i dy goryn ddwyn un blewyn brith;
Mal Dar yn ei lesni yn gwywo i'r gwaelod,
  A'i ddeilen yn ir gan y wawrddydd a'r gwlith:
Mewn mynyd newidiaist y *mitre* am goron,
A'r fantell esgobawl am wisg wen yn Sion,
Ac acen galarnad am hymn anfarwolion,
  A thithau cymysgaist dy hymn yn eu plith.

[1] *Gauts*—mynyddoedd uchel with Travancore, penrhyn *deheuol*.—Himalaya, mynyddoedd uwch, orth Cashgur, penrhyn *gogleddol* Hindostan.

Llwyni *Academus*,[k] cynorsaf dy lwyddiant,
Lle gwridaist wrth glod y dysgedig a'r gwâr;
Y cangau a eiliaist a droed yn adgofiant
O alar ac alaeth i luoedd a'th gâr:
Llygaid ein ieuenctid, a ddysgwyd i'th hoffi,
Wrth weled dy arddeb[l] yn brithio'n ffeneatri
A lanwant, gan gofio fod ffrydiau *Cayeri*,
Yn golchi dy fynwent wrth draeth *Tranquebar*.

Llaith oedd dy ffin gan wlithoedd *Castalia*,
O *Helicon* yfaist yn moreu dy oes;
Ond hoffaist wlith Hermon a ffrydiau Siloa,
A swyn pob testunau daiarol a ffoes:
Athrylith, Athroniaeth, a dysg ar Awenau,
A blethent eu llawryf o gylch dy arleisiau;
Tithau'n ddi-fôst a dderbyniaist eu cedau,
I'w hongian yn offrwm ar drostan y groes.

Pan oedd byd yn agor ei byrth i dy dderbyn,
Gan addaw pob mwyniant os unit ag ef,
Cofleidiaist y groes, a chyfrifaist yn elyn
Bob meddwl a geisiai fyn'd rhyngot a'r Nef:
Yn *Hodnet*[m] yn hir saif dy enw ar galonau
Y diriaid ddychwelwyd yn saint trwy'th bregethau—

[k] *Llwyni Academus.* Nid oes ond a wypo a ddichon ddychymygu y parch a dalwyd yn Rhydychain i *Heber*, a'r parch a delir yno eto i'w enw. Yno y daeth gyntaf i wydd yr oes drwy ei Balestine, a gyfieithiid i Gymmraeg mor ardderchog gan yr unig wr cyfaddas i'r gorchwyl—yr enwocaf Gymmro, Dr. Pughe.

[l] *Arddeb—Portrait.*

[m] *Hodnet*—yn Swydd Amwythig—yno y cyflawnai *Heber* swydd Bugail Cristionogol yn ddiffeil hyd ei symudiad i India.

Amddifad ca'dd borth yn dy briod a thithau—
Y weddw a noddaist,—y wan wneist yn gref.

Gadewaist a'th garent—yn yspryd Cenadydd
Y nofiaist dros donau trochionog y môr,
I ddatgan bod Iesu yn berffaith Waredydd,
I *Vahmoud Delhi*, ac i *Vramin Mysore;*
Daeth bywyd ac adnerth i Eglwys y dwyrain—
Offrymwyd ar allor Duw Israel a Phrydain—
Yn nagrau a galar Hindoo gallwn ddarllain
Na sengaist dir Ind heb anfoniad dy Ior.

O Gôr *Trichinopoly!* cadw di'n ddiogel
Weddillion y Sant i fwynau melus hun,
Pan ferwo y weilgi ar lan *Coromandel*;
Gofynir adfeillion ei babell bob un;—
Ond tawed ein pruddgerdd am bennill melusach,
A ganodd ein Heber ar dannau siriolach;
Yn arwyl y Bardd á pha odlau cymhwysach
Dilynir ei elor na'i odlau ei hun.

" Diangaist i'r bedd—pa'm galarwn am danad,
" Er mai trigfa galar a niwl ydyw'r bedd?
" Agorwyd ei ddorau o'r blaen gan dy Geidwad,
" A'i gariad gwna ddunos yn ddiwrnod o hedd.
" Diangaist i'r bedd—ac wrth adael marwoldeb,
" Rhwng hyder ac ofn os unwaith petrusaist,
" Agoraist dy lygaid yn nydd tragwyddoldeb,
" Ac angel a ganodd yr Anthem a glywaist."*

* Gwel yr Emyn flaenorawl ganddo ei hun.

CATHL IDD YR EOS.

PAN guddio nos ein daiar gu
O dan ei du adenydd,
Y clywir dy delori mwyn,
A chor y llwyn yn llonydd;
Ac os bydd pigyn dan dy fron
Yn peri i'th galon guro,
Ni wnei, nes toro gwawrddydd hael,
Ond canu a gadael iddo.

A thebyg it' yw'r Feinir war,
Sydd gymhar gwell na gemau;
Er machlud haul, er hulio bro
A miliwn o gymylau;
Pan dawo holl gysurwyr dydd,
Hi lyna yn ffyddlonaf;
Yn nyfnder nos o boen a thrais
Y dyru lais felusaf.

Er dichon fod ei chalon wan
Yn delwi dan y dulid,
Ni chwyna i flino ei hanwyl rai,—
Ei gwen a guddia'i gofid;
Ni phall ei chan drwy'r ddunos faith
Nes gweled gobaith golau,
Yn t'wnu, megis llygad aur,
Drwy bur amrantau'r borau.

O GYWYDD AROBRYN.

BRWYDR TRAFALGAR.

Yna, twrf yr arfau tan
Eresawg, ddechrenasan',
Yn dra uchel fagnelu
Drwy oror y dyfnfor du!
Swn enbyd, tanllyd bob tu,
Tybiaf yn gwrthatebu
Eu gilydd, mewn dig alaeth
Gan ruo mewn cyffro caeth!
Pylor yn lluchio peli
Tros wyneb maith, llaith y lli;
Mellt gwrejchionllyd enbyd oedd
Yn dewfrith hyd y dyfroedd;
Nes bai'r mor oror eirian,
A thonau'r dyfnderau'n dan!!
Creuloni wnai'r weilgi'n wyllt,
A ffrio yn gyffröwyllt.

Dinystr ar ddinystr a ddaeth;
O! fawredig ddifrodaeth!
Dynion mewn ing rhwng dannedd
Marwolaeth, yn gaeth eu gwedd:
Angau hyf a'i gleddyf glas
A luniai eu galanas:

Gwaed wrth erchyll bistylliaw,
Droe'r eigion yn drochion draw!
Och afar! Ow, och hefyd!
Glasfor yn gochfor i gyd!

Anian pryd hyn ddychrynid,
Yr oedd ar ei hwyneb wrid!
A *Thrafalgar* yn waraidd
A siglid, grynid i'r gwraidd!

Swn anfad yr hellgad hon,
Rwygai'r trochionfawr eigion!
Holltawdd y dyfroedd heilltion,
Cythruddodd, digiodd y dòn!
Twrf aflawen bob enyd,
Hwylbreni'n hollti o hyd;
Llongau'n gorwag ymagor,
Yn ddrylliawg i ferwawg for!
Pan fai'r pelau'n gwau o gylch
Ai'r eigion anwar ogylch,
O'u holau'n gwysau i gyd,
Ail i ar ar ol eryd;
Mwg a niwl o'r magneloedd,
Yn wylldyrch drwy'r entyrch oedd;
O'r blaen ni bu berw dlwaig,
Na mawr afiwydd mor orfwng,
Na'r fath gyflafan ar for,
I'w chanfod ar drochionfor!

TYWYLLWCH.

BREUDDWYDIAIS freuddwyd, ac nid breuddwyd oll;
Diffoddai haul ysplenydd, ac y ser
Mewn gwyll a grŵydrynt yn y bythawl dran,
Heb rawd, heb oleu, ac y ddaiar oedd
Yn dywyll ac yn ddu, mal talp o rew,
Yn hongian yn yr awyr wyll ddi-loer.
Y bore deuai, a dychwelai ef,
Ac eilwaith deuai, ond ni ddygai ddydd;
Anghofiai dynion nwydau dynolryw
O fraw eu hymddatodiad hwn, yr holl
Galonau ffërynt i hunanawl gais
Am wawl; ac wrth wyldanau byddent byw—
Brenindai, gorseddfëydd, a phob rhyw fwth,
Holl, breswylfaoedd pob rhyw beth a drig,
A losgid yn goelcerthi; trefydd oll
A ysid, ac ymgasglynt dynion fyrdd
O gylch eu teiau fflamiawl, mal y caent
Drachefn am unwaith weled naill y llall.
Gorddedwydd hwynt a drigynt o fewn rhwyll
Y bryniau llosg, ac eu mynyddawl ffagl:
Echryslawn obaith oll o fewn y byd:
Coedwigoedd llosgid—ac o awr i awr
Y syrthiynt, gwywynt,—ac y bonion llosg
Diffoddynt gyda grëm—a du oedd oll.
Gwynebau pawb gan y diobaith wawl
A wisgai wedd ddaiarawl, mal o hyd
Y lluchion syrthiai; ymorweddai rhai

Gan huddo eu llygaid, ac wylofi yn brudd.
Rhai rhoynt eu genau ar eu dwrn mewn gwen;
A brysiai ereill yma a thraw, gan hel
Pob cynnud i'w mygedorth, ac yn wyllt
O gur, edrychent ar yr wybren bol,
Elorlen byd a ddarfu: yna hwy
Gan regi a ymgreiniynt yn y llwch,
Gan rincian dannedd, a chan udaw'n groch.
Yr adar gwylltion crechynt, a chan ofn
Ymchwyfynt a gohedynt hyd y llawr,
Gan guraw eu hadenydd llib di-les:
Y milod mwyaf anyar doynt yn ddof
A bygryn: y gwiberod ac y seirff
Yn mhlith y dorf ymnyddynt, ac o fraw
Chwibanynt, ond heb gol—a lleddid hwynt
Yn fwyd; a dyn, yr hwn oedd bron ar dranc,
Mal hyn ymlenwai.—Prynid pryd a gwaed,
A phawb yn sòr eisteddynt ar wahân,
Gan lythu eu hunain yn y mwrllwch du.
Nid oedd dim cariad rhwng dyniadon mwy,
Un meddwl daiar oll—ac angeu hwn,
Diannod a di-fri; newynawg loes
Ymborthai ar goluddion o bob math.—
Ni chaffai cnawd nac esgyrn dynion fedd,
Y truain gan y truain a fwyttëid;
Bwyttëid y perchenogion gan eu cwn;
Ond un a hwn oedd ffyddlawn i ryw gorff,
A chadwai ef rhag adar, milod ac
Anghenus ddynion, nes i newyn blwng

Eu cydgynglynu neu syrthiedig gyrff
Marwolion lithiaw eu hopranau llab.
Ei hun ni fynai borth, ond udb gwnai
O hyd yn llonydd, ac yn driat ei lef,
Gan lyfu y llaw na anwesai mo'no mwy,
Ac yna trengu gwnai y ffyddlawn fil.
O radd i radd newynu gwnai y dorf,
Ond dau mewn dinas fawr goroesi gwnaent,
A galon oeddynt; cyfarfuant ger
Diffoddawl farwor rhyw allorfa gerth,
Lle cynnullasid petbau santaidd grug,
At waith ansantaidd; a chribynynt hwy,
Ag eu crafangau oer, esgyrnllym, hyll,
Ac yn ysgrydlawl, crafynt dwred gwael
Odd y marwydos, a chan cwythu'n llesg
Am ryw ychydig fywyd, gwnaethant ffiam,
Yr hon oedd watwar; yna cyd-ddwyrëynt
Eu llygaid wrth y gwawl, a gwelynt wedd
Y naill y llall—wrth weled, rhoynt ysgrëch,
A threngynt sef o hylled gwedd pob un,
Heb wybod pwy oedd ef, ar ael yr hwn
Yr ysgrifenai newyn aethus—Maillt.
Y byd oedd wag, y poblog ac y nerthawg oedd
Yn dalp, heb dymmor, heb anifail, ac
Heb bren, heb ddyn, ac heb ddim bywyd oll—
Talp o farwoldeb—tryblith oedd o glai.
Y llynoedd, yr afonydd, ac y mor,
A safynt oll, ac nid oedd cyffraw trwy
Eu holl ddyfnderau dystaw, nag oedd dim!

Y llongau heb eu llongwyr ar y dwfn
A bydrynt eu hwylbreni bob yn ddarn
A syrthiynt; mal y syrthiynt, hunynt ar
Yr aphwys, nid oedd waneg i'w cyffroi:—
Oedd meirw y tonau, llianit yn y bedd,
Y lloer eu llywiawdures, marw o'r blaen:
Y gwyntoedd gwywynt yn yr awyr drom,
Ac y cymylau trengynt, nid oedd raid
Eu cymhorth ar dywyllwch—ef oedd OLL.

CAN AROBRYN.

LLONG-DDRYLLIAD.

Rhwng tir y Werddon, fawr ei brad,
A Chymmru wlad fynyddawg,
Unigawl Long oedd ar ei hynt,
O flaen y gwynt tymhestlawg.

A minnau oeddwn ar fy nhro
Yn mor-ymdeithio ynddi;
A chyda bywyd ar y traeth,
Yn unig ddaeth o honi!!

Y nos oedd dywell:—lloer na ser,
O'r uchder ni ddysgleirient;
Ond tonau'r mor ar fawr wahan,
Fal byd o dan dywyneut.

Ac ambell fellten, er ein braw,
Y creigiau draw amlygai;
Y rhai adseinient yn y man
I'r daran a'i canlynai.

Y cenllysg oeddynt ddarnau ia,
Ac eira o flaen y gyrwynt:
Y rhai a daenynt fantell au,
Ar For a'i donau danynt!!

Yn uwch, yn uwch, cyfodai'r gwynt,
Oer helynt oedd i'r hwyliau;
Y Llong heb Lyw na Llywydd ai,
A syrthio wnai'r hwylbrenau.

Ar grib y don y treigla'n awr,
I'r eigion lawr y syrthia;
A thon ar don, yn nyfnder nos,
Yn agos a'i gorchuddia.

Er garwed ydoedd yn mysg Myr,
Hen Forwyr wrth arferiad;
Llesgau yr oeddynt hwythau'n awr,
Gan ofni'n fawr *Llong-ddrylliad.*

Ymdrechiad rhai a haeddai glod,
Rhai feiddient fod yn feddwon!
Ac ambell weddi oedd i'w mysg,
Ynnghyd a chymmysg lwon.

Ond pwy a draetha gymaint braw,
Rhai'n mor-ymdeithiaw oeddynt?
Y tad, y fam, a'u plentyn bach,
Anwylach yno welynt!!

Llesmeiriai 'r fam, gwallgofai 'r tad,
Fal anfad am ei deulu;
Y baban oedd, heb wybod pa'm,
Ar fronau 'i fam yn cysgu!

Fal hyn, diofnau yw yn mysg
Pob terfysg—Diniweidrwydd;
Ac felly bydd pan elo'r nef,
A'r ddaiar gref i dramgwydd!

Meddyliai rhai am gartref cu,
Lle 'r oedd eu teulu tirion;
Y rhai yn llawen allent fod,
Heb wybod eu peryglon.

Y naill ar ol y llall o'u plant,
A alwant wrth eu henwau;
Y rhai 'n amddifaid gwelant hwy,
Mewn gofid, clwy', ac eisiau.

Ond llais marwolaeth yn y gwynt,
A roddai iddynt ateb,—
"O'ch rhai anwylaf, tra fo chwyth,
"Ni welwch fyth un gwyneb."

Caed ereill yn ymbarottoi
I geisio 'sgoi marwolaeth;
Ac achub hefyd, er di-fael,
Eu trysor gwael, ysywaeth!

Ond rhai oedd barod, fal mewn bedd,
I orwedd yn y dyfnder;
Gan lwyr obeithio, trwy'r Mab Rhad,
Gwell hynt i Wlad uchelder.

Ar hyn glas-lewyrch welid draw,
Goleuaw mae—diflannu!
" Ai canwyll corff, neu oleu'r byw,
" Er rhybudd yw o Gymmru?"
" Ah! rhywddrychiolaeth yw, ergwae,
" Ymneidio mae o'r creigiau,
" I lle'r ymddengys mor yn wyn,
" Gan dwrf ac ewyn tonau."
A buan iawn y clywyd cri,
A gweddi groch marwolaeth;
Ar graig, suddedig gyda hyn,
Cai'r Llong fawr gryn, ysywaeth.

Hi ar y graig a gurai'n fawr,
Y mor a'r llawr a'i drylliodd;
A'r naill ar ol y llall y don
I'r eigion a ysgubodd.

Ar ddarnau'r Llong y gwelid rhai,
Y mor ymdreiglai danynt; rolled itself
Ac oedd yn agor ac yn cau,
Fal megis beddau iddynt.

Ac amball Farch oedd yno'n bod,
Ymddattod wnai o'i rwymau;
Gan chwythu'n ffrom, a chwalu'i fwng,
Ymdrechai rhwng y tonau.

Myfi fy hun o ddystryw mor,
Is goror dderchafedig,
Fal un o lewyg ddaeth i'r lan,
Hyn oedd fy rhan i'n unig!

Ond o'm cyfeillion nid oedd un,
Ni welais lun mewn bywyd:
Na llais ni chlywais—dim ond twrf
Y mor mewn cynhwrf enbyd.

Gwrandewais ennyd—codais floedd,
Ond neb nid oedd atebai;
Ond draw o'r creigiau, Ow, paham?
Yr adsain a'm gwatworai.

Yn wlyb, yn oer, briwedig, cla',
Sychedig, a newynawg,
Y gwyliais yno lawer awr,
Nes tori'r wawr wybrenawg.

Ond, O fy Nuw! ar doriad dydd,
Pa olwg brudd a welais!
Ac er mor hyfryd oedd cael byw,
Pa faint, fy Nuw, a wylais!

O'r Llong, fy nghartref lawer dydd,
Ar Werydd-For a *Bisci*,
Nid oedd ond darnau—ac un rhan
Oedd ar y lan o honi!

A gwychder India, a phob bro,
Oedd yno'n wasgaredig;
A'i pher-aroglau, a phob maeth,
A foddiai'r archwaeth flysig.

Fy hen gyfeillion ar bob hynt,
Hwy oeddynt gelaneddau;
A'u cyrff chwyddedig ar y lan,
A rhai oedd dan y tònau.

Y wraig yn mreichiau'i gwr ynglyn,
A'i phlentyn ar ei bronau,
Oedd yno hefyd—megis rhai
Na lwyr wahanai angau.

A gwelais yno 'n farw'r march,
Fu'n un dihafarch hefyd;
A'i lygaid oerion ar wahân,
Fu gynt fel tan yn fflamllyd.

Marwolaeth yma yn mhob rhyw lun,
A'i ffurf ei hun a welid;
Dinystriad eiddo, dinystr dyn,
I'w ganlyn a phob gofid!

Ond, ha! rhyw drwst a glywais draw,
A gwedais—"Daw cynnorthwy;"
A thybiais ddyfod llu o'r wlad,
A'u bwriad yn glodadwy.

"Ymg'leddu meirw, cadw i'r byw
"Eu heiddo yw eu bwriad;
"Ac (meddwn) ni chais Cymmry les,
Na mantes o "*Long-ddrylliad.*"

Ond, ah! os yno ambell fam,
A wyddai am dosturio;
Rhyw luaws mawr a ddaethai yn nghyd,
A'u bryd ar *Long-yspeilio!*

O! Gymmro, attal, ac na ad
Fod yn dy wlad fradwriaeth;
Ond dysg, a theimla'r hyn, fal dyn,
A berthyn i ddynoliaeth.

A chofia (er mor fawr oedd twrf,
A chynhwrf i'n dinystrio,
Y nerthawl wynt, a thonau'r mor,
Gerllaw dy oror, Gymmro.)

Daw eto ddiwrnod llawer mwy
  Ofnadwy, pan yn siglo
Bydd nerthoedd nef, a daiar frau,
  A'r mor a'i donau'n rhuo!

Y diwrnod hwnw, cariad cu,
  Medd Iesu, fydd anrhydedd;
Ac i'r trugarawg, o bob rhyw,
  Y dengys Duw drugaredd.

BEDD Y MORWR:—

Pa le y mae?

Rhyw haf aeth *Llongwr*, gwr teg maith,
  I hir dir daith ar wawr y dydd;
Y mor yn llyfn, mawr iawn y dlws,
  Ac anwyl wres gan awel rydd:
Ond ar ryw nawn y codai gwynt
  I rwystro'i hynt, er ystryw hedd,
A syrthiai'r gwr, yn swrth a gwan,
  I lymaf man,—pa le mae'i Fedd?

Pa le y traed a gaed yn gynt
  Na gallu gwynt, rhag colli gwyr?
Y breichiau cryfion tynion tal,
  A fedrent ddal fal modrwy ddur?

Yn awr nid yw y gwiw ar gael
  Ef sydd wael, mi wn, ei wedd:
Nid oes neb call, Och! wall a chur,
  A edwyn fur ei lydan *Fedd!*

Mae brig ewynawg, denawg, don,
  Un hallt ei bron yn hollti briw;
Wrth fodd yn rhuo, neidio'n ol,
  A'i harw gol am *Longwr* gwiw:
O waedd! ni all y weddw'n awr,
  Gwiw ei gwawr, er gwywo ei gwedd,
Gyda brys, ond codi ei braich,
  Ac wylo baich,—nis gwel y *Bedd!*

Er bod marwolaeth gaeth ei gwawr
  Ar heli'n awr yn hwylio'n noeth;
Gan guro, briwio, llawer bron,
  I addoer don, a chuddio doeth,
Daw dydd ceir *Morwr* dewr o'r don,
  Pan ferwo hon, heb fawr o hedd,
Yn bwysau dyn, heh eisiau darn,
  I'r olaf Farn o'i ddirgel *Fedd!*

AMSER.

Deffroa di, fy Enaid, o dy byd!
Buaned gwela fal eheda hwnt

Dy *Amser* byr; gad fwyniant gwag y byd,
A chain freuddwydion idd eu hoffant hwy:
Mal awel heibio ant, heb adu ond
Diddymder. Ceisia yn dy ddydd, er dim,
Y ffordd i fywyd; cadw hi mewn cof,
Er hwn nid erys drai na llanw mor.
Afonydd mawrion, llyfnion yn eu rhed,
Er hir ystumiaw drwy y ddolydd ffaeth,
Ac afonigion yn amdroion draw,
Gan drydar cyrchant oll un màn.
Gronynawl syrth y tywawd yn y gwydr
Yn mydru amser dwys, trwy anian leddf,
Ei rawd ar ben a weli yn y crug.
Efelly dynawl-ryw:—yr einioes frau
Ar frys a dyna at ei rheithiawl oed.
Yw angeu nawdd y truan, cyfaill holl
Ffyddlonion: angeu,—diwedd amser yw:
Arweinia idd y bedd lle huna doeth
Ac annoeth, cydradd pawb, y gwych y gwael;
A gludir yno nesaf, pwy, pa bryd,
Yw trefniad Nef: ond cael dy nodded *Ti*,
Ollgyfiawn *Ior* a rhad *Waredydd* dyn,
Nis dawr y pryd, ac nis pryderir pwy—
Tra erys, heddyw yw ein hadeg ni.

UCHER.

Y BRAIN prysurynt at eu celydd dai,
A chwim golomen at ei hannedd glyd,
Yr arwr cefnai ar ei ddyddiawl dasg,
Y bugail ar ei braidd; ac idd eu plith
Annerchynt oll, dy adofwyad byr:
Gorweddai milod yn y dolydd gwerdd,
Gan gnoi eu cil, yn brudd ar fin yr hwyr,
Ac is y gorwel rhudd machludai haul:
Dynesa bellach, gyfnos, tymmor hedd.—
Pa leisiau cymhlith bellach ar fy nghlyw
A lithrant? Dacw fardd uchelfryd, gwych,
Ehedydd, llawn awenydd yn yr wybr,
Yn odli cerdd i dy ymweliad gwar;
A phen canorion coed, aderyn du,
Y fronfraith fwyn, y llinos maws ei sain,
Y penaur teg, ac y bronrhuddyn gwyl,
Dygyrchynt bawb, y llawen pryswydd gor,
Mewn mwyn blethiadau hyfryd gathliad hwyr.
Tebygaf gwelaf yn y dwyrain draw,
Dy araf, ysgafn, gostyngedig rawd,
A nos yn sangu ar dy odre llaes.—
Nid fal y lloer yn cwnu fry i nef,
A gosgordd brith o emau yn ei chylch
Y deui di; neud isel gwrm dy wisg,
O dyner wedd, heb ddim ardduniant braidd
Ond un neu ddwy o ser ar gil dy ael;

Boddloni di ar y difrïant hyn—
Yn y cyflychwyr cyfrwng gwyll a gwawl,
A mwyn dawelwch yn ei rwysg tros fyd,
Ti rifi yn dy ddystaw, leddf nesâad,
Holl filod dof, ac hefyd adar dydd,
I gysgu yn y cudd; a gorflin ddyn,
I orphwys o ofalon prysur fyd;
A throstynt oll, dy doron fawr a daen;
Atchwela weithion, heddwch yw dy rodd.

GOBAITH.

MELUSYDD bywyd, Gobaith hyfryd, ti
A daeni flodau dros ddyfodiant pell;
Goreuri wedd y banau niwlog draw,
Gwanychi nerth blinderau hir-baraus,
Dangosi hawddfyd hwnt—a hwnt o hyd!
Dysgwyliad sydd hyfrytach na mwynâad.—
Y serchus lanc wrth syllu yn dy ddrych,
A genfydd draw y feinwen yn ei gofl;
Ond tirion cuddi drallod maith ei oes.
Y llwm garcharor yn ei dywell ffau,
Tra clyw dy lais yn canu am ryddâad,
Ni theimla lymder pwysig didau dur
Yn cnoi ei fferau.—Dacw wr o ddysg,
Yn treulio ei nerth ac iechyd yn ei gell,
I olrhain llwybrau doethder, heb fwynau

Hyfrydwch anian.—Pa a bair i hwn
Dyodde'r cyfryw garchar? Neb ond ti.
Proffwydawl gofres ledi di o'i flaen,
Dangosi ei enw yn mysg enwogion byd,
Yn hardd lewyrchu.—Draw y milwr dewr
Ei luoedd rhesa ar y gwaedlyd faes,
Goddefa oerfel, clwyfau, a phob gwae,
Yn llawen!—tremia ar dy ddarlun di
O'i freiniol urddas,—rywbryd ar ei sedd:
Ond wedi'th ddilyn, Ow! ar ben y daith,
Esgori'n aml ar somedigaeth drist!
Diflanna'th addewidion, megis niwl.—
Yn lle mwynau ei benaf wrthddrych serch,
Ei charwr gwel ei chynnar doi a phridd.—
Y caeth a syrth o'i hirfaith boen i'r llwch;
Y Bardd a drenga,—derfydd am ei glod;
Anghofir mwyach gyda'r miloedd gynt,
Ei ddysg, ei ddawn, a'i hanes! Tafla cledd
Y milwr o'i orseddfa, *cyn ei chael!*
Os byd dy wrthddrych, gwagedd yw dy wen,
Twyllodrus yw mwynderau hwn i gyd.—
Ond, dacw wr a'i drem yn uwch na'r llawr;
Er gwywo'i wedd gan henaint, er gwanau
Ei gorff, er gwŷnu ei hirhoedlawg ben;
Ei oes a dreuliodd i foddloni'r Ior,
Ei serch a roddodd ar sylweddau fry;
Yn siriol gwena ar iselder bedd;
Dangosi iddo uchelderau nef,

Ac anfarwoldeb; a'i wyrddlesni mwyn
Yn bythawl ddeilio.—Gwyn ei fyd,—i hwn
Y try ei Obaith yn ddidranc fwynâad.

BODDLONRWYDD.

Pa les meddiannu holl drysorau byd,
A thyru aur wrth fesur neu wrth bwys;
Cael byw yn foethus mewn palasau teg,
A pherchen urddas ac anrhydedd mawr,
Cael mil o weision i osgorddi'n rhawd,
A chwim gyflawni pob ryw amnaid fach,
Os nytha Anfoddlonrwydd dan y fron?
Hwn, elyn marwol, a wna coron aur
Yn faich gormesol ar y teyrnaidd ben;
Try hwn y neuadd wych yn garchar gwael,
Ac ar obenydd esmwyth taena ddrain;
Dug ofid trwch i loddest meibion rhwysg,
Cymysga chwerwlys gyd a'u melys win;
Gwenwyna holl fwynderau'r bywyd hwn,
Ac a gwtoga hyd ei edau frau.
Cardotyn gwael, mewn cyflwr isel tlawd,
Heb gartref clyd, i'w noddi rhag y storm,
Yn grwydryn salw, ei wely goreu, gwellt,
Yn byw druanwas ar haelioni prin,
Os ceiff Foddlonrwydd yn gydymaith llon
Ysgafnach yw ei galon, a llai trist,

Nac eiddo *brenin* heb y fendith hon.
" Nid oes ar ddyn ond eisiau ychydig iawn,
" Tra yma na'r ychydig hwnw'n hir,"
Ac eto cyfnewidiol yw fal gwynt,
Gan feio ffyrdd Rhagluniaeth er mor dda,
A gwneyd cadwynau erchyll iddo ei hun.

Mor ddedwydd yw y *Cristion* yn ei ran,
Yn nghanol byd o waeau o bob rhyw,
Yn dyoddef cerydd gwialen cystudd llym,
Siriola ei wyneb gan orfoledd pur,
Boddlonrwydd a felusa ei gwpan ef;
Ni chlywir unrhyw gwynfan byth o'i fin,
Ond mawl, am esmwyth neu am arw fyd;
Ar wely angeu, dan arteithiau dwys,
Ei ael sydd wastad, tawel yw ei fryd;
Ar olaf sain ei beraidd gan o fawl,
Ei enaid hed i drigfan uwch y nen,
I seinio bythol glod i'r Hwn fu farw ar y pren.

GOFID.

" PAHAM y ffrydia dagrau dros dy rudd
" Nes gwelwi'r gwrid a wenai yno gynt?
" A chur dy fron ag ocheneidiau fyrdd,
" O hwyr i fore, ac o fore i hwyr?

" Paham wrth rodio glan dy afon hoff,
" Lle gynt cymysgit don a si y ffrwd,
" Lle gwisga Anian bob rhyw dlws a fedd,
" Na byddit hoenus ac na chlymit gan ?
" Gynt, nid oedd un o'r holl gerddorion gwych
" A droediynt ddolydd Ystrad Alun werdd,
" Mor llon ei garol ac mor ber ei dant."
Mal hyn ymhola fy nghyfeillion hoff
A llais crynedig, ac a llygaid llawn;
Ni allant wybod pa yw'r Gofid cudd
A ysa 'nghalon friwdoll ddydd a nos:
Hawdd gallant hwy roi cynghan yn mhob tant
O'r delyn chweg, a'i dilyn gyda cherdd;
Yn hawdd y gallant ddawnsio ar y ddol,
A llenwi'r twmpath glas o gamp a chlod;
Eu gruddiau gwridog profant iechyd bron,
A bod danteithion anian at eu blas.
Ond mi wyf adyn i fy hun yn llwyth,
Yn llusgo blin a gorthrymedig oes:
Y delyn sydd i mi heb serch na swyn,
A phennill melys sy fal crechwen oer:
Ni phara cwmni imi wisgo gwen,
A chwerwon ydyw moethau goren byd:
Os af i ddolydd i groesawu'r wawr,
I glywed adar yn troi'r llwyn yn gan,
Ac awel ber yn sisial rhwng y dail,
Daw *Gofid* yno, pyla'm hanian oll,
Nes peri im' anghofio'r wawr a'r gerdd;
Dirdyna 'm henaid ag arteithglwyd bryd,
Heb sylwi ar ei gloes,—heb wrando'i chwyn.

Mal hyn y'm dilyn drwy fy nyddiawl daith,
Gan chwerwi'r byd i mi a mi i'r byd;
Yr hwyr, pan elwyf ar orphwysawl drawd,
I weled anian yn ei mantell lwyd,
Daw Gofid ar fy ol fal cysgod cryf,
Ac ochain anesgorawl chwydda'm mron;
A dagran'n llifo o fy llygaid llesg
A safant ar yr egin gwyrdd yn wlith,
Pan hulio nos ei llen ar lusern dydd
A galw'r gwyllon yn y wern i ddawns;
Pan ddelo Brenin Cwsg yn araf deg
Yn ngherbyd lludded, ar olwynion prwm,
A pheri i'w ddeiliaid dalu teyrnged rwydd,
Gan adael helbul a chofleidio hedd,
Wyf i yn unig wrth fy llusern gwan,
Yn cwyno'n drist,—heb neb i wrando 'm cwyn—
Cofleidiwn fedd os na bai cofio barn.

Mae Anian oll yn llon, ond mi wyf brudd,
Yr haul tywyna a chynhesa byd;
Y lloer sydd deg yn rhodio ar ei hynt,
Gan wenu ac arianu tir a thon;—
Mi gerais unwaith yr olygfa wemp.—
Mor hardd eu gwedd yw y cymylau rhudd,
Sy megis rhidens aur ger godrau nen;
Pelydrant ser trwy ddu amrantau nos
Gan wibio yn eu cylchoedd,—oll mewn trefn.
Ond, Och! ni allaf i mor edrych fry,
Fy ngofid gwasga'm llygaid at y bedd.
Ymwrida maes gan ros—ond nid i mi,

Mae blodau'n britho 'ngardd—i ereill maent;
Adleisia'r bryn gynghanedd ber y llwyn,
A mi yn wylo yn fy nirgel fan.
Geill adar ganu,—gallant fod yn fud,—
Geill anian fod yn llawen neu yn drist;
Geill ser lewyrchu,—neu ymgilio i niwl,
Geill haul roi gwawl neu wisgo caddug certh.
Yr un wyf i!
Ni threiddia gwawr drwy gwmwl du fy ing.
Pwy a iachâa fy nwfn, fy nirgel glwyf?
Pa feddyg glyw yr hyn na allaf ddweyd?
Nis galla dyn, holl allu dyn sydd fyr,
Ond Meddyg sydd a wel, a wyr fy mriw,
A'm gwna yn iach, ac a'm iachâa yn rhad;
Af ato *Ef* a syrthiaf wrth ei draed,
A'm gwaedd yn daer am olchiad yn ei waed.

ODLIG—CWYN.

O, ENAID y tirioni! anwyl fun
O deithi mor delediw, ac o lun
A hoffid ei oselu, mal pe ar
Nefolion lu y ceffid tremyn gwar!
Nefolion! O y syniad dwys! neud ti,
Anwylaf o anwylion, wyt o ran
Y menwydusion hyn yn selu bri
Yr Ion?—ac ar gymylau nef y pan
Y delo efe, er difa gormail byd,
Ti yn ei blaid orfodus gwelir ar y pryd.

Na wenai arnaf eiliw tòn,
Eluned lon oleuni!
Y delai yno imi les
Mal ias o des tirioni.

Pe imi lais a eiliai gan
Fal alaw glan nefolion,
Dy foliant cenid genyf fi
I loni diniweidion.

I mi anwyled sain dy lais
Ar olaf gais marwolion!
Tros gof i mi nid ela mo
Anwylaf o anwylion.

Am ganiad adar claf wyf fi—
O delent i delori,
A maws deleidion hinon lwys
O haf a mwys dirioni!

Y LLOER.

(Don Juan.—Can. I. CXIII.)

Machludai haul, a dwyrai hithau Loer
Wenfelen: cartref diawl er drwg yw hon;

Camenwid hi yn *Ddiwair*, am mai oer
  Ei gwedd; can nad oes hafddydd hiraf llon
A wela hanner troiau mall a doer
  Mewn awr neu ddwy gan wen y lleuad gron
Plith daiarolion—eto hi mor wyl
Edrycha fal yn brysiaw ar ei hwyl.

I GYMMRU.*

Hyfrydawl ydyw caffael drych
  Ar faesydd gwyrddion teg,
A gerddi ffrwythlawn Lloegr wych
  A'u haddurniadau chweg:
Hyfrytach fil im' golwg *i*,
O *Gymmru*, yw'th wylltineb di.

A thra hyfrydlon hefyd yw,
  Ar fy morëawl hynt,
Gael peraroglau blodau gwiw
  Yn nofiaw yn y gwynt;
Ond mil hyfrytach yw gan *i*
Un awel o'th fynyddgrug di.

* Derbyniai y Cyhoeddydd y Pennillion teimladwy hyn gan ei *gyfoes* a'i gyfaill *Glan Alun*, ychydig cyn ymadawiad yr olaf o Gymmru i Gaerludd. Ac hyderir na ddiffoddir gwreichionen o danbeidrwydd ei wladgarwch tra y preswylia efe yn ngerddi ffrwythlawn Lloegr wych; *tebygawl* hefyd, mai mil gwell gan ei gyfeillion â'r hon y gwnai addewid serchlawn gynt, (Gwyliedydd 1830, t. d. 383) yw

——————gwrando dwndwr cryg
Rhaiadrawg ffrydiau ein mynydd-dir gwyllt,
Na ffwdanllyd 'ru,' a 'phrysur wib' y Brif-ddinas.

Hyfrydawl ydyw gweled gwaith
  Effaith Celfyddyd gain,—
A rhyfedd adeiladau braîth
  Eirian maith aur a main;
Hyfrytach, *Gymmru*, fil i *mi*
Dy greigiau llymion noethion di.

A hyfryd gwel'd afonydd maith,
  Mal moroedd bychain bron;
A'r llongau gwychion ar eu taith,
  Gan ddawnsio ar y don;
Hyfrytach, *Gymmru* fil i *mi*
Yw tyrddiad cryg dy ffrydiau di.

A hyfryd yw y ddinas lawn,
  A phrysur wib ei llu,
A llon gymysgfa dysg a dawn
  A'u bywiol siriol ru:
Hyfrytach, *Gymmru*, fil i *mi*
Tawelwch dy bentrefi di.

Mi ddringaf draw i ben y bryn
  I edrych tua'm gwlad,
Ond gwawd dyeithriaid gaf am hyn
  Eu dirmyg a sarâad;
Ni wyddant hwy pa faint i *mi*
Sydd, *Gymmru*, plith dy fryniau di.

Y GORALWANT.

(Gan Felicia Hemans.)

Atebwch, tanawl Ser y nos!
Yr *Ysbryd* pa ei dra,
Tu hwnt i dremiant dynawl os
Ehedodd fal y chwa?

—Y Ser atebynt—"Ban mewn gwawl
A gallu, treiglwn ni:
Ond am yr enaid, oes didawl,
Bytholion hola di."

Ti Wynt amrylef, eang daith,
A wyddost ti ei gor,
Ei le a pha ei drwydded maith
Yn bell dros dir a mor?

—Y Gwynt godyrddai ateb crwn—
"Bum dros y dulas li,
Cyhyrddais donau uchel hwn,
Ond nid a gollaist ti."

Chychwi Gymylau eirian blaid
O gylch machludiad haul,
A feddwch gartref rhai o raid
Y daeth eu rhed i draul?

—Y cain Gymylau, hyn eu gwed—
" O nen diflanwn ni ;
I yn dy galon bythawl ged,
Am ddidranc ceisia di."

Mynega yna mewnawl Lais,
Er Duw mor ddwfn dy lef!
O ddwys drafferthion byd o drais,
I *Ysbryd* pa ei dref?

—Y Llais atebai—" Taw! o Ner
Iawn wybod yw dy fri,
Ynt iawn Gymylau, Gwynt, a Ser,
Ar Nef hydera di."

CATHL AR DDYDD YSTWYLL.

(Gan y Parch. Reginald Heber.)

GWYMPAF a gloewaf o blant boreuolion,
Treiddia ein caddug, bydd ini rwyddâad
Seren y Dwyrain, uwch trem daiarolion,
Noda orweddfa gwaredawl Fab Rhad.

Oer uwch ei gryd y ter wlithyn dysgleinia,
Isel ei wely ger milod mewn cor ;
Molant engylion oddiam man yr huna
Ein cu Achubydd, ein Brenin, ein Ior.

Ai er ei foliant nis dygwn yn heini
  Berion o Edom, arwyddion ein llawdd;
Morawl fyrierid, a glain coeth o feini,
  Mol o nodd coedydd, ac aur oddei glawdd?

Ofer am aberth ynt oll ein gofalon;
  Ofer ein haur ei gymwynas i gael;
Gwell yw o lawer addoliant y galon;
  Hoffach gan Dduw ynt erfynion y gwael.

GALAETH AR ANGAU MABAN.

(Gan Felicia Hemans.)

Na hidler deigrion erot, gwar
  Flodeuyn hanfod! hwnt dy lun!
Nis taenwn onid blodon ar
  Dy lwth, O, ddedwydd un!
Dy lwyr o oes, mal breilw wawr,
A synia wawl, ac ai i lawr.

Do, aethost, cyn y dygai gwyd
  Ar wedd ac enaid glan nawd flin!
Y blodyn mwyth a giliai fyd,
  Erioed nas teimla hin,
Ond gwen tes haul, ac awel flydd,
O gyntaf hyd ei olaf ddydd!

Tebyced oeddit i wedd gwawl,
Yn dirion gelwid ti gan nef,
Cyn mallai anadl byd er tawl
Ar dy ddiniwed lef!
A hono wlad i gain lonau
A elit yn dy gudeb clau.

O, pe mewn byd y ceffit oes,
Gwiw drem tirioni, teg fal briw,
Buaned y llygrasai loes
Gofidion llym dy liw!
Nis dwyra weithion awel hy
I welwi gwedd dy loewder fry.

Nis dodwn ar dy fedd na maen,
Na delw yn ei galar wedd,
O! iawnach yw i irwydd daen
Decâu hwn wely hedd:
Melysion flodau mwyth eu bri,
Ynt unig arwydd wiw i ti.

Dy fedd a fydd fenwydus ged,
Ar hon eiriana anian liw
Pob adeg ffaw a ddaw ar led
I daenu mygdarth gwiw;
Maws dwrdd telynau anwel, cain,
Dyg yno awel nos eu sain.

Ac, O! ar droion, elfod mad,
  Ar gwsg anfona dremion gwyn,
A dyg o fyd dy orphwysâad
  Ryw dalm i waeau dyn.
Pa lun mwy cu a ddygai lef
Nog eiddot ini o rad nef?

YMSON CATO.

(Gan Addison.)

Rhaid yw mai hyn—Plato, darbwylli di
Yn wiw—os amgen, py hwn obaith myg,
Hon hoff eidduned, yr hiraethiant hyn
Am anfarwoldeb? ynte o ba le
Hwn arswyd cudd, y cryd tumewnawl hwn
Rhag syrthiaw idd y dim? Py idd ei hun
Y cilia Enaid, y brawychu rhag
Difancoll? Yw y Duwdawd yn cyffröi
Sydd ynom; nef ei hun a arwyddâa
Ryw fyd ar ol, a bod tragwyddawl oes
I Ddyn. Tragwyddawl! ti y syniad cu,
Ofnadwy! trwy ba amryw fod heb brawf,
Pa droion, pa gyflyrau newydd sy
Raid ini drwyddaw! mae eangder wedd
Ddieithaf rhagof; ond cysgodion ynt,
Cymylau, a thywyllwch oddiar hyn.
Attaliaf yma. Od oes gallu fry,

(Ac Anian, trwy ei holl weithredion maith,
Goralwa fod,) mewn rhinwedd hoffa efe;
A hyn a hoffa rhaid mai dedwydd yw.
Ond pa bryd, neu pa le? Y byd hwn gwnaid
I Caisar. Blinaf ar amcanion mwy—
Mae rhaid i hwn ddiweddu arnynt byth.

Mal hyn amarfawg wyf—My marw ac
Fy myw, ynt rhagof ddïen ac iachâad.
Hwn haiach dyga ddiwedd arnaf fi;
Ond hon mynega byth na byddaf marw.
Yr Enaid, cadarn yn ei hanfod, gwena ar
Y llefnyn noeth, dirmyga hi ei flaen:
Diflanant hwy y Ser, yr Haul ei hun
Gan oed a welwa, Anian sodda mewn
Blynyddau; ond tydi blodeui drwy
Anfarwawl ieuant, heb eniwed gan
Elfenau brwd o far, defnyddion briw,
A bydoedd ar ymgolli yn eu ffrwch.

CATHL FORE EIN PRIF RIAINT.

(Coll Gwynfa.)

Dy gain weithredion di hyn oll, O Dad
Daioni, Hollalluawg, tau yr hwn
Fydysawd mor uthr deg, ti uthred wyt
Dy hun! anhyson, a eisteddi uwch

Y nefoedd hyn yn anwelsdwy, neu
Yn dy weithredoedd isaf hyn neud braidd
A welir; eto arddangosant dy
Ddaioni di tra bryd, a dwyfawl nerth.
Mynegwch a eill oreu son, chwi blant
Goleuni, chwi Angelion; canys ef
A welwch, a chan odlau, dydd heb nos,
Ar gynghaneddion mawr o lawenâad
Cylchêwch ei orsedd; chwi yn Nef, chwi oll
Y Daiarolion unwch i ei fawlâu
Ef cynt, ef ol, ef canol, ac heb dawl.
O ser y decaf, olaf o gordd nos,
Os nad mwy iawn i wawr dy dras, dir wystl
Dydd, yn coroni â dy gylchen befr
Y bore gwenawl, mola ef ar hwyl
Dy rod, tra dwyre dydd, mwyn bylgaint bryd.
Ti lygad, enaid hwn fyd mawr, ti Haul,
Addefa mwyaf ef, ac ef mawlâa
Ar dy drabythawl rawd, pan esgynêi,
Pan haeddi uchel nawn, pan leddfi di.
Lloer, à erbyni, ai a ffoi haul dwyr,
A safawl ser, saf yn eu rhod ar chwyl,
A chwi bump gloyn yn corelwi nid
Heb gan ar wib faith fwys, mwyêwoh ei fawl
A eilw y goleuni fry o gudd.
Wybr, a chwi y Deifnolion, cyntaf hil
Bru Anian, gan wastadawl ymdreiglâu
Pedrydan chwyl liosawg; a phob peth
A blith dryfaethwch; tröed eich didawl draill
O newydd idd eich Peryf mawr yn fawl.

Chwi weithion Darth a Niwl o fryn neu lyn
Ar godi, gwrm neu lwyd, nes eura haul
Eich ffluwch odrëon, er anrhydedd mawr
Beridydd byd esgynwch, awyr î
Eirioni, neu sech ddaiar i wlybâu
Gan laidd gawodydd, ai o gwnu fry
Ai bwrw i lawr o hyd llwyddêwch ei fawl.
Ei fawl, chwi Wyntoedd, o bedryfan chwyth,
Anadlwch war neu fan; a chwyfwch frig,
Chwi Sybwydd, a phob llys, o arwydd iawl.
Ffynonau, a chwi, o delori ar
Eich rhed, felysion dyrddau, aed eich mawl.
Chwi holl Fywiolion unwch leisiau mawr:
Chwi Adar, hyd borth Nef yn dwyn eich can,
Ar edyn ac ar anaw dygwch fawl.
O eddain ddyfroedd chwi, a daiar chwi
A gerddwch, syth o drawd, neu isel lusg;
Doed tyst os, hwyr neu fore, byddaf taw
I fryn neu bant, i ffrwd, neu argel werf
Yn llafar o fy nghan a dysg ei fawl.
Hael cyffredinawl Ion, yn hael parâa
I roi i ni ond da; ac os y nos
A gludai ddim o ddrwg neu gudd, ffwyrâa
Di hyn, mal weithion tarfa gwawl y gwyll.

DADENI.

Can. 1.

Ar fore cain, pan wisgai hinon haf
Ein daiar mewn dillynion aml o liw,
Gan rodïaw glan Dysyni ffraw, myfi
A syniwn hoffed gwedd pob pant a bryn
Blodeuawg; coed, o irain daen eu dail,
Mor lon gan drydar ednaint, a deffröi
O anian: wi! cysoned sain eu can,
Ac adlef iddi llais bywiolion maes
Achlân, er moli Perydd mawr y byd!

O dosted trwy fy mron y treiddiai ias
Argofion hiraeth! can mai nid fal cynt
Y teimlwn: nid fal cynt i lawenâu
Ar selu anian yn tirioni gwedd:
Amddifad yna oeddwn; heb fwynâad
Cyfoesi anwyl imi, yn y bedd
A yw—myfinnau yma! Nid fal cynt
I blith dillynion haf y rhodiwn fryn
A thyno i bwyllâu o amgen no
Melysion: ond y chweron amlycêynt
Eu rhiniau hagron bellach yn eu grym.
O! mynwn sylwi trefn y crëad hwn
Mor ryfedd, a gynnwysa gymysg da
A drwg mewn byw a marw o bob math!
Ti ddaiar, mam aneirif hilion dyn,
Dirgelaidd nawdd, ac iddo beddrawd fud,
Arswydus, ac idd ei obeithion fal
Ei ofnau oll, er dechreu amser mwth;
Ti gryd tragwyddawl geugant ar nesâad,
Gan unyd fyd o ryfeddodau maith
Na noethid, O ymalwaf erot ti
Ymwybod am afrifed brion yn
Dy fru gorëang, à arosant am
Eu pryd i fyw ger dawedadwy gnwd
O dwf er maethu to hyd hyn heb rith!
Ymalwaf erot, am dy dyfiant ir
Ymwybod! llyna hi y fesen lefn

A allo chwa i lawr ei chwythu odd
Ei chibyn destl hyd ar dy arffed bryw
A maethlawl, ac a sigler yno gan
Awelon oesoedd nes y byddo ddar
Gadeiriawg, yn gogrichiaw ar y gwynt,
Nas cryno chwaith pan ruo taran groch:
Ti er y mill ergrynawl, ar yr haul
Yr hon a dremia unwaith, yna heb
Alaethu marw; ti er hwnw haul,
Ei drem mor loew byth, a sylwai pan
O dryblith yr ymwthit ti i wawl,
A greidia heb oballu pan ryddâant
Dy holl ddefnyddion a dychwelyd idd
Eu cyntefigion soddau swrth o nawd:
Er dy gorwyntoedd chwyrn a rwygant drwy
Wyddeli ar dy fron, ac ar dy for
Gan ormes bar a dreisiant ar lawn rhwysg,
Yn brochi uwch cyfrinion dyfnder mud:
Er rhegain gnif dy gryndawd ti dy hun,
A fwria ar bob bywiawl drem oer fraw:
O ymoralwaf er dy hinon haf,
A daena hedd ar led dy lesin dawr—
Daiaren, ymoralwaf erot ti!
Hynotaf pa mewn dyn yw mwyfwy drwg
A lleilai da, trwy oesoedd ei barâad?

Ennynai hyn feddyliau dwys ac awch
Am wybod trefn Rhagluniaeth o erioed
Ac yna byth, y gwir i amlycâu
Am hwyl doethineb, trwy yr hon y mae
Y drwg i roddi da: er bod yn was
Addasawl, archwn fodd a nodded nef.
Ar hyn ymdeimlwn fal pe taenai hun
Ei thrymder lleth dros fy aelodau blin,
I beri imi ar y werddon fwyth
Ymgreiniaw. Diau, cwsg neu angeu wyt,
A dost ormesi, meddwn. Ond mi mwy
Ni allwn son na syniaw: can mai cof
A ballai weini pwyll, a byd a bod
Ar encil i dragwyddawl hudded nos.—

" Dibridda!" O pa lais fal hyn mor lwys
A dreiddia glyw? atebwn, a deffröi
A byw fy nwydau, càn dirioned drwy
Y galon fau yr elai ias y gair.
Agori y golygon man ar hyn
A wnelwn, ac fal eirian glais rhudd wawr
Y bore a oleuai, er y prin
Amdremiwn ogylch, ac arswydwn gan
Fod digynnefin nawd a gwedd pob peth,
A newydd, er mai go-anamlwg oedd.
Ac at y ghist y delai odwrdd lleddf,
Ar droion braidd y clywid, a mwyâu
A wnelai yna, ail i dwrf o bell
Orddyar morlan, pan yw tawel hin:
Ond tra mwy per nog eilw trylawn gor
Canorion, trwy fy nwydau taenai fwyth
Dirioni. Yna imi goleuâad
O euraid wawl amlygai mai is cel
Wyddeli irion, brith o flodau cain,
Y safwn, ar ael bryn ger iso bant,
Ac afon araf, mal am oedi hynt
I for dolenai hi gan hiraeth am
Ei glenydd gwyrddion: selwn hwnw for
O wyrddlas liw, a gloëw fal y glain,
Yn llenwi mechain is i benrhyn teg
A gamai am y pant, ymylau hwn
Gan weisdon wen y mor amledynt draeth
O aur. Agosi at y mor pwyllawn
Mai swn ei donau oedd yr eilw maws
A chwyfai awel tros y tir.
Amcanu yna gwybod mwy am le,
Tros gais amgyffred dyn mor lon, mor lwys
O ansawdd, chwiliwn o ba fan ei hynt
Yr afon der, er dyfru dolau mwyth
Eu glesin dawr blodeuawg. Cèr ei glan,
Trwy ambell brysg o fanwydd ir o dwf
Y rhodiwn, càn arsylwi loewed gwawr
Ei ffrwd a araf-lithrai dros ei gro
Amliwiawg, càn belydru eirian wawl;
Ac yma rhagof selwn mai ar dro
O duedd aswy, is i drumen garth,

A oedd gyfunyd lethr o hwnw fryn
Fy neffraw, yr oedd iddi osgo hynt
O drwyn y garth. Hyd yno y nesâwn
Er sylwi mwy ar le o wedd mor lwys
Nas medrą iaith dyniadon amlycâu.

Goduddai taen o fanwydd gilan gled
Is ael y drum, ac iddi lawr o gaen
Per flodau. Yn y gilan hon oedd torf
Benywaidd wedd mewn ymddiddanion clau:
Ac yno gwelwn adnabodus lun
Mewn eirian wisg o wawl a saethai drwy
Fy mron ias gu o nwydd anwylaidd ein
Tirioni gynt, à gaeth hiraethwn nad
Oedd imi mwy. Dynesai hi gàn wen
O wynfydedig gof yr undeb maws
A syn ddattodai angeu; a chan lòn
Amneidiaw gosteg, hi a hebai hyn.

Er ein gwahanu nid anwybod yw
I mi, yn nef, dy gyweddiawl aidd
Nad elwn, er ymadaw, tros dy gof:
Am dy gyweirdeb, gedid bod i mi
A thi ymweled, er dy lawenâu,
Ac i dy gyfarwyddaw, ar dy hawl
O hwyliaw drwg er da, a bydiaw byd.

Y chwe-dydd crëad gwyddost fal y maent
Gysgodion am y chwe-mil blwydd à ynt
I roddi odd y drwg lwyr amlycâad
I ddaiarolion, mal y delai gynt
I blith nefolion gyhyd bronad maith,
Yn hwnw fab y bore wawr, o nef
Fal mellten a luchedai ar ei gwymp,
Yn ffoi rhag llid yr Ion, pan gyflawnëid
Yr oedd goddefawl iddo, ar ei brawf
Cyntefig. Gwyddost na hir oedai mab
Y fall amlygu yn yr iso fyd
Ei nawd gythreulig, er y caffai rwysg
Ar grëad newydd Duw, yn ol y drefn
Benodawl iddo. Ar gyntaf ddydd

Y crëad hwn goleuni tarddai fry,
A mwth enciliai y tywyllni tew.
Ond buan soddid dynion trwy y cwymp
Angeuawl idd y gwyll: ac eto rhai,
Hyderus ar yr Ion, a gerddynt mewn
Goleuni, tra oedd iddynt arwyddâad,
Yn mywyd diwyd Addaf, mai y da
A drefnid iddynt. Dyna fal yr oedd
Yn wahanedig cyntaf ddydd i ddyn;
Ia, rhwng y teg oleuni ac yr hudd
Ofnadwy ar afrifed lu y lleill,
O nawd eu blaenawr, y cynleiddiad Cain;
Mal hyn gwahanid, trwy yr hwyr a thrwy
Y bore yn oed blwyddau cyntaf mil.

Yr eilfed dydd gwahanai wybren der
Rhwng dyfroedd isod ac y dyfroedd fry,
A hi canolai ynddynt. Y dydd hwn
Dyniadon oll dechreuynt ffoi y gwawl,
A delai drostynt hudd tywyllwch syn,
Ond Noah, pan wahanid iddo ef
Y dyfroedd, mal y caffai efe dir sych;
O herwydd iddo ef gwahanid gan
Yr arch y dyfroedd, er y byddai ef
Dan les goleuni nef; ond idd y rhai
Tywyllion dyli du cyffredin oedd.
Trwy oesoedd y tywylliant mawr yn glau
Yr amrysonai Yspryd Duw â dyn,
Yn ol rhagluniad dwfn, er dyfalâu
Y profiad mawr, i ddyn iawn farnu ar
Y drwg niweidiawl, yn yr eilfed mil.

Y trifed dydd y dyfroedd casglid idd
Eu man gynnefin, ac oedd sych y tir
Tyfiannawl; yna y dywedai Duw,
Na thoai dwfr y ddaiar mwy i ddyn
Gan fod y bwa byth i arwyddâu
Ar wybren nef gyfammod drugar iawn,
A môr adnabu ei derfynawl raith.
Yn oed y trifed dydd y tyfynt goed,
A cheffid pob amrywion aeron, bwyd

Bywiolion daiar. Hyn cysgodai bod
Y blwyddau trifed mil yn amlycâu
Dynodion ar gynnyddu cnwd o fad
Wybodaeth am yr Ion: ac enwau rhai
Cynriaint ynt ar gof tragwyddawl mai
Eu ffydd oedd byw, er cynllun i bob oes
Ganlynawl. Abraam, hwn oedd gyndad ffydd,
Aberthai er cysgodi aberth dros
Y byd truenus er ei gyfiawnâad,
A gwynfyd daiarolion drwy ei had.
Mal gloewon ser mewn nos, i arwyddâu
Yr oeddynt hwy: ac un golenad mawr
Oedd Moesen yn eu plith; a thrwy y nos
Etholedigion Duw goleuai efe
At dir addewid—cysgawd bod i ddyn
Ar seithfed mil o seibiaeth gael mwynâad.

Ar echwydd y pedwarfed dydd yr Ion
A ddelai yn oleuni mawr—ter *Haul*
Cyfiawnder y goleuni byw i ddyn,
Pelydron hwn a daenant gyflawn ias
O wynfyd; ia, goleuad mawr yw hwn
Yn wybren nefoedd, i wahanu rhwng
Y dydd a nos, ac er arswydion am
Y diwedd, i rybuddiaw, gwedi chwyl
Oed dyddiau a blynyddau, am nesâad
Ymweliad Mab y Dyn, mewn rhwysg a mawr
Ogoniant ar gymylau nef, i lwyr
Orfodi ei elynion, càn leâu
Ei deyrnas ar y ddaiar fal yn nef,
I gain oleuaw pawb drwy gyflwyr byd.
A Moesen, er tywynu drwy y nos
A gaffai ganddo er ei swydd ei wawl
Echwynawl i amlygu gwlad o rodd.

Ar dori gwawr y pummed dydd, i nef
Yr adergynai Dofydd, idd ei sedd
A braint cyntefig, gwedi cyflawnâu
Y gair, yr elai dan y bai gan ddyn
A roddid arno, yna idd y sarff
Y delai dial am ei lud. Mal hyn,

Yr Ion goleuni mwy a oedd no chynt
A sylwai byd: ae ei ddylyniaid aynt
Yn mlaen i daenu y goleuni mad
Drwy fore gwyll y pummed dydd; a rhai
Ehedynt ganddo ar adenydd ffydd
I nef: ond lluoedd afrif, mal y pysg,
A soddynt mewn gorddyfnder mor o wŷll;
Heb synied iddynt fod newyddion da
O fawr lawenydd, cael o ddyn ryddâad.

Am chwyl y chwechfed dydd llafarai Ner,—
Gwnawn ddyn, ac ar ein delw y lluniwn ef,
A bydded ben ar lu trigolion byd,
Ai milod maes, ai ednod wybr, ai pysg
Y mor; ac arlwyddiaethed ar pob peth.
Er hyn oedd crëad dyn; ond nid yw lwyr
Y gwaith; nid oedd ond cysgawd crëad pan
Ar fore byd y llunid dyn o lwch.
Am hyny ar y chwechfed dydd, ar hwyr
Y chwechfed mil o flwyddau, cyflawnâaf
Lwyr grëad dyn. Eguiais er y cwymp,
A dyn a ymegniodd ar y gwaith;
My Yspryd amrysonodd gyda dyn,
A chyd amrysonasant ddynion drwy
Yr oesoedd; rhai er da a rhai er drwg
Yn pleidiaw. Er cynluniaw, ac er dwyn
Y byd i hanfod, elwn drwy chwe dydd
Y crëad: a mynegais mai fal mil
Blynyddau yw un dydd; ac yna rhaid
Y gweithiwyf gyda dyn, i gyflawnâu
Ei grëad, cyn diweddu chwechfed mil;
Ac ar y dyddiau rhaid byrâu, er lles
Dynolion, a gorphenu trefniad cain
Y crëad: yna dyn, yr hwn oedd gwan
Ei lun dechrenawl, cyna bellach mewn
Nerth mawr, yn ol y cynamcaniad gwiw,
Ar lun a delw ei Dduw; a mwy ar ddyn
Galluoedd y tywyllwch ni luddâant;
A mi hyfrydaf ynddo; canys cynt
Mynegwn, Mi a grëaf bob rhyw beth
O newydd—nef a daiar newydd, man

Y bydd cyfiawnder, ac y rhwysga dyn
Mewn gallu ar bob peth; gallnoedd gwlad
Tywyllwch ymostyngant rhag nerth dyn,
Ac iddo deua gorphwys mewn gwir hedd.
Gwybydder, ar y seithfed dydd, ar ol
Fy ngwaith, y gwnelwn fi y wraig er cael
I ddyn gynnorthwy; yna, gwedi dydd
Y seibiant, hi a hudid gan y sarff.
Ac ar y sarff am hyn y dodid rheg
Dialedd. Trosai hyn fy mhob dydd gwaith
I fil blynyddau, i weithredu er
A chyda dyn; a thrwy addewid idd
Y wraig y llwyr gyflawnir gwynfyd dyn.

O hyn amredant dri o bythoedd maith
Y cengant, chwe-mil blwydd, wrth rifiad pwyll
Dyniadon i bob un: y cyntaf oedd
Yn yr uchelion, er y gwelid gan
Yr elod pa oedd nawd y drwg, a phwy
Safadwy oedd o honynt wrth y da,
Pan ymfalchiai Gwawlddwyn Mab y Wawr,
Yn mraint goruchel sedd, mai iawnaf ef
I rwysg breninawl no chyfeilydd Ior
Y Tragwyddoldeb, cu a gwar ei nawd.
A phan gyflenwid oed goddefawl rwysg
Yr ormes, delai idd y gwrthblaid blwng
Ei gyntaf syrth i le a barotöid
Yn oed chwe-dydd y gwrthryfelai mewn
Nefolion fanau, er ei olaf brawf,
Cyn delai dial arno am ei lwyr
Gamweddau, ac er gwrth i gyfiawn lu
Trwy fyd tragwyddawl, synied mai eu sat
Diogel yw o blaid daioni nef.
Y truenusion hefyd, pan ynt hwy
Wybodus mai o hud eu blaenawr balch
Y mae eu cwymp, ac yna gweled bod
Diangfa iddynt odd eu cyflwr gwael,
Pan alwer meibion dynion gan eu Ner
I roddi tyst er barnu drwg; ia hwynt
Drueinion am eu bai edifarâant
Gan dost wylofain, a derbyniant nawdd.

O fod cyflawniad amser ar nesâu,
Pan y boddlonid Ner o ymbwyllâad
Ei enaid, ac yr ymhyfrydai byth
O blaid dynolion, gorfoleddid drwy
Eithafion nef; ia gorhanfodau gwawl
Cysonynt lais i sain telynau maws,
I fanlef utgyrn a diasbed twrf
Taranau croch o orsedd wen yr Ion.
Yr elwch pan dawelai, elai gwys
I hilion menwydusion dyn nesâu
I wydd yr Un a seddai yn ei fraint
Cyfryngawl, er mynegi iddynt hwyl
Y cyfnewidiad mawr er cael rhyddâad
I ddaiarolion. Ar eu gosteg ddofn
A dwys, yr Ion adroddai wrthynt hyn.

Chwi hyderusion y bydd cyflawnâad
Y goramcanion mau, i ddynion gael
Ein delw, amlygaf pa yw chwyl a iawn
Amgylcha er y gorfoleddoch ar
Eich cas a dwyllai eich gwirioni gynt,
Yn moreu dydd eich hanfod.—Addaf, ti
Yn mlaenaf, tithau, Efa, tad a mam
Dyniadon; gorchwyl dial sydd yn ol
Addewid glau i chwi ei llwyr fwynâu,
O fwrw i lawr y sarff; ond ysgafu nid
Yw hyny; ac nid iawn heb i chwi fod
Eich hunain i osodi dwylaw wrth
Y gwaith; ac yna rhaid i chwi ymdöi
Mewn cnawd adfeilig; ond diweddaf dro
I chwi o nawd dynoldeb ydyw hyn;
A gwedi, hon breswylfa gain mwynëwch.—
Am ei gyflafan dost, ceir hefyd Cain
I syniaw pa yw cur, ac er cael oed
Y gwnelo, megys ei gyfrywion, iawn
I ddiniweidion byd.—Bu Abel war
Drwy amryw oes; bu o gysgawd mawr,
I lywiaw Aiphtiaid; bu dywysawg hedd
I Ganaan: y dylyniad anwyl mau,
Trwy fyd i farw, yn olaf delai efe.
I ddyndawd eled, er ymbarotöi,

Trwy nerth a roddaf iddo, am eu drwg
Falchineb, ac eu brad i wynfyd dyn,
I gaethu uffernolion ac eu pen,
Mal na bydd amser hudaw iddynt mwy.
A phan y rhwymo hwynt mewn cawiau pres,
Ar orsedd hedd eisteidda Efe, er barn
Ac er dyddanu brodyr, trwy y mil
Blynyddau: yna rhodda efe i mi
Y cyfan rwysg breninawl, ac i nef
Dychwela, gwedi y dialo am
Niweidiaw daiarolion, trwy lwgr pech.—
Tydithau Forwyn Fam, a thithau chwaer,
Er gorfoleddu ar y gelyn, ewch
I ymddyndodi yno gyda hwynt.
A chofia, Fam, y troion gynt o ing
A chystudd; yn dy eilfed oes, ti Fam
I hwn y crymynt Alphtiaid idd ei swydd;
Ac ar gyflawni amser, Mam i mi;
Yn awr, i Israel Mam a fyddi di.
Tydithau Chwaer, Mam y cenedloedd wyt
I fod, er unaw dynawl ryw mewn hoff
Gymwynas.—Chwi gyfeillion mau mewn byd
O gyni; chwi eiddunwch yno fod;
Am hyny ewch, er dial ar y fall.

Y dorf gwahanai, gwedi clywed hyn;
Ac mewn dyfalwch llon ymbarotöynt
Y rhai a enwid er yr elynt drwy
Drom chwyl daiarawl hanfod; ac eu ffawd
Oedd gathl o fawl ac elwch gan lu nef.

Ti, Perydd nef a daiar—cenynt hwy—
Trwy geugant tragwyddoldeb molwn di!
O, dyfned dy ddoethineb, dyfned dy
Wybodaeth yw! mor anchwiliadwy ynt
Dy farnau di, trwy oesoedd byd! ac mor
Anolrheinadwy ynt dy lwybrau di!
Gwelasom darddu drwg i daenu drwy
Y nef, a gwrth a syniem yna fod
I nawd y da, i beru cadarnâu
Ein safiad, a mwyâu ein gwynfyd byth:

Am hyn diolchwn ; molwn di am hyn !
Gwelasom hyrddu Gwawlddwyn Mab y Wawr
O nef, a hwynt ei blaid, i grëad cain
A newydd, er diweddaf brawf ; a nwyd
Niweidiawl gwelw ynddynt oedd i fyd
Daiarawl : pellach mae eu prawf ar ben ;
A gwelwn eu caethiwaw am eu bar ;
Ei diedifar far, ofnadwy nawd !
Llawenant ddaiarolion am nesâad
Eu gwared ; canys ganed yn eu plith
Nefolion offerynau ; ganid rhai
Y rhoddid gallu a doethineb er
Dialu ar gaeion iddynt hwy.
Gwelasom chwylion teyrn y drwg hyd hyn
A gwelwn bellach arno drwy
Y sawl a hudai gynt oddiwrth y da :
Y sawl yn oed eu seibiant drwy gain fyd
O hedd blynyddau fil a lawenâant :
Ac yna ti ein Ior molianna byd :
A ninnau arddwyrëwn di am fawr ryddâad
Hanfodaû tragwyddoldeb oddiwrth ddrwg !
A gwelwn le yr hwnw ddrwg ar bell
Eithafion gwawl, mal cwmwl du er cof
Ofnadwy nawd ei rwysg.—I ti ein Ior
Am hyn derchafwn ein tragwyddawl fawl.

Dystawai yna gathliad maws y dorf
Ysplenydd ; a thaweli hinon nef
A daenai leddf esmwythid ar bob trem.

Y

LLAN ANNGHYFANNEDD

GAN

GOLDSMITH;

CATHL AR Y TYMMORAU

GAN

THOMSON;

A

MYFYRDAWD GRAY MEWN MYNWENT:

GYDA

CHYFIEITHION EREILL AC AMRYWION.

GAN THOMAS LL. JONES.

Merch nef wèn, mam llawenydd,
Goreura dag reitheg rydd;
Da i anian dy eni,
Dedwydd o'th herwydd aeth hi.

Dewi Wyn.

CLWYD-WASG:

DINBYCH, ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

1831.

MYNEGIAD.

GYDA phetrusder mawr yr anturiaf gyhoeddi y Cyfleithion a Chaniadau canlynawl, y rhai nid ynt amgen na difyrwaith un na chyrhaeddai ei ugeinfed flwydd; prin y mae achos mynegu i rai, ac nid yw o bwys mynegu i neb, y cyfleithid a chyfansoddid yr amrywion hyn er dyddanu rhai o oriau hamddenawl fy mabolaeth, ac i ryddâu y meddwl yn achlysurawl oddiwrth orchwylion ereill. Nid oedd genyf erioed fwriad o ddodi ffrwyth fy llafur ger gwydd y byd, a phe buaswn yn hyderu ar fy nhybfarn fy hun yn unig, tebygawl iawn na chawsai fyth ymddangos yn argraffedig.

Diau y canfydda Craff-feirniad amryw anafau yn y Gwaith, ac o ddamwain efe a eill gael rhai pethau a gymmeradwya: erfynir ei hynawsedd wrth arholi y gwallau; a chofied mai ofer yw dysgwyl, ac anhyall yw cyrhaedd, y cywirdeb gorfanwl a foddlai archwaeth pob darllenydd; yn neilltuol mewn cyfansoddiadau prydyddawl, tra y tybia gymaint nas hanfoda barddoniaeth diledryw ond yn unig yn hualau gormesawl cynghanedd: gobeithiaf, hefyd, y bydd mor dyner ag ystyried ei fod yn golygu gwaith un na chaniatâai ei sefyllfa yn y byd iddo gyssegru yr amser sydd reidiol i gyrhaedd y manyliant a ddymunai.

Ni chaf, ond odid, gymmeradwyaeth nemawr odd y Beirdd a ddewisant gyfyngu eu hawenydd yn nghadwynau y *mesurau caethion*. Os llwydda fy nifyrwaith i weinyddu awr o ddywenydd a boddâad i achleswyr mydryddiaeth rhydd, ac ychydig fuddioldeb hyfrydaidd i fy nghyfoedyddion, cyflawnir fy nysgwyliadau gwresocaf. Hwn yw fy nghynnyg blaenaf, a dir yw mai dyma y tro olaf y bydd imi lyfasu i ymdrin mwy a chyfryw orchwylion; a phe na bydd y mabinogion hyn o lesâad na dywenydd, hyderaf na pherant niwed na thramgwydd i neb o fy nghydwladwyr.

T. LL. J.

TREFFYNNON, Alban Hefin, 1831.

Y

LLAN ANNGHYFANNEDD.

Ti Rydwen hoff! anwylaf làn y wlad,
Lle trigai'r gweithiwr llon mewn amledd rhad,
Lle harddai gwanwyn gynnar faes a dol,
Ac oedai haf i ddwyn ei wrid yn ol:
Cariadus ddeildai diniweidrwydd pur,
Lle treuliwn febyd hoenus a di-gur:
Mor fynych rhodiwn lwybrau gwyrdd y waen,
Lle'r oedd dedwyddwch gwlad yn gu ar daen!
Mynyched syllwn ar bob hyfryd swyn,
Y diddos fwth, y tyddyn ar y twyn,
Y felin ddiwyd, ddiball ffrwd y glyn,
Yr eglwys brydferth yn coroni bryn;
Y ddraenen werdd, a thani gynt y sedd,
Lle traethai henaint eu chwedleuon hedd,
Ac ieuaint siriol, o chwyddedig fron,
Yn sibrwd serch wrth eu cariadau llon!
Mor fynych gwyliwn am hwyrâad y dydd;
Fel byddai hoenus bawb o waith yn rhydd,
A meib y llan, rai heini a di-sen,
Yn dwyn eu campau dan yr osglawg bren:
A pharai eu chwariaethau lawer gwen,
Y llanciau chwai a foddient y gwyr hen;

Dichellion gwnaënt, rai gwladawl a di-fai,
Ac yn orchestawl ymgodymai rhai.
Er hyn, fal blinai y mwynderau 'u bron,
Dyfeisid ereill gan y fintai lon;
Y ddau wrth ddawnsio ceisient glod di-wall,
Gan ddawnsio am yr hwyaf heb ro'i pall;
Y llanc pardduawl gan y feinwen gu,
A barai chwerthin drwy gilfachau'r ty;
A thremyn sur rhybuddiai'r fam ei merch,—
Golygon gwyl yr hon amlygynt serch.
Hawddgaraf lan! dyddanus ar bob hynt,
E lonai llafur dy drigolion gynt;
Dy ddeildai ir, a'th holl brydferthwch hael,
A giliodd—ac nid oes ond adfail gwael.

Prydferthaf lan! anwylaf wyt o fil,
Aeth dy fwynderau difyr oll ar gil;
Yn mhlith dy ddeildai gwelir creulon law,
Ac anrhaith hyd dy faesydd taena fraw:
Uchelwr balch a reibia'th randir teg,
Dy hylon fro goddefa ddiffrwyth freg;
Dy ddysglaer ffrwd sydd rwym gan frwyn a hesg,
Yn treiglaw rhagddi ar ei gyrfa lesg;
Ni adlewyrcha mwy y ddoldir ffaeth,
Ei thwrdd sy'n cwyno rhag y gormes caeth;
Hyd dy adwyon y corsedn sydd,
Yn gwylio 'i ddidryf nyth ag oerlais prudd;
Yn mhlith dy anial lwybrau, sydd dan drais,
Eheda y cornicell blin ei lais.

Dy ddeildai glesin aethant oll yn friw,
A chwŷn gordyfa furiau'r bwth fu gwiw;
Dy fwyn drigolion, rhag y rheibus frad,
Gorfyddant ffoi yn mhell, yn mhell o'u gwlad.

Y tir sy ddiffaeth ac yn wael ei lun,
Lle cronir golud, a lle nychir dyn;
Blodeua bonedd ac arglwyddi ban,—
Gall chwyth eu gwnëyd a'u hedwi yn y fan;
Ond gwerin ddewr, sydd addurn penaf gwlad,
Pe collir hwynt, mwy ni cheir un llwyddâad.

Ar Brydain, cyn ei gwae, y gwelid pryd,
Pan meddai gweithiwr fuwch a bwthyn clyd;
A phawb, gan lafur iach diwallid hwy,
Caent oll gysuron bywyd, ond nid mwy:
Eu cyfymdeithion goreu, iechyd clau,
A diniweidrwydd glan, heb golyn gwae,
Eu golud penaf oedd eu dedwydd fryd,—
Boddlonent oll heb reibiaw golud byd.

Newidiodd amser; y masnachwyr nàn
A ddyg y tir o law llafurwr gwan,
Ar hyd y lawnt, lle gynt bu llawer bwth,
Yr huna balchder brwnt, a chyfoeth glwth;
Pob angen a ddug rhysedd yn ei rawd,
A'r gorthrwm a rydd bonedd ar y tlawd.
Yr oriau a wnai amledd gynt mor gu,
Y chwantau syml a garai gwladawl lu,

Y campau iach a harddai'r dawel fan,
A gwnaënt bob gwedd yn llon o fewn y llan;
Ar gil i chwiliaw trigfa gwell aynt hwy,
Defodau gwlad diniwed nid ynt mwy.

Ti RYDWEN hoff! lle treuliais oriau teg,
Pruddäodd difrod dy ardalau chweg.
Wrth grwydraw weithion ar fy nidrain rawd,
Dy lwybrau anial, a dy barthau tlawd,
Am ddyddiau'n ol y cofiwyf lawer hynt,
Lle safai'r bwth, a thyfai'r ddraenwen gynt;
Deffröa cof am hen fwynderau llon,
A llanwa hiraeth fy mhruddedig fron.

Wrth grwydraw trwy y byd, drafferthus fan,
Yn fy holl ing—a Duw ro'es im' fy rhan—
Gobeithiwn yma orphen hwyr fy nydd,
Gan orphwys plith dy ddeildai yn y gwydd;
A meithrin llusern einioes pan yn hen,
Gan dawel dreuliaw henaint gyda gwen:
E chwyddai gobaith hoff fy mynwes lawn,
Gael denu llu y pentref ar brydnawn
O gylch fy nhan, i adrodd iddynt hwy
Chwedleuon pleser na feddiannir mwy,
Gan ddyweyd fy holl helyntion ar fy hynt,
A chofion difyr am yr amser gynt;
Ac fal y geinach, o flaen cwn a chyrn,
Yn ffoi o gyrhaedd ei hymlidwyr chwyrn,

Gan flin ddeheü tuagat ei lloches glyd,
Gobeithiwn, gwedi holl flinderau byd,
Gael dychwel gartref ar edwinedd oes,
A marw yma'n dawel a di-loes.

Gwynfydig encil, cyfaill henaint gwan,
A hawddfyd, na ddaw mwyach i fy rhan;
Mor ddedwydd yw! a dreulia hyd ei fedd
Ei febyd yma gyda henaint hedd,
A ad y byd sydd lawn hudolion drwg,
A chyn ei ddenu, dianc rhag y gwg!
Er hwn nis gyrir truain, llwm a phrudd,
I rwygaw mor, na chloddiaw daiar gudd;
Ni safa wrth y drws un porthor sur,
I ymlid y newynus llawn o gur;
Ond rhagddo el i derfyn oes ddi-flin,
Ac engyl yn gwarchadw cyfaill rhin;
Heb lesgedd braidd, disgyna idd y bedd,
A chynnal crefydd ef yn war ei wedd;
Dysgleiniach mwyfwy fydd ei dduwiol fryd,—
Ei nef dechreua cyn diwedda ei fyd!

Per oedd y sain yr hwyr, yn aml cyn hyn,
Pan dderchai twrf y llan hyd ael y bryn;
Tra mi yn rhodiaw wrth fy mhwys yn llon,
Pob hoff deimladau chwyddent dan fy mron;
A chlywwn lef yr arydd ar y twyn
Yn ateb can y laethferch wridog fwyn;

Y gwartheg ar eu lloi, a bref di-fraw,
Yn adsain dros y wlad fod nos gerllaw;
Y gwyddau'n clegar ar yr asur lyn,
Yr ysgol-blant yn chware dan y bryn
Eu campau llon, a phob difyrwch llawn,
A bloedd y ci ar awel y prydnawn;
A'r chwarddiad uchel, arwydd ysgafn fryd,
Gan wyr y llan na flinai gofal byd:
Rhai hyn, gan sibrwd mawn yn nghil y llwyn,
Gwnaënt lenwi gosteg leddf yr eos fwyn.
Ond nan ni chlywir dynol lais ger bron,
Mwy ni chyffroïr y chwa gan drydar llon
Gwag yw y llwybrau, prysur ar hob hynt,
A ffodd yr holl breswylwyr dedwydd gynt;
Oll ond y weddw dlawd, a llwyd ei llun,
Sydd ger y ffrwd yn crwydraw wrthi ei hun,
Gan orfod yn ei henaint, loma ei phryd,
Er ymborth ddyosg berw gwyrdd y rhyd,
A chynnull tanwydd gauaf hyd y rhos,
Y dydd heb gysur, ac heb wely'r nos;
Nid oes ond hi yn ol o'r fintai fad,
I ro'i trist hanes am hen deulu'r wlad.

Yn min y berth, lle unwaith gwridai gardd
Lle eto tyf yn wyllt rai blodau hardd,
Ychydig fanwydd briw amlygant màn
Lle trigai gynt Offeiriad myg y llan.
Gwr anwyl oedd gan bawb, caredig, rhwydd,
Heb gyfoeth mwy no deugain punt y flwydd;

Ymdreuliai ef ei oes, o swn y dre,
Yn ddifefl, ac heb chwennych newid lle;
Diweniaith oedd, heb geisio mawredd byd,
Pob gau athrawiaeth oedd yn mhell o'i fryd;
Ei ymdrech oedd cysuro tlawd a thru,
Da gwyddai pob cardotyn ant ei dy;
Ni chefnai un heb gael ymgeledd brawd;
Ei gyfaill oedd y cofus henwr tlawd,
A'i farf yn llaesu ar ei fron yn wen,
Cai hwn le esmwyth yma dan ei ben;
Y llwm afradlawn, nan yn ddifalch iawn,
A geisiai nawdd, a chaffai groesaw llawn;
Y milwr hen gwahoddid ar ei hynt,
A chwedlai drwy y nos am frwydrau gynt;
Gan wylaw uwch ei glwyfau dros ei wlad,
A'i fagl dangosai modd enniliwyd cad.
A'r gwrda wedi clywed chwedlau cyd
Y truain hyn, hwy gaffent lety clyd;
Mewn afiaeth yr anghofiai bob ryw fai,
Wrth wrandaw cwynion y dyeithriaid rai;
Pan chwiliai am eu haedd ni chofiai'u gwŷn,
Tosturiai drostynt fal y dylai dyn.

Ei hoffder felly ydoedd noddi tlawd,
At rinwedd beunydd y tueddai ei nawd;
I bob ryw alwad ufuddâai yn rhwydd,
Tros bawb o'i blwyf gofalai yn ei swydd;
Ac fal aderyn, o anwyledd cu,
Yn dysgu idd ei hil ehedeg fry,

Ceryddai ddrwg, a hwy arweiniai ef
I adu byd, a rhodio llwybrau nef.

Gerllaw i wely angeu, terfyn oes,
A'r gwelw claf dan artaeth euog loes,
Y glwys weinidawg a'i weddïau clau
Cysurai enaid hwn o dan ei wae.
Enciliai arswyd, ac anobaith llym,
O ysbryd egwan y gwr-claf di-rym;
Dangosai gobaith iddo fyd y gwawl,
A'i eiriau olaf oedd yn sibrwd mawl.

Ac yn yr eglwys dirwysg yr oedd e,
Ei wedd addurnai y mygedig le;
Yn ffraeth mynegai wirioneddau Duw,
A gwawdwyr ffol, heb erlid, rhoddent glyw;
Ar ol addoliad, at eu bugail cu
Cynnullai gwyr y llan yn addwyn lu;
Dilynai 'r plantos, ag anwylaidd lef;
I dynu cŵr ei wisg, tra gwenai ef;
Amlygai gwen mor gu wresowgrwydd tad;
Ac yn ofalus carai eu gwellâad:
Ei fwyn serchiadau iddynt rhoddai ef,
Ond cartref ei fyfyrdod dwys oedd nef:
Fal mynydd ban, a dderch ei uchel ben,
Goruwch y fro hyd eangderau nen,
Er curo 'i fron gan bob tymmestloedd llym,
Gorphwysa heulwen fythawl ar ei drum.

Ar fin y ffordd gerllaw y clawdd sy friw,
Lle ofer gwridant flodau brith eu lliw,
Oedd gynt yr ysgol fwyn, drydarus fan,
Lle dysgai 'r athraw medrus blant y llan;
Efe oedd wr lled-sarrug yn ei ddawn,
Adwaenai 'r plant ei lymdost wedd yn iawn,
Da gwyddai y seguryn, ofnus fryd,
Ar ei foreuwedd gospau'r dydd i gyd;
Yn llawen chwarddent a rhagrithiawl lef,
Ar y cellweiriau llon a draethai ef;
Neud ebrwydd iawn y gwyddent pan oedd drwg,
Eu sibrwd chwai mynegai am ei wg:
Ond ef oedd addfwyn,—ac os gwelid llai
Mewn dim, ei serch at addysg oedd y bai;
Clodforid gynt gan bawb am ddoethder dwys,—
Ysgrifai, gwyddai hefyd rif a phwys;
E fedrai, meddynt, fesur tir a thai,
Cyfarwydd oedd a llanw mor a'i drai,
Os gwir y son. E oedd mor dda ei go'
Nes y dadleuai'r person lawer tro;
Er colli'r pwnc e haerai 'i fod yn wir,
Mewn geiriau dyfnion, a dysgedig hir,
Nes synai'r werin, oedd o'u cylch yn awr,
I ben mor fychan gynnwys dysg mor fawr;
Ond darfu mwy ei glod—dros gof yr aeth
Y fan lle bu y fath ddadleuon ffraeth.

Ar gainc y ddraenen acw gynt e fu
Yr arwydd-bren yn deau gwladawl lu,
I'r ty lle oedwid cwrw cadarn gynt,
A threuliai y plwyfolion lawer hynt;
Yr henwyr llwydfarf gyda'r llanciau llon,
Ar ol eu llafur ysgafneid eu bron;
A golwg doeth adroddai gwyr y waen,
Newyddion hyn no'r cwrw oedd o'u blaen.
Dychymmyg hoff i'm bryd y sydd yn dwyn
Y dodrefn gwych addurnai'r parlawr mwyn;
Y muriau gwyn, y llawr tywodlyd tlws,
Yr awrlais destl a'i dinc wrth gefn y drws:
Y dalgell lawn ag oedd o ddeuryw fudd,
Y nos yn wely, ac yn gist y dydd;
Y lluniau ar y pared gwych a glan,
A dyddan gamp-reolau ger y tan;
Ac yn yr haf yr aelwyd oedd mor hardd,
Gan frigau gwyrdd, a blodau teg yr ardd;
Uwchben y cedwid llestri trwyth neud briw
Yn addurn doethwych syml o foddion gwiw.

Diflannus fwynder brau! nas gallai oll
Adferu'r fangre rhag y difrod coll!
Yn adfail sawdd, ac ni chyfrana nan
Un awr o fwyniant i'r llafurwr gwan;
Byth mwy ni chyrcha gwreng o wridgoch rudd,
I lon annghofio lludded dwys y dydd;
Yr ammaeth a ddychwelai odd y dref,
Byth mwy ni ddel a'r newydd gyd ag ef;

Hoff gerdd y coedwr ar bob ddyddan daith,
Llon chwedlau 'r cilliwr mwy ni chlywir
Mwy ni lanâa y gof ei wyneb du, [chwaith;
Mewn saib i wrandaw yr hanesion cu;
A gwr-y-ty ni welir yno'n byw,
Hwn gynt a drefnai bob difyrwch gwiw;
Ni welir yno chwaith y feinir wen,
Fu'n gwrthod ei chofleidiaw yn ddi-sen,
Cusanai fin y cib mewn serch di-wall,
Gan ebrwydd ei drosglwyddo idd y llall.

Ia! sylled y goludawg balch mewn gwawd,
Ar syml fendithion y llafurwyr tlawd;
I mi mwy hoff, anwylach gan fy mryd,
Un wladawl swyn na gwychder celfau drud;
Anianawl fwyniant di-rwysg a di-gur,
Arddelwa'r enaid mal hyfrydwch pur;
Hyn sydd yn llawenau bob mynwes fwyn,
Heb ddant oenfigen fas, na chas na chwyn;
Ond hirfaith rwysg, corelwon ffug yr hwyr,
Pan yw trythyllwch golud gwych ar ddwyr,
Yr hyn, cyn i oferwyr prin fwynau
Eu blys, y pleser gau a dry yn wae;
A thra yr huda pob teleidion gwiw,
Gofyna'r galon leddf—ai pleser yw?

Gwladgarwyr a seneddwyr doeth eich rhan,
A welwch fonedd yn gorthrymu'r gwan,

I chwi y perthyn farnu yn ddi-frad
Rhwng agwedd ceinfalch a dedwyddwch gwlad.
Gan lwythau mwn balch-chwydda brig y don,
A Ffoledd gawr a'u cyrch i'r lan yn llon:
Tros chwant y cybydd cronir golud ban,
A thyra cyfoethogion o bob man.
Ond pa yw'r mael? Y cyfoeth yma sydd
Yn mynu 'n llafur ac yn dwyn y budd.
Annghyfiawn wastraff! Y goludawg drud
A ddyg gynnaliaeth llawer teulu clyd;
Myn barc, a chwn, a llynoedd, o bob rhith,
I'w feirch dihefeirch, pob addurnau brith:
A gwisgir sidan gan y gwr trahaus
A reibiodd hanner cnwd o lawer maes;
O fewn ei lys myn pob dyddanion glwth,
Heb gofiaw am dylodi llwm y bwth;
A chyrchir hwnt y gwladawl gnwd sydd well,
Yn lle moethusion afraid gwledydd pell;
Mal hyn y wlad, oedd lawn digonedd mwyth,
Gan fawredd gau dihoeni yn ddi-ffrwyth.

Mal benyw deg, ddiaddurn syml a chlau,
Yn gu tra yw ei hieuant yn parâu,
Dirmyga hi y swynion sydd ynglyn
A gwisgoedd cain, heb ddenu bryd y dyn
Gan rym ei llygaid llachar, ac heb gais
Am fuddugoliaeth serch drwy hud a thrais;
Ond pan diflano glendid odd ei phryd,
Pan gilia ie'nctid a chariadau ynghyd,
Hi yna doda addurnwisgoedd brith,
I erfyn sylw a rhodresol rith:

Efelly rhysedd balch a bair hyll frad,
Gan ddwyn prydferthwch syml a chyntaf gwlad;
Ond wrth adfeiliaw telaid yw ei phryd,
A synir wrth gain wedd ei llysoedd drud;
Tra erlid newyn tost y gweithiwr mad,
A'i deulu bach yn mhell o'r wenawl wlad;
A phan y muda ar ei ddidryf dro
Nis gwyr pa le y ceiff drigianawl fro;
Ac er mor ffrwythlawn ac mor gu ei gwedd,
Y wlad a gydflodeua'n ardd a bedd!

Och! p'le mae trigfan i'r tylawd a gwan,
Heb oddef gorthrwm balchder yn ei ran?
Os draw i rosdir gyr ei braidd yn flin,
I grwydraw arno am ei borthiant crin,
Trawsfeddwyd hwn, gan fonedd mawr eu mael,
Rheibiasant hwy holl fudd a hawl y gwael.

Pa beth ei erys yn y prysur dref?
Cael gweled llawnder na feddianna ef;
A myrdd o foddion gau er meithrin gwyn
Er pesgi gloddest, a phrinau ar ddyn;
Cael gweled bonedd beilch yn llawenau,
Trwy chwys eu cyfryw, ac ar draul eu gwae.
Mae yma'r llyswr* yn ei sidan gwych,
A'r crefftwr llwyd yn trin ei orchwyl nych;
Y beilchion yma a'u cerbydau sy,
Ac wrth y ffordd gerllaw seif crogbren du;

* Courtier.

Yr oriel* cyrchfa'r ddawns yn ayfadder nos,
Arfollir yno'r osgordd geinfalch dlos;
Gorwychder seinfawr lanwa'r heol fawr,
A'r gwymp gerbydau chwyrn yn siglo'r llawr.
Dir yw nas blina yma unrhyw gur!
Neud ynt arwyddion o lawenydd pur!
Ai hyn dy feddwl dwys?—Ah, tro dy drem
I'r man lle gorwedd bun dan dost loes lem:
Mewn llawnder yn ei gwlad gynt y bu hi,
Ond nan heb dy na neb a glyw ei chri;
O! fal tosturiai, pan yn mwth ei thad,
Dros ing diniwed a hudasai brad;
Ei gwylaidd wedd addurnai 'r bwth yn gain,
Mal gwena per friallu is y drain;
Un nawdd na chyfaill ni fedd yn y byd,
A chiliodd hoff ddiweirdeb oddei phryd;
Yn ymyl dor ei thwyllwr doda bwys
Ei phen, gan wylaw dan arteithiau dwys,—
Heb fan i lechu rhag y gwlaw a'r gwynt,
A chalon drom, amddifad iawn ei hynt,
Ochneidia dros y dydd a chwynus lef,
Pan fu yr anffawd iddi flysio tref,
Gan adael troell a symledd ty ei thad,
A'r fantell las a wisgai yn y wlad.

Hoff Rydwen! a yw'th deulu cuaf di,
Dy ferched gwiw dan gyfryw loes a hi?

Dome.

Efallai 'u bod, gan oddef newyn llwyd,
Wrth ddorau beilchion traws yn crefu bwyd!

O, na. I wledydd pell, rhai erch eu pryd,
Lle y mae rhyngynt hanner crwn y byd,
Trwy fröydd poeth y dorf yn crwydro mae
Lle adsain chwern Altama idd eu gwae.
O, mor annhebyg idd eu pentref mad,
Yw dychrynfëydd y fath erchyll wlad;
Yr huan tanbaid yn pelydru sydd,
Gan beru crasboeth annoddefawl ddydd:
Y coedydd gwyw lle mae yr adar man,
Heb lafar, gwedi llwyr annghofiaw can;
Ond braith wiberod, yno mae eu trig,
A hagr gryfangant hyd yr enbyd wig;
Gwenwynig faesydd llechfa'r scorpion ddu
A'i haint angeuawl hyd yr anial sy:
Lle ofna teithiwr gamu hyd y llawr,
Rhag deffro y ddïalgar neidr fawr;
Lle cynllwyn gwylltfil raib ar dir a thraeth
A dynion anwar, sy lofruddiaid gwaeth:
Lle mynych torcha uthrawl drowynt gawr
Gan yru yn gyd-anrhaith nen a llawr.
Mor dra annhebyg hyn i'w brodir hardd,
Y ffrwd ddolenawg, y flodeuawl ardd,
Y dolydd gleision y pereiddlon lwyn,
Lle odlai adar brithliw gerddi mwyn;
Y tawel gilion er diniwed serch,
I fwyn-lanc rodiaw a'i anwylaf ferch,

Och! rhag y diwrnod,—Och! dynghedfen ddu,
Ea gyrid ymaith o'u rhodfeydd cu;
Pan ddarfu bob ryw fwynder syllent hwy,
Mal eillion ar y llan na welynt mwy;
Gan ganu 'n iach i'r maesydd gwridawg llon,
